



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: 53296

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Papur Gwyrdd: Llunio Dyfodol Llywodraethiant Dŵr yng Nghymru

Rheoli Dŵr yn Gynaliadwy ar gyfer Cymunedau, Busnes, yr
Amgylchedd, Natur a Gwydnwch Hirdymor.

Dyddiad cyhoeddi: 3 Chwefror 2026
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 7 Ebrill 2026

Trosolwg

Bwriad y Papur Gwyrdd hwn yn nodi ein cynigion ar gyfer dyfodol llywodraethiant dŵr yng Nghymru.

Mae'n darparu ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion adolygiad y Comisiwn Dŵr Annibynnol o'r sector dŵr ac yn gwahodd barn ar sut gallwn ddarparu system ddŵr sy'n gweithio i bawb yng Nghymru.

Sut i ymateb

Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 7 Ebrill 2026 drwy unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- [Llenwi ein ffurflen ar-lein](#)
- [Llwytho ein ffurflen ymateb i lawr](#), ei llenwi a'i hanfon dros e-bost at: CCES.StrategyAndChangeTeam@gov.wales
- Llwytho ein ffurflen ymateb i lawr, ei llenwi a'i phostio i'r cyfeiriad a nodir isod o dan y manylion cyswllt.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn iaith arall.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd Amgylcheddol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Mae'r ddogfen hon [hefyd ar gael yn Saesneg](#)

Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac ar gyfer unrhyw ddata personol rydych chi'n eu darparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn. Bydd hyn yn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynglŷn â sut y byddant yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon dros brosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru. (Erthygl 6(1)(e))

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Mewn ymgynghoriadau ar y cyd, gall hyn hefyd gynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, efallai y bydd trydydd parti achrededig (ee sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) yn cael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan contract y gwneir unrhyw waith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion llym ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw na'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn eu golygu cyn eu cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth ac y gallai Llywodraeth Cymru fod o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu rhywfaint o wybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn a gyhoeddir eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch fel arall yn cael eu cadw am dair blynedd ar y mwyaf.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawl i'r canlynol:

- cael gwybod am y data personol sy'n cael eu cadw amdanoch chi, ac i gael gweld y data hynny
- mynnu ein bod yn cywiro gwallau yn y data hynny
- gwrthwynebu neu atal prosesu (mewn amgylchiadau penodol)
- i'ch data gael eu 'dileu' (mewn amgylchiadau penodol)
- cludo data (mewn amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio, neu os ydych chi am arfer eich hawliau o dan reoliad GDPR y DU, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays

CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: dataprotectionofficer@gov.wales

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113

Cynnwys

Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU).....	3
Cynnwys.....	4
Rhagair gan y Gweinidog	5
Crynodeb Gweithredol.....	8
Diwygio Dŵr yng Nghymru - Ein llwybr at newid	14
Pennod 1: Ein Cyfeiriad Strategol ar gyfer Dŵr yng Nghymru.....	17
Pennod 2: Cynllunio Gyda'n Gilydd ar gyfer System Ddŵr Wydn yng Nghymru	20
Pennod 3: Moderneiddio ein Fframwaith Deddfwriaethol yng Nghymru.....	30
Pennod 4: Cryfhau Rheoleiddio ac Atebolrwydd Dŵr Cymru	38
Pennod 5: Sicrhau Canlyniadau Gwell - Diwygio Rheoleiddio yng Nghymru	44
Pennod 6: Sicrhau Llywodraethiant Cryf a Chyfrifol ar gyfer Cwmnïau Dŵr yng Nghymru.....	64
Pennod 7: Adeiladu Seilwaith Gwydn ac Asedau Iach i Gymru	69
Pennod 8: Sicrhau Newid - Y Cyfnod Pontio a Gweithredu yng Nghymru	82
Geirfa	85
Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	88

Rhagair gan y Gweinidog

Mae dŵr yn hanfodol i bob rhan o fywyd yng Nghymru, i iechyd ein pobl a natur, i lwyddiant ein heconomi a gwydnwch ein cymunedau. Mae'n adnodd gwerthfawr y mae'n rhaid ei reoli'n gynaliadwy, yn deg ac er budd y cyhoedd.

Ddegawd yn ôl, roedd y Strategaeth Ddŵr i Gymru yn gosod gweledigaeth glir ar gyfer rheoli dŵr fel ased cenedlaethol strategol. Er hynny, rydym wedi gwneud cynnydd o ran gwella ansawdd dŵr yfed, wedi buddsoddi mewn diogelu'r amgylchedd, wedi ehangu cymorth i ddefnyddwyr ac ymgorffori egwyddorion [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#). Rydym wedi buddsoddi dros £56 miliwn ers 2022 i fynd i'r afael â heriau ansawdd dŵr ledled Cymru, gan ariannu camau gorfodi, monitro ac atebion sy'n seiliedig ar natur i ddiogelu ein hafonydd.

Ond mae Cymru bellach yn wynebu realiti newydd. Mae'r argyfyngau hinsawdd a natur, ochr yn ochr â heriau parhaus, yn galw am weithredu ar frys. Nid yw system ddŵr a gynlluniwyd ar gyfer oes wahanol bellach yn diwallu anghenion ein pobl, ein hamgylchedd na'n heconomi. Rydym wedi gwneud cynnydd da, ond mae pobl ledled Cymru'n iawn i bryderu am ollyngiadau carthion, hen seilwaith a chyflwr dŵr yn eu cymunedau. Ni allwn sefyll yn ein hunfan. Mae'n bryd ail-ddechrau o'r newydd.

Bydd gwella iechyd ein hafonydd yn galw am weithredu ar draws yr holl amgylchedd dŵr. Mae pwysau yn sgil defnydd tir, amaethyddiaeth, a'r ffordd y mae deunyddiau organig yn cael eu rheoli ar ôl eu rhoi ar dir, i gyd yn cyfrannu at gyflwr ein dalgylchoedd. Felly, byddwn yn arddel dull system-gyfan, gan sicrhau bod gwaith i newid llywodraethiant dŵr yng Nghymru yn cyd-fynd â chamau ehangach i fynd i'r afael â llygredd maethynnau, i gryfhau atebolrwydd, ac i adfer ymddiriedaeth bod y system yn gweithio er budd y cyhoedd.

Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i wella sut mae'r system yn gweithio. Dros y degawd nesaf, byddwn yn llunio ac yn darparu system ddŵr sy'n gweithio i Gymru, gan ddiogelu natur, cefnogi cymunedau a gyrru dyfodol carbon isel. Dyma ein degawd o adferiad.

Ein huchelgais yw creu fframwaith rheoleiddio i Gymru sy'n adlewyrchu ein blaenoriaethau ac yn cryfhau atebolrwydd. Rydym eisiau sefydlu rheoleiddiwr dŵr economaidd i Gymru gyda'r awdurdod a'r annibyniaeth sydd eu hangen ar Gymru, ond ni all hyn ddigwydd heb sicrhau'r pwerau datganoledig angenrheidiol. Dyna pam y byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i geisio cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol a chyflwyno Bil Dŵr newydd i roi gwerth cyhoeddus a gwydnwch amgylcheddol wrth galon y system. Bydd hyn yn gosod y sylfeini ar gyfer dull tryloyw ac ymatebol sy'n cael ei lunio gan anghenion pobl a chymunedau yng Nghymru. Bydd ein dull rheoleiddio economaidd yn seiliedig ar fwriad i greu amgylchedd buddsoddi sy'n sefydlog ac yn rhagweladwy.

Mae hon yn foment dyngedfennol i Gymru. Rydym yn mabwysiadu dull rhagweithiol a chydweithredol sy'n canolbwyntio ar y dyfodol i ddarparu system sy'n bodloni blaenoriaethau Cymru gan sicrhau cydlyniant ar faterion trawsffiniol a chysoni lle mae hynny'n bwysig. Mae pethau'n newid yn Lloegr hefyd. Ar 20 Ionawr 2026, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Phapur Gwyn, *A New Vision for Water*, sy'n amlinellu rhaglen o newid ar gyfer y sector dŵr yn Lloegr. Er bod y Papur Gwyn yn canolbwyntio ar drefniadau yn Lloegr, mae natur integredig bresennol rhai rhannau

o'r system ddŵr yn golygu bod gan y newidiadau hyn oblygiadau i Gymru, ac mae'n tanlinellu pwysigrwydd cydlynu trawsffiniol effeithiol yn ystod y cyfnod pontio.

Er y bydd y newidiadau hyn yn gwneud i bethau weithio'n well, ni fyddant yn cael gwared ar y dewisiadau anodd sydd o'n blaenau. Bydd anghenion buddsoddi ar gyfer gwella'r amgylchedd, addasu i'r hinsawdd ac adnewyddu seilwaith yn mynd y tu hwnt i'r hyn y gall cwsmeriaid ei fforddio'n rhesymol. Bydd angen gwneud penderfyniadau anodd wrth gydbwyso buddsoddiad â fforddiadwyedd, a bydd y rhain yn gofyn am benderfyniadau cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau'r canlyniadau gorau i Gymru.

Mae denu buddsoddiad yn hanfodol, a bydd ein dull gweithredu yn ymgorffori polisi a system reoleiddio sy'n gadarn, yn dryloyw ac y gellir ymddiried ynddi, gan roi hyder i fuddsoddwyr a phartneriaid ledled Cymru a'r DU yn ehangach. Bydd cyflawni'r uchelgais hon yn gofyn am ymrwymiad hirdymor parhaus. Rhaid cael system reoleiddio sefydlog, dryloyw a dibynadwy i sicrhau'r buddsoddiad angenrheidiol er mwyn gwella canlyniadau amgylcheddol, adnewyddu seilwaith sy'n heneiddio a chryfhau gwydnwch. Nid yw datblygu cyfundrefnau i'r dyfodol yn ddigon, ond byddant yn gyfrwng i ddarparu'r sicrwydd hirdymor sydd ei angen i gefnogi buddsoddi cyfrifol law yn llaw â chadw gwasanaethau'n fforddiadwy. Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn nodi sut y gallai trefniadau yng Nghymru yn y dyfodol sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi yn cyd-fynd yn well â gwerth cyhoeddus, blaenoriaethau amgylcheddol ac anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r system bresennol yn rhy gymhleth. Nid yw'n ddigon tryloyw nac yn ymatebol i'r hyn y mae pobl yn ei ddisgwyl. Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn nodi sut rydym yn bwriadu symleiddio a chryfhau trefniadau, gan roi diogelu'r amgylchedd a gwerth cyhoeddus wrth galon llywodraethiant dŵr.

Mae'r Comisiwn Dŵr Annibynnol (y Comisiwn) yn cydnabod bod amgylchiadau Cymru yn wahanol i Loegr, gyda sector llai, blaenoriaethau datganoledig a ffocws cryf ar lesiant a chynaliadwyedd. Byddwn yn adeiladu ar y cryfderau hynny, gan sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er budd y cyhoedd.

Byddwn yn mabwysiadu dull cyfannol o gynllunio a rheoleiddio, gan ystyried yr amgylchedd dŵr cyfan yn hytrach na chanolbwyntio ar y diwydiant yn unig. Bydd gwelliannau'n gofyn am newidiadau yn y ffordd rydym yn defnyddio tir a gweithredu ar draws ystod eang o sectorau. Mae Cymru'n wynebu heriau gan gynnwys gwrthsefyll llifogydd a sychder, datgarboneiddio'r sector, gwrthdroi colli bioamrywiaeth ac uwchraddio seilwaith sy'n heneiddio a hynny tra'n cadw gwasanaethau'n fforddiadwy. Drwy gydweithio ar draws llywodraeth, diwydiant a chymunedau, byddwn yn troi'r heriau hyn yn gyfleoedd ar gyfer arloesi a gwydnwch.

Byddwn yn ymgorffori egwyddorion economi gylchol ar draws y system ddŵr. Mae hyn yn golygu mynd i'r afael â phroblemau yn y ffynhonnell, hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a sicrhau bod deunyddiau, gan gynnwys cemegion sy'n peri pryder, yn cael eu rheoli a'u gwaredu'n gyfrifol. Drwy fabwysiadu dull sy'n uwch i fyny'r gadwyn, byddwn yn lleihau effaith llygryddion ar ansawdd dŵr, er enghraifft drwy reoli slwtsh carthion yn well. Mae hwn yn ymrwymiad newydd ac uchelgeisiol i Gymru, gan symud oddi wrth atebion diwedd y bibell i gymryd camau atal rhagweithiol.

Nid dim ond am y diwydiant dŵr mae hyn. Mae'n ymwneud â'r amgylchedd dŵr cyfan a sut rydym yn rheoli pwysau ar draws sectorau. Rydym yn croesawu argymhellion y Comisiwn sydd wedi siapia'r Papur Gwyrdd hwn. Ond dim ond y

dechrau yw hyn. Rydym eisiau eich barn a'ch tystiolaeth i'n helpu i adeiladu system sy'n cyflawni ar gyfer pobl, natur a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae Cymru'n cymryd camau pendant. Rydym eisiau afonydd glân a ffyniannus, dŵr yfed diogel o ansawdd uchel, gwasanaethau teg a fforddiadwy, a seilwaith sy'n barod ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau. Byddwn yn cryfhau atebolrwydd, yn ailadeiladu ymddiriedaeth ac yn darparu fframwaith rheoleiddio sy'n denu buddsoddiad ac yn sbarduno arloesedd. Gyda'n gilydd, mae gennym ddyletswydd ar y cyd i adael ein systemau dŵr mewn cyflwr gwell nag yr oeddent, yn wydn, yn gynaliadwy ac yn barod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r gwaith hwnnw'n dechrau nawr.

Crynodeb Gweithredol

Rydym yn benderfynol o ddarparu system ddŵr yng Nghymru sy'n gynaliadwy, yn wydn, ac sy'n darparu gwerth amgylcheddol a chyhoeddus parhaus. System sy'n cefnogi cymunedau iach, busnesau llwyddiannus, a bioamrywiaeth ffyniannus. Fel y nodir yn ein Strategaeth Ddŵr i Gymru, rydym wedi ymrwymo i reoli ein hadnoddau ddŵr yn gynaliadwy, defnyddio ddŵr yn effeithlon, diogelu a gwella ansawdd ddŵr, gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd, a gwella ein systemau ddŵr naturiol. Yn ganolog i'r weledigaeth hon mae dull gweithredu cenedlaethol sy'n seiliedig ar systemau sy'n dod â chymunedau, busnesau, rheoleiddwyr a'r llywodraeth at ei gilydd i sicrhau bod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud heddiw yn arwain at fanteision am genedlaethau i ddod.

Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn nodi ein bwriad ar gyfer dyfodol llywodraethiant ddŵr yng Nghymru. Gan adeiladu ar sylfeini cryf ein Strategaeth Ddŵr, mae'n ymateb i heriau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg ar faterion fel pwysau hinsawdd ac ansawdd ddŵr amgylcheddol, a'r angen am fwy o ymddiriedaeth ac atebolrwydd ymysg y cyhoedd. Mae'n amlinellu ein cynigion ar gyfer diwygio ac yn gwahodd barn ar sut y gallwn ddarparu system ddŵr sy'n gweithio i bawb yng Nghymru.

Mae ein dull gweithredu yn seiliedig ar egwyddorion tegwch, cynaliadwyedd a gwerth cyhoeddus, ac mae'n cael ei lywio gan ein dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#) a [Deddf Cymru 2017](#). Rydym wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â phob grŵp i sicrhau bod trefniadau yn y dyfodol yn gynhwysol, yn dryloyw ac yn ymateb i anghenion Cymru.

Mae'r Papur Gwyrdd hwn hefyd yn ymateb i adroddiad terfynol y Comisiwn, sy'n darparu adolygiad cynhwysfawr o'r sector ddŵr a'r amgylchedd ddŵr ehangach. Mae'n nodi saith maes allweddol lle mae angen diwygio beiddgar. Mae argymhellion y Comisiwn yn cynnig sylfaen gref ar gyfer newid, ac mae'r Papur Gwyrdd hwn yn amlinellu cyfeiriad cychwynnol llywodraeth Cymru, gan adlewyrchu cyd-destun, gwerthoedd a chyfrifoldebau datganoledig unigryw Cymru.

Mae pob pennod yn cyfateb i thema a nodwyd gan y Comisiwn ac mae'n adeiladu ar y weledigaeth a'r egwyddorion a nodir yn ein Strategaeth Ddŵr i Gymru. Mae'n amlinellu syniadau llywodraeth Cymru ac yn gwahodd safbwyntiau i lywio cam nesaf y diwygio. Mae hwn yn gyfle hollbwysig i adeiladu ar ganfyddiadau'r Comisiwn a sicrhau bod unrhyw system yn y dyfodol yn cyflawni ar gyfer Cymru, ein cymunedau, yr amgylchedd a'r economi.

Ar gyfer ein cwsmeriaid yng Nghymru, byddwn yn ymgorffori ymgysylltu lleol a rhanbarthol strwythuredig yn y broses Cynllunio System Genedlaethol newydd er mwyn i gymunedau allu helpu i lunio blaenoriaethau dalgylch a rhoi eu barn ar ble y dylid canolbwyntio'r buddsoddiad.

Byddwn hefyd yn ymgynghori ar gryfhau'r broses gwneud iawn i gwsmeriaid yng Nghymru, naill ai drwy lwybr penodol i Gymru neu drwy gymryd rhan mewn model ombwdsmon ar gyfer Cymru a Lloegr, ac yn asesu adnoddau fforddiadwyedd ar gyfer aelwydydd incwm isel i helpu cadw biliau yn deg ac yn gyson. Yn ystod y cyfnod pontio, bydd y Datganiad Polisi Strategol yn gosod disgwyliadau interim ar gyfer gwasanaeth, tryloywder a chymorth i gwsmeriaid yng Nghymru.

Er mwyn sicrhau amgylchedd dŵr cynaliadwy a gwydn yng Nghymru, rydym yn gofyn am farn pobl ar Gynllunydd Systemau Cenedlaethol i Gymru. Bydd hyn yn helpu i gysoni penderfyniadau ar gyfer basnau afonydd, arfordiroedd a dyfrhaenau fel eu bod yn tynnu i un cyfeiriad strategol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau Cymru. Bydd rhaglenni dalgylch yn integreiddio buddsoddiad cwmnïau, rheoliadau Cyfoeth Naturiol Cymru a mesurau lleol, gan dargedu'r enillion ecolegol mwyaf yn gyntaf. Rydym yn cynnig ymgynghori ar safon ofynnol ar gyfer tryloywder amgylcheddol ac archwilio opsiynau ar gyfer cyhoeddi dangosfyrddau cyhoeddus sy'n cyfuno data rhyddhau, iechyd afonydd a gorfodi. Rydym yn gofyn am dystiolaeth ynghylch pa newidiadau pellach y dylid eu hystyried i Hawliau Datblygu a Ganiateir ar gyfer seilwaith dŵr, a hefyd ynghylch y mesurau diogelu sydd eu hangen i gydbwysu cyflawni'n gyflymach â diogelu'r amgylchedd, gan ymgysylltu â'r gymuned fel rhan o unrhyw ddiwygio ar Hawliau Datblygu a Ganiateir yn y dyfodol.

Un o amcanion canolog y dull gweithredu a nodir yn y Papur Gwyrdd hwn yw sicrhau bod buddsoddiad yn y system ddŵr i'r dyfodol yn cefnogi adferiad amgylcheddol hirdymor, gwydnwch a fforddiadwyedd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod denu a chynnal buddsoddiad yn dibynnu ar eglurder rheoleiddiol, sefydlogrwydd a hyder yn y cyfeiriad hirdymor. Felly, mae'r ymgynghoriad hwn yn edrych ar sut y gallai trefniadau yng Nghymru yn y dyfodol sicrhau bod cynllunio, rheoleiddio a buddsoddi yn cyd-fynd yn well â gwerth cyhoeddus a chanlyniadau amgylcheddol.

Rydym yn gweithredu'n dryloyw, fesul cam wrth i ni symud o'r trefniadau presennol tuag at drefniadau'r dyfodol. Rhagwelir y bydd tri cham bras. Yn gyntaf, newid deddfwriaethol, gyda Chymru yn ceisio pwerau galluogi drwy ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU, ac yn amodol ar hyn, Bil dilynol gan y Senedd i ddiweddarau'r trefniadau i ddarparu'r pwerau newydd yng Nghymru; yn ail, bydd angen i ni sefydlu corff rheoleiddio economaidd newydd i Gymru, gan ymgorffori'r rheoleidiwr economaidd a chynllunydd y system; ac yn drydydd, bydd y corff newydd yn 'Dod i Rym' ac yn ymgymryd â'r swyddogaethau newydd yn y 2030au wrth gyflwyno'r trefniadau ar eu newydd wedd i gyflawni'r swyddogaethau yng Nghymru, ac erbyn hynny bydd y trefniadau newydd yn gwbl weithredol. Drwy gydol y cyfnod hwn, bydd rhaid cynnal goruchwyliaeth reoleiddiol, gan gynnwys adeg y cyfnod adolygu prisiau nesaf, gan osod cyfeiriad interim a gwneud gwaith cynllunio ar y cyd i reoli'r cyfnod pontio er mwyn darparu eglurder i gwmnïau, cwsmeriaid a buddsoddwyr.

Yn ystod y cyfnod pontio, bydd y cyfrifoldebau rheoleiddio presennol yn dal i fod ar waith, gan gynnwys ansawdd dŵr yfed, rheoleiddio amgylcheddol ac eiriolaeth cwsmeriaid. Bydd y trefniadau'n cael eu cydlynu i sicrhau sefydlogrwydd a darpariaeth effeithiol ledled Cymru.

Yng Nghymru, rhagwelir y bydd gennym ddau gyfnod pontio o fewn y tri cham newid a fydd yn esblygu wrth i ffrydiau gwaith fynd rhagddynt. Mae'r cynllun pontio cyntaf yn gynllun ar y cyd â Defra i sicrhau parhad rheoleiddiol, gyda'r ail yn ymdrin â'r camau sydd eu hangen i drosglwyddo i'r corff a'r drefn reoleiddio newydd yng Nghymru.

Bydd y cynllun pontio cyntaf yn nodi'r camau allweddol a'r egwyddorion ar gyfer newid yng Nghymru, gan roi eglurder i randdeiliaid ynghylch sut bydd y rhaglenni yn Lloegr ac yng Nghymru yn rhyngweithio drwy gydol y cyfnod o roi'r diwygiadau ar

waith. Rydym yn cydnabod y bydd rhai penderfyniadau'n parhau i fod yn destun prosesau ymgynghori a deddfwriaethol. Mae'n bwysig cydnabod bod yr amserlenni ar gyfer newid yng Nghymru ac yn Lloegr yn wahanol, ac yng Nghymru bydd y cynllun cychwynnol hwn yn canolbwyntio ar sicrhau parhad goruchwyliaeth reoleiddiol a llywio prosesau cynllunio cwmnïau dŵr, yn ogystal ag eglurder ynghylch llywodraethiant, amserlenni a threfniadau ymgysylltu yn ystod y cyfnod pontio. Byddwn yn parhau i weithio gyda Defra i sicrhau bod cerrig milltir deddfwriaethol, trefniadau llywodraethiant a swyddogaethau rheoleiddio trawsffiniol yn cyd-fynd, ar yr un pryd ag adlewyrchu'r cyd-destun penodol a'r amserlen ar gyfer diwygio yng Nghymru.

Bydd cwmnïau dŵr sy'n gweithredu yng Nghymru yn cael eu harwain gan fframwaith canlyniadau cenedlaethol a dull gweithredu diwygiedig ar gyfer cynllunio busnes. Mae cynlluniau sy'n gorgyffwrdd yn cael eu cyfuno a'u hail-ganolbwyntio ar gyflawni a chanlyniadau aml-fudd. Bydd Cod Llywodraethiant Dŵr Cymru yn nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol ar lefel bwrdd am lwybrau iechyd asedau a chanlyniadau amgylcheddol/cwsmeriaid, wedi'u hategu gan ddangosfyrddau perfformiad cyhoeddus. Bydd Hawliau Datblygu a Ganiateir wedi'u Targedu yn cyflymu gwaith rheolaidd risg isel; bydd cydsyniad strategol yn cael ei drefnu drwy'r cynllun systemau.

Mae ystyriaethau trawsffiniol yn hollbwysig gan na ellir trawsnewid y sector dŵr ar ei ben ei hun. Mae dŵr yn adnodd a rennir sy'n sail i iechyd y cyhoedd, gwydnwch amgylcheddol a sefydlogrwydd economaidd. Mae'n cyffwrdd â phob agwedd ar fywyd, o ddiogelwch dŵr yfed a diogelu defnyddwyr i addasu i'r hinsawdd a bioamrywiaeth, a rhaid i'r ffordd y caiff ei reoli adlewyrchu anghenion presennol a rhai cenedlaethau'r dyfodol.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i archwilio'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyrdd. Mae hyn yn cynnwys trafod cwmipas y cymwyseddau deddfwriaethol a gweithredol a allai fod eu hangen i roi'r cynigion hyn ar waith. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydnabod ein bod ar drothwy normal newydd. Er mwyn cyflawni hyn yn llwyddiannus, rhaid i lywodraethiant a'r swyddogaethau datganoledig cywir fod ar waith, wedi'u hategu gan brosesau sy'n gadarn yn gyfreithiol. Rydym yn gofyn am gymhwysedd deddfwriaethol estynedig ac am bwerau statudol a swyddogaethau gweithredol perthnasol, sydd i'w cael ar hyn o bryd mewn deddfwriaeth Cymru a Lloegr gyfan, i fodoli o fewn cylch gwaith y Senedd a Gweinidogion Cymru oherwydd eu bod yn hanfodol i weithredu argymhellion y Comisiwn ar gyfer Cymru ac i gyflawni ein huchelgeisiau polisi ehangach ar gyfer gwydnwch, tegwch ac uniondeb amgylcheddol. Mae'r argymhellion hyn yn galw am eglurder rolau, atebolrwydd cryfach, a chynllunio integredig ar draws ffiniau, ac maent yn cyd-fynd â'n gweledigaeth ar gyfer system sy'n gweithio i Gymru ar yr un pryd â chyfrannu at amcanion cyffredin y DU.

Mae'r rhesymeg yn glir. Mae angen goruchwyliaeth gydlynol ar asedau a rennir a phwyntiau cydgysylltu er mwyn osgoi effeithiau anfwriadol ar gymunedau neu'r amgylchedd. Rhaid i gynllunio adnoddau strategol adlewyrchu blaenoriaethau Cymru ar yr un pryd â pharhau i gyd-fynd ag amcanion gwydnwch ehangach y DU. Mae angen sail statudol ar fecanweithiau datrys anghydfodau a thryloywder, fel yr argymhellwyd gan y Comisiwn, er mwyn ennyn ymddiriedaeth a hyder. Bydd y pwerau hyn yn galluogi Cymru i ddeddfu ar gyfer fframwaith rheoleiddio penodol ar yr un pryd â chynnal cydweithrediad ar faterion trawsffiniol.

Mae hyn yn ymwneud â diogelu iechyd y cyhoedd, diogelwch dŵr ac uniondeb amgylcheddol, gan sicrhau hyder buddsoddwyr a diogelwch defnyddwyr ar yr un pryd. Rhaid i ddiwygio ennyn ymddiriedaeth a chael ei gyflawni gyda phobl, nid iddyn nhw, drwy ymgysylltu a chydweithio ystyrlon.

Pennod 1: Ein Cyfeiriad Strategol ar gyfer Dŵr yng Nghymru

Mae'r bennod hon yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer dŵr yng Nghymru, gan ymateb i argymhelliad y Comisiwn am ddull gweithredu cenedlaethol hirdymor cliriach. Mae'n cyflwyno'r achos dros roi gwedd newydd i'r Strategaeth Ddŵr i Gymru ac adolygu sut y mae Gweinidogion Cymru yn pennu cyfeiriad strategol ar gyfer y diwydiant dŵr, gan gydnabod nad yw'r fframweithiau presennol hyd yma'n darparu digon o ffocws, cerrig milltir nac aliniad traws-sector hirdymor. Mae'r bennod wedi'i seilio ar gyd-destun deddfwriaethol Cymru, yn adeiladu ar gryfderau sector dŵr Cymru a'r trefniadau llywodraethiant cydweithredol, ac yn nodi dechrau'r broses o ddatblygu polisi. Mae hefyd yn archwilio opsiynau ar gyfer cryfhau sut y mae blaenoriaethau strategol yn cael eu cyfleu i'r diwydiant, gan gynnwys y mecanweithiau presennol a chynnig y Comisiwn i gael Datganiad gan y Gweinidog ar Flaenoriaethau'r Diwydiant Dŵr, gan geisio barn ar sut y gellid gwella tryloywder, aliniad a darpariaeth.

Pennod 2: Cynllunio Gyda'n Gilydd ar gyfer System Ddŵr Wydn yng Nghymru

Mae'r bennod hon yn ystyried sut y gellir cryfhau'r system gyfan o gynllunio dŵr yng Nghymru a'i chydlynu'n well. Mae'n amlinellu sut y mae Cymru yn bwriadu cyflwyno Swyddogaeth Cynllunio System Genedlaethol i gydlynu'r gwaith o reoli dŵr ledled Cymru, gan geisio barn ar ei chwmpas, ei chyfrifoldebau a'i pherthynas â chynlluniau presennol fel Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr, Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff, Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd a chynllunio ar gyfer sychder. Mae'r bennod yn mynd i'r afael â sut y gellid cysoni'n well y gwaith cynllunio ar draws sectorau, gan gynnwys amaethyddiaeth, tai, trafnidiaeth a defnydd tir, a sut y dylid rheoli dalgylchoedd trawsffiniol a seilwaith a rennir. Mae hefyd yn edrych ar orwelion cynllunio, cylchoedd buddsoddi ac opsiynau ar gyfer symleiddio ac alinio'r gofynion cynllunio presennol i gefnogi gwydnwch, canlyniadau amgylcheddol a buddsoddiad hirdymor.

Pennod 3: Moderneiddio ein Fframwaith Deddfwriaethol yng Nghymru

Mae'r bennod hon yn edrych ar y fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer llywodraethiant dŵr yng Nghymru, ac yn ystyried lle nad yw efallai mwyach yn darparu'r sail fwyaf effeithiol ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd, yr amgylchedd a gwydnwch hirdymor. Mae'n ymateb i argymhellion y Comisiwn drwy nodi meysydd posibl i'w hadolygu, gan gynnwys deddfwriaeth dŵr gwastraff a draenio, Rheoliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, ystyriaethau iechyd y cyhoedd, gofynion monitro a thrin llygryddion sy'n datblygu. Mae'r bennod yn pwysleisio'r angen i gynnal mesurau diogelu amgylcheddol, i gydlynu â deddfwriaeth ehangach Cymru, ac i sicrhau bod unrhyw newid deddfwriaethol yn y dyfodol yn cefnogi eglurder, cydlynid a darpariaeth effeithiol. Ceisir barn ar flaenoriaethau, y dilyniant ac amserlenni.

Pennod 4: Cryfhau Rheoleiddio ac Atebolrwydd Dŵr Cymru

Mae'r bennod hon yn ystyried sut y gellid cryfhau atebolrwydd a chyfrifoldebau rheoleiddio yng Nghymru. Mae'n edrych ar opsiynau ar gyfer rheoleiddio

economaidd yng Nghymru yn y dyfodol, gan gynnwys y potensial o gael swyddogaeth rheoleiddio economaidd annibynnol i Gymru. Ond mae'n cydnabod hefyd y byddai'n rhaid cael cymhwysedd deddfwriaethol a'r angen am barhad yn ystod y cyfnod pontio. Mae'r bennod yn rhoi sylw i'r rhyngweithio rhwng rheoleiddio amgylcheddol, rheoleiddio dŵr yfed a diogelu defnyddwyr, gan gynnwys rolau Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr. Mae hefyd yn ystyried trefniadau trawsffiniol a goruchwyliaeth interim, gan geisio barn ar sut y gellir cynnal eglurder o ran rheoleiddio, atebolrwydd a hyder y cyhoedd.

Pennod 5: Sicrhau Canlyniadau Gwell - Diwygio Rheoleiddio yng Nghymru

Mae'r bennod hon yn edrych ar sut y gallai dulliau rheoleiddio yng Nghymru roi mwy o gefnogaeth i welliannau amgylcheddol, profiad cwsmeriaid, fforddiadwyedd ac arloesi. Mae'n ystyried cyswllt rheoleiddiol, fframweithiau perfformiad, adnoddau gorfodi a thryloywder, gan gynnwys defnyddio monitro digidol ac adrodd cyhoeddus. Mae'r bennod yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar argymhellion y Comisiwn yn ymwneud â rheoli slwtsh, gan gynnwys opsiynau ar gyfer dod â gweithgareddau slwtsh o fewn y system trwyddedu amgylcheddol, cryfhau sicrwydd a mynd i'r afael â'r risgiau sy'n ymddangos. Mae'n ceisio barn ar sut y gall goruchwyliaeth reoleiddiol fod yn effeithiol, yn gymesur ac yn gyson ag amcanion iechedd y cyhoedd ac amgylcheddol ehangach. Mae hefyd yn cynnwys galwad benodol am dystiolaeth ar gynhyrchu a defnyddio gweddillion treuliad anaerobig.

Pennod 6: Sicrhau Llywodraethiant Cryf a Chyfrifol ar gyfer Cwmnïau Dŵr yng Nghymru

Mae'r bennod hon yn rhoi sylw i berchnogaeth, llywodraethiant a goruchwyliaeth ariannol y cwmnïau dŵr sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae'n ystyried argymhellion y Comisiwn o ran cyfrifoldebau byrddau, atebolrwydd yr uwch-swyyddogion, gwydnwch ariannol, tryloywder a hyder buddsoddwyr. Mae'r bennod yn edrych ar sut y gellid cryfhau disgwyliadau o ran llywodraethiant ac ymddygiad i gynnal perfformiad amgylcheddol hirdymor, fforddiadwyedd ac ymddiriedaeth y cyhoedd, gan gydnabod pwysigrwydd sefydlogrwydd ar gyfer buddsoddi a hyder credyd ar yr un pryd. Ceisir barn ar sut y gallai trefniadau llywodraethiant adlewyrchu blaenoriaethau Cymru a gwerth cyhoeddus yn well.

Pennod 7: Adeiladu Seilwaith Gadarn ac Asedau Dŵr Iach i Gymru

Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar wydnwch y seilwaith ac iechedd yr asedau. Mae'n archwilio argymhellion y Comisiwn ar fapio asedau, safonau gwydnwch, metrigau blaengar a risgiau gyda chadwyni cyflenwi, ac yn ystyried sut y gellid gwella goruchwyliaeth dros y gwaith cynllunio a darparu seilwaith. Mae'r bennod hefyd yn rhoi sylw i brosesau cynllunio a chydlynio, gan gynnwys rôl Hawliau Datblygu a Ganiateir. Ceisir barn ar sut y gellir darparu seilwaith yn fwy effeithlon gan hefyd gynnal diogelwch amgylcheddol, ymgysylltu â'r gymuned a sicrhau gwydnwch hirdymor.

Pennod 8: Sicrhau Newid - Y Cyfnod Pontio a Gweithredu yng Nghymru

Mae'r bennod hon yn nodi sut y gellid rheoli newid a darparu dilyniant dros amser i drefniadau dŵr yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'n disgrifio'r dull gweithredu ar gyfer pontio, gan gynnwys cyd-gynllunio'r cyfnod pontio a'r cyfarwyddyd interim i sicrhau parhad goruchwyliaeth reoleiddiol, eglurder i gwmnïau ac i ddefnyddwyr, a chydlynio trawsffiniol effeithiol. Mae'r bennod hefyd yn amlinellu trefniadau llywodraethiant a

chyngori arfaethedig i gefnogi'r ddarpariaeth, darparu tryloywder a chynnal hyder drwy gyfnodau pontio, gan gynnwys yn ystod yr adolygiad nesaf o brisiau. Mae'n cydnabod bod amserlenni yng Nghymru a Lloegr yn wahanol ac yn gofyn am farn ar sut y gellir rheoli newid mewn ffordd sy'n adlewyrchu cyd-destun penodol Cymru ar yr un pryd â chefnogi sefydlogrwydd, gwydnwch a chanlyniadau hirdymor.

Diwygio Dŵr yng Nghymru - Ein llwybr at newid

Dyma ddiwygio unwaith mewn cenhedlaeth ar gyfer llywodraethiant dŵr, a diwygio ehangach ar gyfer y system ddŵr. Bydd y rhaglen hon yn ail-lunio sut mae gwasanaethau dŵr yn cael eu rheoleiddio, eu cynllunio a'u darparu, gyda goblygiadau ar gyfer rheoleiddio economaidd, goruchwyllo amgylcheddol, ansawdd dŵr yfed, diogelu defnyddwyr a gwerth cyhoeddus. Mae maint y diwygio yn cyd-fynd â'i gymhlethdod, a rhaid mynd ar y daith ar gyflymder doeth, ei threfnu'n strategol a'i seilio ar realiti pontio, deddfwriaeth a chyflawni.

Rydym yn dechrau gyda'r Papur Gwyrdd hwn, sy'n nodi dechrau ffurfiol yr ymgynghoriad ar argymhellion y Comisiwn a'n hymateb. Mae hwn yn gyfle pwysig i randdeiliaid, cymunedau a chyrff cyflawni helpu i lunio cyfeiriad y broses ddiwygio. Mae'r cam hwn yn hanfodol i brofi blaenoriaethau a mireinio cwrpas deddfwriaeth a rheoliadau yn y dyfodol.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a fydd yn tynnu sylw at ganlyniadau a'r camau nesaf.

Mae ein llinell amser yn cael ei siapio gan y cyd-destun deddfwriaethol ehangach. Ar 20 Ionawr 2026, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Weledigaeth Newydd ar gyfer Dŵr, ei Phapur Gwyn yn nodi diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig i'r sector dŵr yn Lloegr. Er y bydd y ddeddfwriaeth hon yn sefydlu trefniadau ar gyfer Lloegr yn bennaf, mae graddfa'r diwygio ac integreiddio elfennau o'r system ddŵr ar hyn o bryd yn golygu bod gan y newidiadau hyn oblygiadau uniongyrchol i Gymru ac yn tanlinellu'r angen am drefniadau pontio cydlynol a rhyngweithiadau clir rhwng cyrff yng Nghymru a Lloegr.

Mae disgwyl i Lywodraeth y DU gyflwyno bil diwygio dŵr newydd yn ystod y Senedd hon. Rydym yn rhagweld y bydd Llywodraeth y DU yn deddfu i sefydlu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer diwygio yn Lloegr, gan gynnwys creu cyrff rheoleiddio a swyddogaethau cynllunio newydd. Er mai prif ddiben unrhyw ddeddfwriaeth fydd sefydlu trefniadau ar gyfer Lloegr, o ystyried natur integredig bresennol llawer o'r system, bydd gan unrhyw newid oblygiadau uniongyrchol i Gymru. O'r herwydd, bydd angen i unrhyw ddeddfwriaeth ddarparu pwerau galluogi priodol i fwrw ymlaen â diwygio yng Nghymru a nodi trefniadau pontio, sy'n sicrhau nad oes bwlch mewn goruchwyliaeth reoleiddiol i Gymru tra bo strwythurau newydd yn cael eu sefydlu, a bod yn glir ynghylch y rhyngweithio rhwng sefydliadau yng Nghymru a Lloegr.

Rydym yn gweithio'n agos gyda chymheiriaid yn Llywodraeth y DU i sicrhau bod ein gofynion deddfwriaethol yn cael eu hadlewyrchu mewn deddfwriaeth bosibl yn y dyfodol. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod gan Gymru y pwerau sydd eu hangen arni i sefydlu ei system reoleiddio ei hun, sy'n effeithiol, yn annibynnol ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau Cymru.

Yn amodol ar gytundeb y llywodraeth newydd ar ôl etholiad y Senedd ym mis Mai 2026, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Papur Gwyn ar ôl i ddeddfwriaeth sylfaenol Llywodraeth y DU ddod i rym, gan nodi cynigion manwl ar gyfer deddfwriaeth Cymru. Bydd hyn yn seiliedig ar adborth i ymgynghoriad y Papur Gwyrdd, a darpariaethau deddfwriaeth sylfaenol Llywodraeth y DU a'n hymgysylltiad â Llywodraeth y DU. Bydd y Papur Gwyn yn darparu fframwaith cynhwysfawr ar gyfer diwygio yng Nghymru, gan gynnwys sefydlu rheoleiddwyr newydd, dyrannu pwerau a chyfrifoldebau, a'r mecanweithiau ar gyfer cyflawni ac atebolrwydd.

Bydd ein Papur Gwyn yn mynd ymhellach o ran nodi ein llwybr cyflawni ar gyfer rheoleiddiwr economaidd newydd Cymru a'n cynllunydd systemau. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am ei sail gyfreithiol, ei fodel llywodraethiant, ei drefniadau cyllido a'i gylch gwaith gweithredol. Bydd yn egluro sut bydd y rheoleiddiwr yn rhyngweithio â chyrff eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed (DWI) (neu'r swyddogaethau hynny o fewn rheoleiddiwr integredig newydd yn Lloegr), a chynllunwyr systemau rhanbarthol yn Lloegr yn y dyfodol, a sut bydd swyddogaethau rheoleiddiwr newydd Cymru yn cael eu cyflwyno'n raddol yn ystod y cyfnod pontio. Bydd y Papur Gwyn hefyd yn rhoi sylw i ddatblygu methodolegau rheoleiddio a fframweithiau perfformiad.

Unwaith eto, yn amodol ar gytundeb y llywodraeth newydd ar ôl yr etholiad, rydym yn bwriadu cyflwyno ein Bil Dŵr ein hunain yn ystod tymor nesaf y Senedd. Bydd y Bil hwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan Gymru y pwerau i ddarparu system reoleiddio effeithiol. Y bwriad fyddai iddo ymdrin â rheoleiddio economaidd, ansawdd dŵr yfed, budd defnyddwyr, goruchwyllo'r amgylchedd a gwerth cyhoeddus ehangach. Bydd yn cael ei ddylunio i alluogi gwydnwch, fforddiadwyedd a chynaliadwyedd tymor hir, a bydd yn adlewyrchu natur unigryw llywodraethiant yng Nghymru a'r cyfrifoldebau sydd gennym ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ar ôl i Fil Dŵr i Gymru gael ei roi ar waith, rydym yn bwriadu sefydlu rheoleiddiwr economaidd newydd Cymru a chynllunydd systemau. Ein cynnig ar hyn o bryd yw bod swyddogaeth cynllunio'r system yn cael ei lleoli yn y rheoleiddiwr economaidd newydd. Fodd bynnag, mae hwn yn benderfyniad pwysig a fydd yn llunio sut mae'r trefniadau newydd yn gweithio'n ymarferol, gan gynnwys sut mae'r rheoleiddiwr yn gweithredu ac yn cydweithio â phartneriaid. Rydym yn croesawu barn ar y dull hwn.

O ystyried cymhlethdod y prosesau y bydd eu hangen yn y corff newydd, bydd angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn cael y prosesau a'r system yn iawn o'r cychwyn cyntaf. Oherwydd hyn, rydym yn disgwyl i'r broses hon gymryd o leiaf ddwy flynedd, sy'n golygu y gallai'r corff newydd fod ar waith ddechrau'r 2030au. Rydym yn cydnabod y byddai angen i reoleiddiwr newydd allu arwain yr adolygiad prisiau llawn cyntaf ar gyfer Cymru (PR34) yn 2034. Er mwyn arwain yr adolygiad prisiau llawn cyntaf i Gymru (PR34) yn 2034, byddai angen i'r rheoleiddiwr newydd fod yn weithredol erbyn 2030 fan bellaf. Gan y bydd angen i'r broses ddeddfwriaethol yng Nghymru fynd rhagddi mewn trefn, mae'r amserlen hon yn golygu y bydd angen trefniadau wrth gefn i sicrhau rheoleiddio effeithiol ar gyfer PR34.

Felly, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar drefniadau pontio gan sicrhau bod cefnogaeth gan reoleiddiwr economaidd Lloegr yn parhau tra bo rheoleiddiwr economaidd Cymru yn cael ei sefydlu. Bydd gwaith cynllunio gofalus yn cael ei wneud ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth a throsglwyddo prosesau ac adnoddau rheoleiddio, gan gyfathrebu'n glir â rhanddeiliaid. Mae cylch gwaith y swyddogaeth cynllunio systemau, yng Nghymru, yn cael ei ystyried a bydd yn cael ei bennu drwy ymgynghori â phartneriaid, gan adlewyrchu anghenion esblygol Cymru yn ystod y cyfnod hwn.

Er mwyn sicrhau nad oes bwlch mewn goruchwyliaeth reoleiddiol ar gyfer cwmnïau dŵr yng Nghymru, y bwriad yw y bydd Ofwat, ac unrhyw reoleiddiwr integredig dilynol yn Lloegr, yn darparu swyddogaethau rheoleiddio economaidd i Gymru yn y cyfamser.

Byddai eu gwaith, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, yn amodol ar gyfarwyddyd polisi gan Weinidogion Cymru. Byddwn yn gosod cyfeiriad clir a blaenoriaethau clir a fydd yn galluogi'r rheoleiddwyr presennol i weithio tuag at ein hamcanion a bwriadau'r system newydd. Byddwn yn cyhoeddi Datganiad Polisi Strategol cychwynnol i Ofwat ddechrau 2026 ac yn gweithio gyda Defra i gyhoeddi cynllun pontio ar y cyd ar gyfer y sector dŵr ddechrau 2026. Darperir arweiniad a chyfarwyddyd pellach yn ôl yr angen.

Ochr yn ochr â diwygio deddfwriaethol, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn dechrau gweithio i adnewyddu'r Strategaeth Ddŵr i Gymru. Bydd hyn yn adeiladu ar y strategaeth bresennol a gyhoeddwyd yn 2015 ond bydd yn cael ei diweddarau i adlewyrchu'r heriau newydd a newidiol sy'n ein hwynebu heddiw, yn ogystal â'r dirwedd sefydliadol newydd yn dilyn canlyniadau'r diwygiadau hyn.

Bydd y strategaeth ddiwygiedig yn cael ei datblygu ochr yn ochr â'n Bil Dŵr arfaethedig i Gymru a bydd yn darparu gweledigaeth hirdymor ar gyfer llywodraethiant dŵr yng Nghymru, un sy'n canolbwyntio ar systemau, yn draws-sector ac yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol, rhaid i ni barhau i gyflawni yn y presennol. Rydym yn parhau i fod yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau statudol a chyflawni blaenoriaethau ar unwaith. Mae'r rhain yn cynnwys ymrwymïadau i wella ansawdd dŵr afonydd, cefnogi byrddau rheoli maethynnau, cryfhau gwydnwch yn erbyn llifogydd a sychder, sicrhau ansawdd dŵr yfed diogel, gwneud cynnydd yn erbyn amcanion y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd.

Rydym yn gweithio gyda chymunedau, busnesau a phartneriaid ledled Cymru i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, cadw dŵr yn fforddiadwy, cefnogi prisiau teg, a diogelu cwsmeriaid. Mae lleihau'r galw am ddŵr a gwneud yn siŵr bod ein cyflenwad yn wydn yn flaenoriaethau allweddol. Mae cyflawni hyn yn dibynnu ar bawb, y llywodraeth, sefydliadau a'r cyhoedd yn cydweithio i ddefnyddio dŵr yn gyfrifol a rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, er mwyn i ni allu atal gwastraff a diogelu cyflenwadau ar gyfer y dyfodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i arwain y Fforwm Adolygu Prisiau, gan weithio'n agos gydag Ofwat a chwmnïau dŵr i sicrhau bod gwelliannau perfformiad yn cael eu cyflawni drwy gydol y cylch rheoleiddio presennol. Ar draws yr holl feysydd hyn, rydym yn gweithredu ac yn sbarduno diwygiadau, ar sail argymhellion y Comisiwn.

Pennod 1: Ein Cyfeiriad Strategol ar gyfer Dŵr yng Nghymru

Mae'r bennod hon yn ymateb i argymhelliad y Comisiwn ar gyfer strategaethau cenedlaethol newydd. Byddwn yn darparu gweledigaeth hirdymor gliriach, yn arwain y gwaith o gyflawni, ac yn cefnogi cydweithio ar draws sectorau. Mae'r bennod hon yn amlinellu'r achos dros adnewyddu'r Strategaeth Ddŵr Genedlaethol i Gymru a diweddarau'r Datganiad Polisi Strategol i gyflawni hyn i ddarparu gweledigaeth hirdymor glir, arwain y ddarpariaeth, a chefnogi gweithio cydgysylltiedig ar draws sectorau.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu system ddŵr gadarn, integredig a chynaliadwy sy'n adlewyrchu anghenion cymunedau, yr amgylchedd a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r bennod hon yn adeiladu ar y fframwaith statudol a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sydd, gyda'i gilydd, yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried dull hirdymor, ataliol a chydweithredol o reoli adnoddau naturiol.

Bydd cam nesaf y diwygio hefyd yn cael ei lunio gan Fil arfaethedig yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) (Bil Egwyddorion yr Amgylchedd), a fydd yn sefydlu amcan amgylcheddol i gyrraedd lefel uchel o warchodaeth amgylcheddol a gwella'r amgylchedd ac ymgorffori egwyddorion a dyletswyddau amgylcheddol allweddol i integreiddio diogelu'r amgylchedd, gan gynnwys yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu, yng nghyfraith Cymru. Bydd y Bil hwn yn cyflwyno fframwaith statudol ar gyfer targedau bioamrywiaeth, gan gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod o leiaf un targed bioamrywiaeth sy'n ymwneud â llygredd, a chryfhau dyletswyddau presennol Gweinidogion Cymru i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau o dan adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Bydd hefyd yn darparu sail gyfreithiol gliriach ar gyfer cysoni llywodraethiant dŵr â chanlyniadau amgylcheddol ac iechyd y cyhoedd yn ehangach, gan gefnogi integreiddio ar draws cynllunio, rheoleiddio a chyflawni.

Mae adroddiad y Comisiwn yn darparu sylfaen dystiolaeth werthfawr i'n helpu i adeiladu ar y sylfaen hon. Mae'n cydnabod y cyd-destun penodol yng Nghymru, gan gynnwys ein fframwaith deddfwriaethol a'n diwylliant llywodraethiant cydweithredol. Mae'r nodweddion hyn yn cynnig llwyfan cryf ar gyfer diwygio a chyfle clir i lunio cyfeiriad strategol sy'n unigryw i Gymru.

Mae sector dŵr Cymru yn elwa ar ddau brif ymglymerwr, ill dau yn dod â chryfderau penodol i ddarparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff. Mae Dŵr Cymru yn gwasanaethu'r rhan fwyaf o Gymru. Mae model di-ddifidend y cwmni yn golygu ei fod yn ail-fuddsoddi arian dros ben i wella gwasanaethau a seilwaith.

Mae Hafren Dyfrdwy Cyfyngedig yn llai ac yn canolbwyntio ar gefnogi anghenion ei chymunedau yng ngogledd-ddwyrain a chanolbarth Cymru.

Yn ogystal â'r prif ddarparwyr hyn, mae nifer fach o ymglymerwyr annibynnol yn gweithredu mewn datblygiadau penodol.

Gyda'i gilydd, mae'r cwmnïau hyn yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau dŵr yng Nghymru yn ddibynadwy, yn gynaliadwy ac yn ymateb i anghenion pob cymuned. Rydym ar ddechrau'r daith datblygu polisi. Bydd yr adborth a gawn drwy'r Papur Gwyrdd hwn yn helpu i lywio ein dull gweithredu. Ein nod yw adeiladu ar yr hyn sydd

gennym eisoes, cryfhau eglurder strategol, gwella mecanweithiau darparu, a sicrhau bod ein system ddŵr yn gadarn, yn gynaliadwy ac yn ddibynadwy.

Mae tystiolaeth ddiweddar yn cadarnhau bod y pwysau ar amgylchedd dŵr croyw Cymru yn dal yn ddifrifol. Daw'r Adroddiad diweddaraf ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru 2025, a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, i'r casgliad nad yw gwydnwch cyffredinol ecosystemau dŵr croyw wedi gwella ers 2020, er gwaethaf ymyriadau wedi'u targedu mewn rhai dalgylchoedd. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at bwysau parhaus o ganlyniad i lygredd maethynnau, newid llif afonydd, addasu ffisegol a newid yn yr hinsawdd, ac mae'n rhybuddio bod rhai rhywogaethau eiconig a systemau afonydd yn wynebu dirywiad hirdymor sylweddol heb weithredu pellach.

Mae'r dystiolaeth hon yn dangos bod gwella iechyd afonydd yng Nghymru yn galw am ddull gweithredu strategol sy'n ystyried yr ystod lawn o bwysau sydd ar yr amgylchedd dŵr. Mae'r pwysau hyn yn ymestyn y tu hwnt i drin dŵr gwastraff ac yn cynnwys defnydd tir, rheoli maethynnau a'r ffordd mae deunyddiau organig yn cael eu rheoli ar ôl eu defnyddio ar dir. Mae mynd i'r afael â'r heriau hyn yn gofyn am gyfeiriad strategol cliriach, gwell aliniad rhwng meysydd polisi a ffocws cryfach ar ganlyniadau ar raddfa dalgylch. Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn ymateb yn uniongyrchol i'r dystiolaeth hon drwy nodi sut y gellir cryfhau cyfeiriad strategol, cynllunio a rheoleiddio i wrthdroi dirywiad ac adeiladu gwydnwch hirdymor ar draws dalgylchoedd afonydd Cymru.

1.1: Cyfeiriad Strategol Llywodraeth Cymru

Argymhelliad 1 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gyflwyno Strategaeth Ddŵr Genedlaethol newydd, hirdymor, traws-sectoraidd sy'n canolbwyntio ar systemau ar gyfer Cymru a Lloegr yn y drefn honno

Rydym yn derbyn yr argymhelliad. Rydym yn cydnabod yr angen am gyfeiriad strategol clir a hirdymor sy'n mynegi blaenoriaethau cenedlaethol, yn gosod targedau interim, ac yn darparu fframwaith ar gyfer cyflawni ar draws sectorau. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod llywodraethiant dŵr yng Nghymru yn addas ar gyfer y dyfodol, yn wydn ac yn gallu ymateb i'r heriau cymhleth a achosir gan newid yn yr hinsawdd, twf yn y boblogaeth, colli bioamrywiaeth, seilwaith yn heneiddio, cemeigion a halogyddion sy'n peri pryder.

Yng Nghymru, mae gennym sylfaen gref eisoes. Mae'r Strategaeth Ddŵr i Gymru, a gyhoeddwyd yn 2015, yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer system ddŵr gynaliadwy a chadarn. Mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad i werth cyhoeddus, stiwardiaeth amgylcheddol, a llywodraethiant cydweithredol. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi nodi nad yw'r dogfennau strategol cyfredol yn cyrraedd y nod mewn sawl maes allweddol. Nid ydynt yn galluogi dull integredig ar draws sectorau fel gwastraff amaethyddiaeth, trafnidiaeth, tai ac ynni. Nid oes ganddynt gerrig milltir tymor hir ac nid ydynt yn darparu llwybr clir ar gyfer cyflawni. Nid ydynt yn asesu costau, cyfaddawdau, na goblygiadau gwahanol ddewisiadau polisi yn ddigonol, ac nid ydynt yn seiliedig ar ddyletswyddau statudol na mecanweithiau adolygu sy'n sicrhau atebolrwydd a thryloywder.

Mae'r Comisiwn yn cynnig bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Strategaeth Ddŵr Genedlaethol newydd i Gymru, sy'n cael ei chefnogi gan statud, gyda gorwel 25 mlynedd a cherrig milltir 5/10/25 mlynedd sy'n cyd-fynd â'r cylch Adolygu Prisiau.

Byddai hyn yn cael ei gefnogi gan asesiad cost a budd eang a gofyniad i ymgynghori'n eang. Byddai'n darparu fframwaith cydlynol ar gyfer cysoni penderfyniadau rheoleiddio, cynllunio a buddsoddi ar draws y diwydiant dŵr a thu hwnt.

Rydym wedi cytuno mewn egwyddor i fwrw ymlaen â strategaeth newydd yn nhymor nesaf y Senedd. Rhaid i gyfeiriad strategol fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o'r dirwedd ddiwygio, gan gynnwys rolau sefydliadau newydd, fframweithiau cynllunio, a threfniadau rheoleiddio. Rhaid iddo hefyd adlewyrchu'r cyd-destun Cymreig unigryw, gan gynnwys ein fframwaith deddfwriaethol a'n diwylliant llywodraethiant.

Rydym yn bwriadu ystyried datblygu strategaeth newydd ar ôl i fil diwygio dŵr arfaethedig Llywodraeth y DU ddod yn Ddeddf. Bydd hyn yn rhoi mwy o eglurder ynghylch y fframwaith deddfwriaethol a'r saernïaeth reoleiddio ledled y DU, gan gynnwys rolau a phwerau rheoleiddio economaidd, cynllunio systemau, ac effeithiau cyrff cyflawni eraill. Bydd yn caniatáu inni adlewyrchu ein cynlluniau ar gyfer diwygio rheoleiddio yng Nghymru, a fydd yn cael eu cyflawni yn ystod cyfnod pum mlynedd cyntaf strategaeth hirdymor newydd.

Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i ddangos bwriad strategol drwy ddiweddariadau i ganllawiau a datganiadau polisi presennol, ymgysylltu drwy Fforwm Diwydiant Dŵr wedi'i adfywio, cydlynu traws-lywodraethol ar ganlyniadau hinsawdd, natur ac iechyd y cyhoedd, a chydweithio parhaus â Llywodraeth y DU ar drefniadau pontio. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r diwydiant dŵr a rheoleiddwyr cysylltiedig i sicrhau bod natur benodol y gofynion yng Nghymru yn cael ei hystyried drwy reoleiddio, cynllunio a chefnogi anghenion defnyddwyr yng Nghymru.

Dyma Gam 1 y broses ddiwygio, lle mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn nodi eu camau nesaf yn annibynnol. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd, mae Cymru'n dibynnu ar gynnydd Llywodraeth y DU, yn enwedig mewn perthynas â deddfwriaeth sy'n galluogi diwygio strwythurol. Byddwn yn cymryd amser i ddeall rhannau newidiol y rhaglen ddiwygio i osod y seilwaith ar gyfer pennu cyfeiriad strategol newydd. Mae hyn yn cynnwys asesu goblygiadau deddfwriaeth Llywodraeth y DU i gyrff cyflawni yng Nghymru, deall rôl a chylch gwaith rheoleiddiwr economaidd a chynllunydd systemau yng Nghymru yn y dyfodol, egluro'r rhyngwyneb rhwng rheoleiddio economaidd, rheoleiddio amgylcheddol, a chynllunio strategol, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i brofi blaenoriaethau a modelau cyflawni.

Rhaid i unrhyw strategaeth yn y dyfodol gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, gan adlewyrchu ein cyd-destun Cymreig unigryw. Rhaid iddo hefyd fod yn seiliedig ar ddyletswyddau statudol, asesiadau effaith, a mecanweithiau adolygu i sicrhau tryloywder, atebolrwydd, cyllid priodol a gwelliant parhaus.

1.2: Pennu Cyfeiriad ar gyfer y Diwydiant Dŵr

Argymhelliad 2 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ddiwygio'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer y Datganiad Polisi Strategol a rhoi Datganiad Gweinidogol newydd o Flaenoriaethau'r Diwydiant Dŵr (MSWIP) yn ei le, gan gyfarwyddo holl swyddogaethau rheoleiddio a chynllunio systemau'r diwydiant dŵr.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi bwriad yr argymhelliad hwn. Mae darparu canllawiau clir, cyson y gellir gweithredu arnynt i'r diwydiant dŵr yn hanfodol er

mwyn sicrhau bod cynlluniau cwmnïau'n cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol ac yn darparu gwerth cyhoeddus.

Yng Nghymru, rydym eisoes yn cynnull y Fforwm Adolygu Prisiau, sy'n dod â rheoleiddwyr, cwmnïau dŵr a rhanddeiliaid at ei gilydd yn ystod y broses adolygu prisiau ac fe'i cydnabuwyd fel arloesedd cadarnhaol yng Nghymru yn adroddiad y Comisiwn. Mae'r model cydweithredol hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i dryloywder a gwneud penderfyniadau ar y cyd. Mae hefyd yn darparu llwyfan ar gyfer cysoni penderfyniadau buddsoddi â nodau polisi cyhoeddus, gan gynnwys fforddiadwyedd, gwydnwch hinsawdd, bioamrywiaeth a llesiant cymunedol.

Mae'r Comisiwn wedi cynnig cyflwyno mecanwaith newydd, Datganiad y Gweinidog ar gyfer Blaenoriaethau'r Diwydiant Dŵr (MSWIP), i ddisodli model presennol y Datganiad Polisi Strategol. Byddai hwn yn cael ei gyhoeddi bob pum mlynedd, yn unol â'r cylch Adolygu Prisiau, a byddai'n nodi disgwyliadau ar gyfer pob rheoleiddiwr, nid dim ond Ofwat. Byddai'n dod o dan Strategaeth Ddŵr Genedlaethol Cymru ac yn rhoi arweiniad cliriach ar gyfaddawdu, targedau a disgwyliadau cyflawni.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr achos dros nodi'r materion hyn ond nid yw wedi penderfynu eto ai'r model arfaethedig fyddai'r mecanwaith mwyaf effeithiol i wneud hyn. Rydym yn cydnabod rhesymeg y Comisiwn a byddwn yn ystyried y cynnig fel rhan o'r rhaglen ddiwygio ehangach. Mae hyn yn cynnwys asesu sut gallai mecanwaith o'r fath ategu swyddogaeth cynllunio system yn y dyfodol, cefnogi cysondeb ar draws rheoleiddwyr, ac adlewyrchu'r cyd-destun Cymreig penodol. Yn Lloegr, nododd Llywodraeth y DU ei dull gweithredu ar gyfer cyfeiriad strategol i'r sector dŵr yn ei Phapur Gwyn, *A New Vision for Water*, a gyhoeddwyd ar 20 Ionawr 2026. Mae'r ddogfen honno'n nodi diwygiadau i'r ffordd y darperir canllawiau strategol i'r sector yn Lloegr. Yng Nghymru, mae'r Papur Gwyrdd hwn yn ymgynghori ar y mecanweithiau mwyaf effeithiol i osod cyfeiriad strategol yng nghyd-destun Cymru, gan adlewyrchu blaenoriaethau datganoledig a phosibilrwydd sefydlu trefniadau rheoleiddio a chynllunio systemau newydd yn y dyfodol.

Bydd unrhyw fecanwaith cyfarwyddyd yn y dyfodol yn cael ei ddatblygu ar y cyd â rhanddeiliaid a'i ddylunio i gefnogi rheoleiddio moesegol, canlyniadau a negodwyd, ac integreiddio nodau polisi cyhoeddus ehangach, fel fforddiadwyedd, iechyd y cyhoedd, bioamrywiaeth a gwydnwch hinsawdd. Byddai angen iddo hefyd fod yn gymesur, yn dryloyw ac yn gyraeddadwy.

Bydd penderfynu ar ffordd ymlaen yn cael ei gyflwyno'n raddol i gyd-fynd â phrosesau Llywodraeth Cymru a'r amserlen ddiwygio ehangach. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i ddefnyddio mecanweithiau presennol, fel Fforwm Adolygu Prisiau dan arweiniad Llywodraeth Cymru, pwerau cyfarwyddyd a chanllawiau presennol (lle bo hynny'n briodol) a chydlynu traws-lywodraethol, i ddangos bwriad strategol a chefnogi cysondeb ar draws y sector.

Pennod 2: Cynllunio Gyda'n Gilydd ar gyfer System Ddŵr Wydn yng Nghymru

Mae'r bennod hon yn ymateb i argymhellion y Comisiwn i gyflwyno cynllunwyr systemau. Mae'n nodi ein cynigion ynghylch sut bydd Cymru'n sefydlu Swyddogaeth Cynllunio Systemau Genedlaethol i arwain gwaith cynllunio integredig ar draws y

cyflenwad dŵr a'r amgylchedd dŵr, gan helpu gwahanol sectorau i weithio gyda'i gilydd a sicrhau bod cynlluniau'n adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol.

Mae sector dŵr Cymru yn cael ei ddiffinio gan ei fodel llywodraethiant unigryw a phresenoldeb dau brif ymgymherwr: Dŵr Cymru, sy'n eiddo i Glas Cymru, a Hafren Dyfrdwy Cyfyngedig, is-gwmni Severn Trent ccc, sy'n gwasanaethu Gogledd Ddwyrain a Chanolbarth Cymru. Mae'r cwmnïau hyn yn darparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff i'r mwyafrif helaeth o gartrefi a busnesau yng Nghymru, gan adlewyrchu blaenoriaethau a gwerthoedd cymunedau Cymru. Mae'r sector hefyd yn cael ei siapio gan gysylltiadau trawsffiniol, gyda chwmnïau fel Severn Trent Water ac United Utilities yn dal hawliau tynnu dŵr neu gysylltiadau seilwaith sy'n cysylltu adnoddau dŵr Cymru â rhanbarthau cyfagos yn Lloegr.

Ochr yn ochr â'r rhwymedigaethau hyn, mae Penodiadau ac Amrywiadau Newydd (NAVs), cwmnïau annibynnol sydd wedi'u trwyddedu gan Ofwat, yn chwarae rhan yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff i ddatblygiadau newydd penodol yng Nghymru. Mae NAVs yn darparu seilwaith a gwasanaethau adwerthu ar gyfer safleoedd tai a safleoedd masnachol newydd. Roedd Adroddiad Terfynol y Comisiwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd integreiddio cerbydau NAV yn fframwaith rheoleiddio a chynllunio Cymru i sicrhau cysondeb, cystadleuaeth a diogelwch defnyddwyr. Wrth i ni ystyried ein dull o gynllunio systemau, byddwn yn ystyried sut mae pob darparwr yn gweithredu o fewn fframwaith cydlynol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu system ddŵr gadarn, integredig a chynaliadwy sy'n adlewyrchu anghenion cymunedau, yr amgylchedd a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i wreiddio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sydd gyda'i gilydd yn darparu sylfaen statudol ar gyfer dulliau hirdymor, cydweithredol ac ataliol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y fframwaith presennol hwn yn cael ei gryfhau gan ddarpariaethau Bil Egwyddorion yr Amgylchedd.

Byddwn yn symud oddi wrth gynllunio tameidiog sy'n drwm ar broses tuag at system gydlynol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae argymhellion y Comisiwn ar gynllunio systemau yn cyd-fynd yn agos â'r uchelgais hwn. Maent hefyd yn cefnogi egwyddorion datblygu cynaliadwy, gan alluogi gwell integreiddio rhwng cyflenwad dŵr a chynllunio amgylcheddol, penderfyniadau buddsoddi mwy tryloyw, ac atebolrwydd cliriach ar draws y sector.

Y Cyfnod Pontio a Dylunio

Rydym yn y camau cynnar o ystyried sut i fwrw ymlaen â'r cynigion a amlinellir yn y bennod hon o'r Papur Gwyrdd. Rydym yn cefnogi'r cysyniad o gynllunio systemau ac yn gweld cyfle posibl i integreiddio'r swyddogaeth hon â rheoleiddio economaidd er mwyn rhoi mwy o sicrwydd hirdymor ynghylch blaenoriaethau buddsoddi. Fel y nodir uchod, rydym yn croesawu safbwyntiau ar y dull hwn. Er mai'r ffordd orau o gynllunio systemau yng Nghymru yw ar lefel genedlaethol, mae cynllunio ar raddfa dalgylch yn hanfodol er mwyn cyflawni'r canlyniadau sydd eu hangen ar Gymru. Byddwn yn sicrhau bod y swyddogaeth cynllunio system newydd yn cefnogi ac yn integreiddio rhyngwynebau dalgylch a rhanbarthol, yn enwedig ar gyfer sectorau y tu hwnt i'r diwydiant dŵr. Bydd yr adborth a gawn drwy'r Papur Gwyrdd hwn yn helpu i lywio ein dull gweithredu.

O ystyried argymhelliad y Comisiwn ar gyfer dull rhanbarthol yn Lloegr, bydd y ffordd y caiff y system gynllunio ei rhoi ar waith yng Nghymru ac yn Lloegr yn amrywio. Serch hynny, bydd elfennau cyffredin a chyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd wrth i ni ddatblygu trefniadau. Bydd angen i ni hefyd gytuno ar sut bydd cynllunio systemau yn y ddwy wlad yn rhyngweithio ar hyd y ffin ac mewn perthynas â symudiadau trawsffiniol a dalgylchoedd.

Ein prif nod yw cynnal swyddogaethau rheoleiddio craidd wrth i Gymru a Lloegr newid i fodolau gwahanol. Ni ellir rhuthro'r gwaith pontio hwn, rhaid cael dilyniant a rhaid ei gefnogi'n ofalus gan swyddogaethau deddfwriaethol, adnoddau, sgiliau a chapasiti addas.

Rydym wedi ymrwymo i gynnal safonau uchel ar draws dalgylchoedd a rennir, gan sicrhau bod ansawdd dŵr ac iechyd ecosystemau yn cael eu diogelu ar gyfer pob cymuned y mae lloedd trawsffiniol yn effeithio arni. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen cydweithrediad agos rhwng Cymru a Lloegr, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae adnoddau dŵr a seilwaith yn gydgyssylltiedig. Byddwn yn gweithio'n rhagweithiol i gysoni fframweithiau rheoleiddio, penderfyniadau buddsoddi ac arferion gweithredol lle bynnag y bo modd. Bydd y dull cydweithredol hwn yn helpu i sicrhau safonau uchel o ran diogelu'r amgylchedd, gwerth cyhoeddus a gwydnwch hirdymor ar draws y system ddŵr.

Amserlenni a chylchoedd cynllunio

Fel rhan o'n hystyriaethau cynnar, byddwn yn adolygu'r amrywiaeth o gynlluniau statudol a rheoleiddiol sydd ar waith ar hyn o bryd ar draws y sector dŵr. Mae hyn yn cynnwys cylchoedd adolygu prisiau, Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr, Cynlluniau Sychder, Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff, Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd, a strategaethau perthnasol eraill fel cynlluniau rheoli dalgylchoedd a buddsoddi.

Nododd y Comisiwn y gallai symleiddio a chysoni'r cylchoedd hyn arwain at fanteision sylweddol. Rydym wedi ymrwymo i symleiddio a chysoni cylchoedd cynllunio lle bynnag y daw hyn â manteision clir i Gymru. Ein nod yw lleihau dyblygu, rhyddhau capasiti, a chefnogi penderfyniadau mwy integredig ac atebol. Byddwn yn cymryd gofal i reoli unrhyw risgiau, gan sicrhau nad yw gofynion statudol ac anghenion lleol yn cael eu hanwybyddu, a byddwn yn cyfleu newidiadau'n glir wrth i ni symud ymlaen. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a phartneriaid yn Lloegr i fynd i'r afael ag effeithiau trawsffiniol, yn enwedig ar gyfer dalgylchoedd a rennir a rhyngwynebau rheoleiddio, fel bod gwaith cynllunio'n parhau i fod yn effeithiol ac yn gydlynol ar draws ffiniau cenedlaethol.

Byddwn hefyd yn ystyried sut y gellir gwneud cylchoedd cynllunio'n ddigon hyblyg i ymateb i flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg, fel newid yn yr hinsawdd, adfer natur, a gofynion rheoleiddio newydd. Bydd ein dull gweithredu'n seiliedig ar waith dadansoddi cadarn ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, a byddwn yn sicrhau bod newidiadau'n gymesur, bod modd eu cyflawni, ac yn cefnogi gwydnwch hirdymor y sector.

Y camau nesaf a meysydd i'w hystyried

Bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddylunio Swyddogaeth Cynllunio System Genedlaethol drwy broses strwythuredig a chynhwysol. Bydd hyn yn cael ei arwain gan fframweithiau polisi a chyfreithiol presennol, gan gynnwys

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a bydd yn cael ei ddatblygu ar y cyd â rhanddeiliaid ar draws y sector dŵr, rheoleiddwyr a chymheiriaid yn Llywodraeth y DU. Byddwn hefyd yn ystyried argymhellion y Comisiwn ym mharagraffau 92 a151 yr adroddiad terfynol, sy'n nodi'r rhesymeg, y cwrpas a'r ystyriaethau cyflawni ar gyfer diwygio cynllunio systemau.

Yn benodol, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried:

Diffinio cwrpas y 'system'

Mynegi'n glir pa weithgareddau a phrosesau y bydd y cynllunydd systemau yn ymdrin â nhw, fel gollyngiadau i garthffosydd, aildddefnyddio elfion terfynol, trin gweddillion, a slwtsh i'r tir. Bydd hyn yn sicrhau bod pob agwedd ar reoli dŵr yn cael ei chynllunio a'i rheoleiddio'n briodol.

Cydweithio â sefydliadau eraill

Penderfynu sut bydd y cynllunydd systemau yn cydweithio â sefydliadau eraill sydd â chyfrifoldebau statudol neu weithredol dros elfennau o ddŵr, dŵr gwastraff neu gynllunio amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys nodi trefniadau llywodraethiant clir a mecanweithiau ar gyfer cydweithio effeithiol, er mwyn osgoi dyblygu a sicrhau cysondeb ar draws y sector.

Er enghraifft, bydd partneriaeth agos â CNC yn hanfodol ar gyfer unrhyw drefniadau newydd. Mae cyfleoedd hefyd i Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ofwat gryfhau eu cydweithrediad wrth i ni symud tuag at y system newydd. Bydd y dull cydgysylltiedig hwn yn helpu i sicrhau cydlyniant a darpariaeth effeithiol ar draws y sector.

Llywodraethiant a rhyngweithio â fframweithiau presennol

Darparu eglurder ynghylch sut bydd y cynllunydd systemau yn rhyngweithio â fframweithiau cynllunio a chyrrff rheoleiddio presennol, gan sicrhau bod rolau, cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd yn dryloyw ac yn gadarn.

Amserlenni a chylchoedd cynllunio

Byddwn yn adolygu'r ystod o gynlluniau statudol a rheoleiddiol sydd ar waith ar hyn o bryd ar draws y sector dŵr, gan gynnwys cylchoedd adolygu prisiau, Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr, Cynlluniau Sychder, Cynlluniau Rheoli Dŵr Gwastraff a Draenio, Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd, a strategaethau perthnasol eraill fel cynlluniau buddsoddi a rheoli dalgylchoedd, er mwyn pennu'r cylchoedd cynllunio mwyaf effeithiol.

Rheoli amrywiadau i amserlenni ar draws ffiniau

Gan fynd i'r afael â'r posibilrwydd o wahaniaethau rhwng amserlenni yng Nghymru a Lloegr, yn enwedig mewn dalgylchoedd trawsffiniol a chyrrff dŵr a rennir, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a rheoleiddwyr perthnasol i gydlyn cyfchoedd cynllunio a lleihau'r risgiau sy'n deillio o gam-alinio.

Natur, lleoliad a chyflawni swyddogaeth cynllunio'r system

Byddir yn ystyried a ddylai cynllunio systemau fod yn swyddogaeth newydd, gyfunol neu'n welliant i'r trefniadau presennol. Mae hyn yn cynnwys gwerthuso a ddylai'r swyddogaeth fod yn annibynnol neu wedi'i hymgorffori mewn sefydliad arall, a nodi lle byddai'n cael ei chyflawni yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Cwmpas ac uchelgais esblygol

Byddwn yn ceisio taro'r cydbwysedd cywir rhwng cyfuno a gwella gwaith cynllunio presennol y sector dŵr ac ehangu cwmpas cynllunio ar draws sectorau ehangach. Gall cwmpas ac uchelgais y cynllunydd systemau ehangu dros amser.

Pwerau cyfreithiol a dyletswyddau statudol

Sicrhau bod gan y cynllunydd systemau y pwerau cyfreithiol a'r dyletswyddau statudol angenrheidiol i gydlyn ar draws sectorau a sbarduno'r ddarpariaeth.

Pontio a pharhad

Bydd yn bwysig cynnal parhad y swyddogaethau cynllunio presennol yn ystod y cyfnod pontio. Gall hyn gynnwys trefniadau dros dro a fforymau pontio i sicrhau trosglwyddiad esmwyth.

Adnoddau a gallu

Rhaid i'r cynllunydd systemau feddu ar y data, yr offer a'r arbenigedd sydd eu hangen i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol.

Bydd hon yn broses ailadroddol. Byddwn yn ymgynghori'n eang, yn profi opsiynau drwy weithgorau ar y cyd gyda rhanddeiliaid perthnasol, ac yn sicrhau bod unrhyw drefniadau newydd yn gadarn, yn gymesur ac yn gyraeddadwy. Byddwn hefyd yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU wrth i'r swyddogaethau hyn gael eu sefydlu.

2.1: Cynllunio Systemau

Argymhelliad 3 y Comisiwn

Dylid cyflwyno fframwaith cynllunio systemau cynhwysfawr ar gyfer Cymru a Lloegr gyda chyfrifoldeb am gynllunio system ddŵr integredig a chyfannol. Yn Lloegr, dylai cynllunwyr systemau fod yn rhanbarthol - neu'n 'awdurdodau dŵr rhanbarthol'. Yng Nghymru, dylai'r cynllunydd systemau fod yn awdurdod cenedlaethol.

Mae'r dirwedd gynllunio bresennol yn dameidiog, yn rhy gymhleth, ac nid yw'n cydfynd yn ddigonol â blaenoriaethau cenedlaethol, fel mae'r Comisiwn yn ei asesu'n gywir. O ganlyniad, rydym yn derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn ac yn cydnabod manteision posibl swyddogaeth cynllunio systemau statudol i Gymru. Er bod gennym syniadau newydd am ddyluniad, cwmpas a ffurf sefydliadol swyddogaeth o'r fath, nid oes unrhyw benderfyniadau terfynol wedi cael eu gwneud.

Mae cynigion y Comisiwn ym mharagraffau 92 a151 ei adroddiad yn rhoi rhai awgrymiadau ynghylch ystyried rôl, pwerau a model cyflawni cynllunydd systemau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod cynigion y Comisiwn yn seiliedig i raddau helaeth ar y bwriad i'r swyddogaeth weithredu'n rhanbarthol yn Lloegr.

Mae gwahanol gyfleoedd, a blaenoriaethau, ar gyfer swyddogaeth cynllunio systemau sy'n gweithredu ar lefel Cymru. Yn ein barn ni, byddai rhai o'r meysydd ar gyfer cynllunio systemau a nodir yn yr adroddiad yn achosi risg o ddyblygu cyfrifoldebau presennol neu'n awgrymu trosglwyddo cyfrifoldebau oddi wrth reoleiddwyr presennol, sy'n ymddangos yn annhebygol o fod yn briodol ar raddfa Cymru.

Fodd bynnag, rydym yn gweld potensial gwirioneddol ar gyfer dwyn ynghyd allbynnau cynllunio a diffinio cynllun integredig, tymor hwy sy'n ymdrin ag adnoddau

dŵr a chyflenwad dŵr; draenio a dŵr gwastraff; ac ansawdd dŵr amgylcheddol i lywio blaenoriaethau buddsoddi ac i ddarparu eglurder i'r system ehangach, er enghraifft cynllunio defnydd tir. Er ei bod yn debygol y byddai rhywfaint o newid i'r rheini sydd â chyfrifoldeb ar hyn o bryd dros gynlluniau yn y sector dŵr, byddem yn gweld hyn yn bennaf fel swyddogaeth newydd sy'n rhoi cyfarwyddyd i'r rheini sydd â rolau presennol ac yna'n canolbwyntio ar integreiddio allbwn cynlluniau penodol a gwneud cyfaddawdau rhwng gwahanol flaenoriaethau.

Ein barn ar hyn o bryd yw y gallai gosod swyddogaeth cynllunio'r system yn y rheoleiddiwr economaidd gynnig manteision gwirioneddol. Byddai'n galluogi rheoleiddio economaidd, ac adolygiadau cyfnodol o brisiau, yng nghyd-destun cynllun strategol a chyffredinol sydd wedi'i ddiffinio'n glir; yn hytrach na chael ei yrru gan restr o brosiectau o'r gwaelod i fyny gan gwmnïau a rheoleiddwyr bob pum mlynedd.

Byddai hyn yn golygu bod modd nodi blaenoriaethau'n llawer mwy tryloyw dros amser, ar sail sut maent yn cyflawni yn erbyn yr amcanion a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, a chynnig cliriach a mwy sefydlog i fuddsoddwyr.

Byddai hefyd yn golygu, ar gyfer pob adolygiad prisiau, y gallech ddechrau gydag amlen wedi'i diffinio'n fras o fforddiadwyedd, cyllidwyedd a'r gallu i gyflawni ac yna gweithio'n unol â'r cwrpas hwnnw, yn hytrach na dechrau gyda'r hyn y gallech fod eisiau buddsoddi ynddo a gadael i hynny yrru'r gost. O ystyried y lefelau uchel parhaus o fuddsoddiad y rhagwelir y bydd eu hangen yn y sector dŵr, byddai hyn yn cynrychioli newid pwysig o ran sicrhau bod cynlluniau yn y dyfodol yn fforddiadwy a byddai'n darparu mecanwaith gwell ar gyfer gwneud dewisiadau am flaenoriaethau a chyfaddawdau. Byddwn yn sicrhau bod mesurau diogelu ar waith fel na fydd buddsoddiad mewn ieched asedau yn cael ei beryglu wrth bennu terfynau ariannol ar gyfer cynlluniau busnes.

Rydym yn awyddus i glywed eich barn am y dull hwn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol. Bydd eich adborth yn helpu i lunio'r dyluniad terfynol ac yn sicrhau bod y swyddogaeth cynllunio systemau yn diwallu anghenion Cymru yn y ffordd orau.

Mae'n bwysig cydnabod y gall gofynion rheoleiddio a thargedau perfformiad, yn enwedig y rheini sy'n ymateb i argyfyngau natur a hinsawdd, weithiau wthio terfynau fforddiadwyedd, cyllidwyedd a chyflawni, fel y gwelir yn Adolygiad Prisiau 2024 (PR24). Mewn rhai achosion, mae rhwymedigaethau statudol ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig neu gyrff dŵr Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr sy'n draenio i Ardal Cadwraeth Arbennig yn golygu na all fforddiadwyedd fod yn brif ystyriaeth; rhaid i angen amgylcheddol a chydymffurfio cyfreithiol gael blaenoriaeth i gynnal gwydnwch ecosystemau a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Felly, mae angen cydbwysu'r dull hwn yn ofalus. Er bod cysyniad yr amlen yn helpu i reoli costau a blaenoriaethu buddsoddiad, bydd amgylchiadau lle bydd gofynion rheoleiddiol neu amgylcheddol yn gofyn am fuddsoddiad y tu hwnt i'r hyn oedd yn cael ei ystyried yn fforddiadwy i ddechrau. Mewn achosion o'r fath, disgwylir y bydd angen dod o hyd i ffordd o ariannu'r mesurau hyn os bernir eu bod yn angenrheidiol. Rhaid i'r cyfaddawdau hyn gael eu hasesu'n dryloyw a'u cyfiawnhau yn y broses adolygu prisiau.

Ochr yn ochr â'r ystyriaethau hyn, mae'n bwysig bod gan gwsmeriaid dŵr rôl briodol o ran cyfrannu at benderfyniadau am flaenoriaethau buddsoddi a rheoli

fforddiadwyedd. Bydd mewnbwn cwsmeriaid yn helpu i arwain blaenoriaethau a chyfaddawdau, ochr yn ochr â gofynion statudol, rhwymedigaethau amgylcheddol, a'r angen i sicrhau gwydnwch a chynaliadwyedd hirdymor i Gymru.

Byddwn yn archwilio adeiladu system o'r fath ac yn ystyried yn ofalus yr hyn y byddai'n ei awgrymu ar gyfer swyddogaethau cynllunio dŵr presennol a byddem yn croesawu adborth ar y cysyniad lefel uchel hwn.

Fel y nodwyd uchod, rydym yn llai argyhoeddedig ynghylch rhai o awgrymiadau'r Comisiwn, er enghraifft symud y cyfrifoldeb am fod yn Awdurdod Cynllunio Rheoli Basnau Afonydd oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru a'i roi i gynllunydd systemau, ond byddem yn croesawu barn ar gynigion y Comisiwn a dulliau amgen.

Bydd yr adborth i'r Papur Gwyrdd yn y maes hwn yn cyfrannu at ddatblygu polisiau ymhellach, dadansoddi cyfreithiol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Byddwn yn ystyried sut bydd swyddogaeth cynllunio systemau newydd yn cyd-fynd â phrosesau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys amserlen etholiadol y Senedd, rhaglen ddeddfwriaethol a chylchoedd cyllideb.

2.2: Cylchoedd Cynllunio a Gorwelion Buddsoddi

Argymhelliad 4 y Comisiwn

Dylid cadw'r cylch Adolygu Prisiau 5 mlynedd, yng Nghymru ac yn Lloegr, ar gyfer pennu biliau dŵr a refeiwr cwmnïau dros gyfnod o 5 mlynedd. Ond dylid cynllunio buddsoddiad y diwydiant dŵr ar sail 5/10/25 mlynedd gyda mwy o sicrwydd a manylder am y 5 mlynedd gyntaf, cynlluniau mwy dangosol ar gyfer y 5 mlynedd ganlynol ac arwydd lefel uwch ar gyfer y tymor hwy.

Rydym yn derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn. Rydym yn cydnabod gwerth cadw'r cylch Adolygu Prisiau pum mlynedd ar gyfer pennu ffioedd cwsmeriaid a refeiwr cwmnïau, ar yr un pryd â galluogi gorwelion cynllunio tymor hwy i gefnogi buddsoddiad strategol, gwydnwch a darpariaeth. Fel y nodir uchod, mae cyfle yng Nghymru i wreiddio'r dull hwn yn sylfaenol drwy wneud cynllunio systemau yn swyddogaeth i'r rheoleiddiwr economaidd. Gallai hyn helpu i sicrhau bod fforddiadwyedd tymor byr yn cael ei gydbwyso â seilwaith tymor hir ac anghenion amgylcheddol.

Wrth weithredu'r dull hwn, bydd angen i'r rheoleiddiwr economaidd ystyried amserlenni statudol a allai orgyffwrdd â chyfnodau Adolygu Prisiau. Er enghraifft, bydd gweithgareddau sy'n destun adolygiadau Technegau Gorau sydd ar Gael statudol, fel triniaeth slwtsh wedi'i rheoleiddio, yn cael eu llywodraethu gan derfynau amser statudol, a allai gael blaenoriaeth dros gylchoedd Adolygu Prisiau. Bydd hyn yn helpu i osgoi heriau a brofwyd wrth weithredu deddfwriaeth newydd ac adolygiadau statudol cysylltiedig.

Wrth ddatblygu'r dull hwn, bydd angen i ni hefyd ystyried sut mae gorwelion cynllunio yn cyd-fynd â chylch etholiadol newydd y Senedd. O 2026 ymlaen, bydd etholiadau'r Senedd yn cael eu cynnal bob pedair blynedd. Mae'r newid hwn yn creu rhythm gwahanol ar gyfer datblygu a chraffu ar bolisi, a bydd angen i unrhyw fframwaith cynllunio tymor hir fod yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer newidiadau ym mlaenoriaethau'r llywodraeth ar yr un pryd â chynnal parhad o ran cyflawni. Gall y gorwel pum mlynedd barhau i fod yn bont ddefnyddiol rhwng cylch etholiadol y Senedd a chylch rheoleiddio, ac mae gorwelion 10 a 25 mlynedd y Senedd yn

cynnig strwythur ar gyfer nodi uchelgeisiau tymor hwy y gellir eu hailystyried a'u hadnewyddu dros amser.

Mae'n bwysig pwysleisio y dylai anghenion yr amgylchedd aros yn gyson a chael eu blaenoriaethu, beth bynnag fo'r system neu'r broses wleidyddol. Er y gall cylchoedd gwleidyddol ddylanwadu ar flaenoriaethau a chyflymder cyflawni, rhaid cynnal amcanion amgylcheddol yn gyson drwy gydol y gwaith cynllunio a gweithredu. Adlewyrchir yr egwyddor hon yn Adroddiad Terfynol y Comisiwn a bydd yn sail i'n dull gweithredu.

Bydd y newid i gynllunio tymor hwy yn cael ei gyflwyno'n raddol a'i gefnogi gan ganllawiau, adnoddau a meithrin gallu ar draws y sector. Bydd angen i ni hefyd ystyried goblygiadau trawsffiniol, yn enwedig i gwmnïau sy'n gweithredu yng Nghymru ac yn Lloegr, er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb o ran disgwyliadau.

Rydym yn croesawu safbwyntiau ar sut dylid gweithredu gorwelion cynllunio tymor hwy yng Nghymru, gan gynnwys y ffordd orau o gefnogi buddsoddiad strategol, cydfynd â chylchoedd y Senedd, a sicrhau manteision i gymunedau a'r amgylchedd.

2.3: Cydgrynhai Cynlluniau'r Diwydiant Dŵr

Argymhelliad 5 y Comisiwn

Dylid cwtogi ar gynlluniau'r diwydiant dŵr o 9 cynllun i 2 fframwaith cynllunio craidd - 'Amgylchedd Dŵr' a 'Cyflenwad Dŵr'. Mae hyn yn berthnasol i Gymru a Lloegr.

Rydym yn cytuno â bwriad yr argymhelliad hwn ac yn cydnabod yr heriau a achosir gan y dirwedd gynllunio bresennol.

Mae'r fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol ar gyfer y system ddŵr yng Nghymru (a Lloegr) wedi datblygu yn dameidiog dros nifer o flynyddoedd. O ganlyniad, mae bellach yn rhy gymhleth, yn anodd ei llywio, ac yn aml mae diffyg eglurder a ffocws ar flaenoriaethau a chanlyniadau allweddol. Mae rhai elfennau hefyd wedi dyddio. Adlewyrchir y cymhlethdod hwn yn y dirwedd gynllunio bresennol, sy'n cynnwys nifer o gynlluniau statudol ac anstatudol sy'n gorgyffwrdd. Mae bodolaeth naw cynllun statudol ac anstatudol ar wahân yn creu cymhlethdod a gall lesteirio cydlynad strategol ar draws y sector. Fodd bynnag, nid ydym wedi ein hargyhoeddi mai dileu'r gofynion cynllunio ar wahân yw'r ateb cywir o reidrwydd.

Rydym yn gweld gwerth mewn dod ag allbynnau cynllunio at ei gilydd ar y lefel strategol, dan arweiniad rheoleidiwr sydd â swyddogaethau economaidd a chynllunio systemau. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau nad yw blaenoriaethau economaidd yn bwrw cysgod dros anghenion amgylcheddol ac anghenion y system. Bydd ein model llywodraethiant yn darparu mesurau diogelu clir fel bod diogelu'r amgylchedd, gwydnwch a gwerth cyhoeddus yn cael yr un ystyriaeth ochr yn ochr â rheoleiddio economaidd. O fewn y fframwaith hwn, byddwn yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd i resymoli ac integreiddio cynlluniau penodol lle bynnag y bydd hyn yn cryfhau'r ffocws ar ganlyniadau amgylcheddol a systemau. Gwneir unrhyw newidiadau i wella, nid gwanhau, ein hymrwymiad i'r blaenoriaethau hyn. Rydym yn gwahodd sylwadau ar gyfleoedd i ddod â chynlluniau at ei gilydd, ac a fyddai unrhyw newidiadau ym mherchnogaeth cynlluniau yn briodol, gan sicrhau bod dyletswyddau a blaenoriaethau statudol yn cael eu cynnal.

Byddai unrhyw gydgrynhoi yn cynrychioli ymrwymiad sylweddol. Byddai angen ystyried yn ofalus fframweithiau deddfwriaethol, dyletswyddau statudol, a rolau nifer

o sefydliadau ar draws y llywodraeth, diwydiant a rheoleiddio. Bydd cydbwysu ysgogwyr economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol o fewn trefniadau llywodraethiant yn hanfodol, gydag atebolrwydd clir am gynnal y cydbwysedd hwn a chysoni amcanion sy'n cystadlu â'i gilydd yn ymarferol.

Wrth ddatblygu'r dull hwn, byddwn yn defnyddio ac yn cadw arbenigedd o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru a chwmnïau dŵr Cymru. Rhaid i waith cynllunio yn y dyfodol hefyd gefnogi blaenoriaethau ar lefel dalgylch, buddsoddiad aml-fudd, a chymau gweithredu y tu hwnt i'r rheini sy'n cael eu harwain gan gwmnïau dŵr, yn enwedig mewn perthynas â draenio, defnydd tir, amaethyddiaeth ac adfer natur. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael â gwydnwch yn erbyn sychder a hyrwyddo adfer afonydd ar gyfer rheoli llif a bioamrywiaeth, ochr yn ochr ag archwilio sut gall cynlluniau gefnogi'r gwaith o reoli perygl llifogydd yn well a lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd.

Bydd y gwaith hwn yn cyd-fynd â'n rhaglen ddeddfwriaethol ehangach ac yn cael ei gefnogi gan ganllawiau statudol. Rhaid i unrhyw newidiadau fod yn rhai y gellir eu cyflawni, yn gynhwysol, ac yn gallu cefnogi gwydnwch a chynaliadwyedd hirdymor. Rydym hefyd yn cydnabod bod sawl agwedd ar gynllunio dŵr a seilwaith yn rhyngweithio ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Bydd newidiadau mewn trefniadau cynllunio yn y naill wlad neu'r llall yn gofyn am gydlyn gofalus er mwyn osgoi canlyniadau anfwriadol, gan gynnwys ystyried sut mae fframweithiau Cymru'n rhyngweithio â systemau cynllunio Lloegr.

Rydym yn croesawu safbwyntiau ar y ffordd orau o fynd i'r afael â'r materion hyn, gan gynnwys y camau ymarferol sydd eu hangen, y manteision a'r risgiau posibl, a'r goblygiadau ar gyfer cyflawni ar draws y sector.

2.4: Cysondeb ac Arfarniad Economaidd

Argymhelliad 6 y Comisiwn

Dylai cydlynnydd cenedlaethol y cynllunydd systemau yn Lloegr, a'r cynllunydd systemau cenedlaethol yng Nghymru, ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros sicrhau cysondeb o ran senarios, rhagdybiaethau a metrigau ar gyfer cynllunio'r diwydiant dŵr ar draws y fframwaith cynllunio newydd.

Argymhelliad 7 y Comisiwn

Dylai'r cynllunydd systemau, gyda chefnogaeth y rheoleiddiwr economaidd, fod angen, cefnogi a chraffu ar ddull cryfach o ddatblygu opsiynau a dadansoddiad cost a budd ar draws fframweithiau cynllunio'r diwydiant dŵr. Mae hyn yn berthnasol i Gymru a Lloegr.

Rydym yn derbyn egwyddor argymhellion 6 a 7. Mae gwella cysondeb a thrylwyrdd economaidd ar draws gwaith cynllunio'r diwydiant dŵr yn hanfodol. Y dull gweithredu rydym yn ei ffafrio yw cyfuno swyddogaeth cynllunio'r system a'r swyddogaeth rheoleiddio economaidd mewn un corff. Byddai hyn yn caniatáu i swyddogaeth cynllunio'r system arwain y broses, tra byddai'r swyddogaeth rheoleiddio economaidd yn trosi cynlluniau i'r rheolaethau a'r targedau rheoleiddio angenrheidiol. Mae'r strwythur hwn yn cynnig ffordd glir ac effeithiol o fwrw ymlaen â'r argymhellion hyn. Byddai hefyd yn rhoi eglurder wrth osod senarios, rhagdybiaethau a metrigau cyffredin, ac yn sicrhau bod arfarnu economaidd yn cael ei wreiddio drwy gydol y broses gynllunio.

Bydd cryfhau arfarniadau economaidd, yn enwedig mewn perthynas â datblygu opsiynau a dadansoddi cost a budd, yn hanfodol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol yn dryloyw, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn gallu sicrhau'r gwerth gorau i'r cyhoedd ac i'r amgylchedd.

Bydd angen i'r newid i fframwaith cynllunio mwy cyson ac economaidd gadarn gael ei gyflwyno'n raddol a'i gefnogi gan ganllawiau statudol, meithrin gallu, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Byddwn hefyd yn ystyried goblygiadau trawsffiniol, yn enwedig lle mae rhagdybiaethau cynllunio a disgwyliadau rheoleiddio yn wahanol rhwng Cymru a Lloegr a lle mae bioadnoddau'n cael eu symud (slwtsh carthion, slwtsh gloywi dŵr ac ati). Bydd sicrhau cysondeb, hyd yn oed lle ceir gwahaniaethau, ar draws awdurdodaethau yn bwysig er mwyn osgoi dyblygu a sicrhau eglurder i gwmnïau sy'n gweithredu yn y ddwy wlad.

Rydym yn croesawu barn ar sut y dylid datblygu a chyflawni'r swyddogaethau hyn yng Nghymru, a'r camau ymarferol sydd eu hangen i gryfhau cysondeb ac arfarnu ar draws y sector.

Pennod 3: Moderneiddio ein Fframwaith Deddfwriaethol yng Nghymru

Mae diwygio'r sector dŵr yn gyfle i gryfhau fframweithiau cyfreithiol sy'n ymwneud â dŵr, gan adlewyrchu blaenoriaethau ein cymunedau yng Nghymru.

Rydym yn cytuno'n fras â nodau argymhellion yr Adroddiad yn y maes hwn, sy'n annog defnyddio deddfwriaeth i sbarduno gwelliannau ar gyfer yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd, gan ddatblygu fframwaith cyfreithiol cliriach a fydd yn galluogi'r rheoleiddwyr i ddal cwmnïau a sectorau i gyfrif yn well.

Bydd adolygiad o'r ddeddfwriaeth a'r dystiolaeth yn ein galluogi i sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn llawn â nodau a blaenoriaethau Cymru ac yn ystyried newidiadau sy'n ymwneud â gwell dealltwriaeth o sylweddau newydd yn yr amgylchedd. Wrth wneud hynny, byddem yn sicrhau na fyddai gostyngiad yn y mesurau diogelu ar gyfer yr amgylchedd a ddarparwyd tra roedd Cymru yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn adlewyrchu ein safbwynt polisi datganedig ac yn adlewyrchu'r darpariaethau amgylcheddol yng Nghytundeb Masnach a Chydweithredu'r UE-DU, gan gynnwys yr egwyddor o ddim atchwelyd yn Erthygl 391(2) (sy'n gorfodi'r ddau barti i beidio â gwanhau na lleihau eu safonau amgylcheddol a hinsawdd yn is na'r lefelau sydd ar waith ar ddiwedd y cyfnod pontio mewn ffordd sy'n effeithio ar fasnach neu fuddsoddiad). Byddem hefyd yn adlewyrchu canlyniad y trafodaethau presennol ar Ailosod yr UE.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio mewn meysydd polisi cysylltiedig sy'n effeithio ar iechyd afonydd ac ansawdd dŵr. Mae hyn yn cynnwys gwaith i gryfhau rheoleiddio a gorfodi sut mae deunyddiau organig fel slwtsh carthion, gweddillion treuliad anaerobig, tail a slyri yn cael eu rheoli ar ôl eu rhoi ar dir. Mae'r gwaith hwn yn ymateb i bryderon hirsefydlog am lygredd maetholion, effeithiau cronol mewn dalgylchoedd, bylchau rhwng rheolaethau cynllunio a rheoleiddio, a gallu cyfyngedig fframweithiau sydd eisoes yn bodoli i asesu effeithiau deunyddiau organig ar ôl iddynt adael gosodiadau a ganiateir. Mae'r materion hyn wedi cael eu codi'n gyson gan sefydliadau amgylcheddol, rheoleiddwyr a chymunedau, ac maent yn peri pryder penodol mewn dalgylchoedd afonydd sensitif. Felly, dylid darllen y Papur Gwyrdd hwn ochr yn ochr â'r gwaith hwnnw. Gyda'i gilydd, maent yn adlewyrchu amcan cyffredin i sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol yng Nghymru yn gadarn, yn gydlynol ac yn gallu mynd i'r afael â phwysau gwasgaredig a phwynt ffynhonnell ar yr amgylchedd dŵr, gan ddarparu eglurder a sicrwydd i reolwyr tir, i gymunedau ac i fusnesau.

3.1: Fframwaith deddfwriaethol a thargedau

Argymhelliad 8 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru adolygu'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer dŵr a'i ddiwygio yn unol â hynny.

Mae fframwaith deddfwriaethol cryf, ynghyd â thargedau priodol, yn hanfodol i sicrhau bod rheoli dŵr yn cefnogi gwella'r amgylchedd, addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd, adfer natur, yn diwallu anghenion a disgwyliadau ein cymunedau ac yn galluogi twf economaidd cynaliadwy. Wrth ddatblygu unrhyw fframwaith deddfwriaethol diwygiedig, byddwn yn sicrhau bod darpariaethau newydd yn cydweddu'n effeithiol â deddfwriaeth bresennol sy'n hanfodol i reoli'r system ddŵr.

Bydd hyn yn helpu i gynnal cydlynad ar draws dyletswyddau statudol, osgoi dyblygu neu fylchau, a chefnogi canlyniadau integredig i Gymru.

Mae'r fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol presennol ar gyfer y system ddŵr yng Nghymru (a Lloegr) wedi datblygu fesul cam dros gyfnod estynedig. Rydym yn cytuno bod hyn wedi arwain at fframwaith deddfwriaethol sy'n rhy gymhleth, yn anodd ei lywio, ac nad yw'n glir nac yn canolbwyntio ar flaenoriaethau a chanlyniadau allweddol. Fel y nodwyd ar dudalen 101 adroddiad y Comisiwn, mae rhywfaint o'r ddeddfwriaeth hefyd wedi dyddio ac efallai nad yw'n adlewyrchu'n gywir y ddealltwriaeth wyddonol ddiweddaraf na blaenoriaethau cyhoeddus, er enghraifft [Rheoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol \(Cymru a Lloegr\) 1994](#) (UWWTR 1994).

O ganlyniad, bwriadwn dderbyn argymhelliad 8 i adolygu'r fframwaith deddfwriaeth dŵr fel y mae'n berthnasol i Gymru a gwneud diwygiadau priodol. Fel y cydnabyddir yn yr Adroddiad, mae hyn yn ymrwymiad sylweddol iawn o ystyried swmp y ddeddfwriaeth yn y maes hwn a bydd yn cymryd amser.

Nodwn baramedrau a awgrymir gan y Comisiwn ar gyfer cynnal yr adolygiad o ddeddfwriaeth, a nodir ym Mhennod 3 eu hadroddiad. Rydym yn cytuno bod y rhain yn baramedrau synhwyrol i lywio cwmplas y dasg, gan gydnabod y gallai paramedrau esblygu o reidrwydd wrth i'r gwaith gael ei wneud. Yn yr un modd ag unrhyw ddiwygiad deddfwriaethol o'r math hwn, byddem yn ymgysylltu â'r cyhoedd, rhanddeiliaid ac arbenigwyr gwyddonol a thechnegol perthnasol.

Fel rhan o'r ymarfer hwn, byddwn yn manteisio ar y cyfle i gysoni'r fframwaith deddfwriaethol yn well ag ethos Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys ein huchelgeisiau ar gyfer dulliau cydweithredol hirdymor o ymdrin â chynaliadwyedd.

Byddem yn croesawu barn ar amserlen realistig ar gyfer yr adolygiad hwn ac unrhyw feysydd blaenoriaeth i ganolbwyntio arnynt, er enghraifft gorgyffwrdd neu fylchau yn y system bresennol.

3.2: Dŵr gwastraff a draenio

Argymhelliad 9 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ddiweddarau a diwygio UWWTR 1994 i sicrhau canlyniadau gwell a dull mwy cynaliadwy o reoli draenio a dŵr gwastraff.

Dylai hyn gynnwys adrodd ynghylch a oes angen cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr er mwyn i'r sector dŵr ariannu'r gwelliannau angenrheidiol.

Argymhelliad 10 y Comisiwn

Dylai'r Llywodraeth ystyried newidiadau deddfwriaethol i sbarduno dull mwy cydlynol o ymdrin ag atebion 'cyn y bibell' i atal llygryddion a dŵr glaw rhag mynd i mewn i'r system.

Mae systemau draenio a dŵr gwastraff yn hanfodol i iechyd y cyhoedd a diogelu'r amgylchedd. Rydym yn cytuno y dylid adolygu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer dŵr gwastraff a draenio. Fodd bynnag, gellir sicrhau gwelliannau gwirioneddol mewn canlyniadau heb aros am newid deddfwriaethol. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gamau gweithredu ymarferol, nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r fframwaith presennol, gan gynnwys UWWTR 1994, yn gymhleth ac nid yw bob amser yn targedu'r effeithiau mwyaf arwyddocaol ar iechyd y cyhoedd na'r

amgylchedd. Mae llawer o'n seilwaith yn heneiddio ac yn dibynnu ar systemau dŵr glaw a dŵr budr cyfun, sy'n creu heriau, yn enwedig yng nghyd-destun newid yn yr hinsawdd. Rhaid i unrhyw newidiadau deddfwriaethol ymateb i'r realiti hwn a chyfeirio ymdrechion rheoleiddio a buddsoddi tuag at fynd i'r afael â'r effeithiau negyddol mwyaf yn gyntaf, o fewn cynllun hirdymor clir. Dylai'r fframwaith hefyd fabwysiadu dull cyfannol o ymdrin â dalgylchoedd, gan alluogi ymyriadau ymhellach i fyny'r gadwyn a blaenoriaethu atebion sy'n seiliedig ar natur yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar beirianeg galed.

Mae blaenoriaethau eraill yn cynnwys adnewyddu cyfalaf a chynnal a chadw asedau presennol, mynd i'r afael â chemegion gormodol (maethynnau) a chemegau a deunyddiau sy'n peri pryder (PFAS (sylweddau perffflworoalcyl a pholyfflworalcyl) a sylweddau eraill), rheoli pwysau ar gapasiti carthffosydd a gorlifoedd storm, gwella ymddygiad defnyddwyr, ac adolygu'r drefn caniatáu elifion masnach. Mae'n bwysig nodi ei bod eisoes yn ofynnol i rai sectorau a reoleiddir ddangos effeithiau anuniongyrchol unrhyw warediad i garthffosydd i lawr yr afon o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, sy'n deillio o gyfraith Ewropeaidd. Byddwn yn adolygu fframweithiau rheoleiddio presennol eraill sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer rheoli allyriadau anuniongyrchol i sicrhau dull gweithredu cynhwysfawr.

O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn argymhellion 9 a 10. Mae camau eisoes ar y gweill, gan gynnwys deddfwriaeth i wahardd weips gwlyb sy'n cynnwys plastig, ffynhonnell sylweddol o ficroblastigau mewn dŵr, sydd eisoes wedi cael ei phasio yng Nghymru.

Nid diwygio deddfwriaethol yw'r unig beth sy'n sbarduno gwelliant. Mae angen gorfodaeth reoleiddiol gryfach arnom, gan gynnwys sancsiynau sifil a chymhellion sy'n cefnogi canlyniadau cadarnhaol. Mae cyfleoedd i dreialu dulliau arloesol a defnyddio atebion dalgylch cyfan sy'n seiliedig ar natur. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i bob sector weithio gyda'i gilydd, nid dim ond y diwydiant dŵr, a buddsoddi mewn ymyriadau cost-effeithiol.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r diwydiant dŵr i leihau faint o ddeunyddiau amhriodol sy'n dod i mewn i'w rhwydwaith, fel weips, cynhyrchion mislif, ffyn cotwm, brasterau, olewau a saim, drwy atal yr eitemau hyn rhag cael eu fflysio neu eu harllwys. Mae lleihau'r baich hwn ar systemau dŵr yn diogelu'r amgylchedd, yn lleihau costau cynnal a chadw, ac yn cryfhau gwydnwch, gan helpu cymunedau i fwynhau dŵr glanach, mwy diogel a mwy dibynadwy ar yr un pryd â chefnogi biliau mwy sefydlog a biliau a allai fod yn is.

Dylai'r fframwaith deddfwriaethol integreiddio bioamrywiaeth a meysydd polisi eraill, a chydblethu â deddfwriaeth bresennol i gynnal cydlynad ac osgoi dyblygu. Byddem yn croesawu barn ar amserlen realistig ar gyfer adolygu deddfwriaeth yn y maes hwn, ar orgyffwrdd neu fylchau yn y system bresennol, ac ar sut y gellir targedu gorfodaeth yn fwy effeithiol i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol. Byddem hefyd yn croesawu safbwyntiau ar flaenoriaethau gweithredu eraill, fel arloesi, ymgysylltu â'r cyhoedd a buddsoddi mewn atebion sy'n seiliedig ar natur.

3.3: Rheoliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr

Argymhelliad 11 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ymgynghori ar ddiwygiadau i Reoliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, gan gynnwys ehangu'r cwrpas i gynnwys canlyniadau iechyd y cyhoedd.

Argymhelliad 12 y Comisiwn

Er mwyn hwyluso asesiad cadarn o sut y gellir ymgorffori iechyd y cyhoedd yn effeithiol mewn fframwaith dŵr newydd, dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sefydlu tasgluoedd dan arweiniad Prif Swyddogion Meddygol Cymru a Lloegr i adolygu ymgorffori iechyd y cyhoedd yn well yn y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer dŵr.

Mae [Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr \(Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr\) \(Cymru a Lloegr\) 2017](#) (Rheoliadau WFD) yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoli'r amgylchedd dŵr yng Nghymru. O dan y Rheoliadau hyn, mae dyfroedd wyneb yn cael eu dosbarthu'n 'gyrff dŵr' a'u hasesu ar gyfer Statws Ecolegol Da neu, ar gyfer gyrff dŵr artiffisial ac wedi'u haddasu'n helaeth, Potensial Ecolegol Da, yn ogystal â Statws Cemegol Da ar gyfer pob corff dŵr.

Mae dyfroedd ymdrochi a physgod cregyn wedi'u dynodi'n ardaloedd gwarchodedig o dan Reoliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr ac maent yn ddarostyngedig i ofynion statudol ychwanegol o dan y [Rheoliadau Dŵr Ymdrochi 2013 a Chyfarwyddiadau Ardaloedd Gwarchodedig Dyfroedd Pysgod Cregyn \(Cymru a Lloegr\) 2016](#) (Cyfarwyddiadau 2016). Er bod rhywfaint o integreiddio â deddfwriaeth iechyd y cyhoedd a diogelwch bwyd yn bodoli, efallai y bydd angen rhagor o gysoni. Mae angen ystyried sut mae'r fframwaith hwn yn rhyngweithio â chyfundrefnau eraill, gan gynnwys y [Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017](#) a'r gofynion ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC). Bydd yr asesiadau hyn yn parhau i fynd i'r afael ag effeithiau ar iechyd yn y cylch nesaf o Gynlluniau Rheoli Basnau Afonydd.

Mae adroddiad y Comisiwn yn tynnu sylw at heriau wrth weithredu Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd, sy'n ofyniad statudol o dan Rheoliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Mae'r rheol "un allan, pob un allan" ar gyfer dosbarthu yn golygu mai dim ond os yw'r holl elfennau, gan gynnwys statws ecolegol a chemegol, yn dda y bydd corff dŵr yn cael statws da. Gall y dull hwn guddio cynnydd graddol a'i gwneud yn anoddach cyfleu gwelliannau i randdeiliaid. Mae'r dystiolaeth bresennol yn awgrymu na fydd yr amcanion Statws Ecolegol Da/ Potensial Ecolegol Da a Statws Cemegol Da yn cael eu cyflawni ar gyfer pob corff dŵr. Mae'r rhesymau dros hyn yn gymhleth, ond un mater allweddol a nodwyd gan y Comisiwn yw'r anhawster o fwrw ymlaen â chymau gweithredu Cynllun Rheoli Basnau Afonydd a'r diffyg cymhellion ariannol i sectorau y tu allan i'r diwydiant dŵr.

Nid yw iechyd y cyhoedd yn un o amcanion craidd Rheoliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar statws ecolegol a chemegol yn hytrach na chanlyniadau iechyd uniongyrchol i bobl. I'r gwrthwyneb, mae deddfwriaeth fel Rheoliadau Dŵr Ymdrochi 2013 yn rhoi pwyslais penodol ar amddiffyn pobl rhag pathogenau drwy safonau microbiolegol ar gyfer safleoedd ymdrochi dynodedig, ac mae Cyfarwyddiadau 2016 yn cefnogi bywyd a thwf pysgod cregyn ac yn cyfrannu at ddiogelwch bwyd drwy fynnu bod halogion a phathogenau'n

cael eu monitro mewn ardaloedd cynaeafu pysgod cregyn. Gyda'i gilydd, mae'r fframweithiau hyn yn ategu Rheoliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr drwy dargedu risgiau iechyd nad yw Rheoliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn ymdrin â nhw'n uniongyrchol.

Nid yw'r fframwaith presennol yn gyfredol â risgiau sy'n dod i'r amlwg a risgiau cymhleth, gan gynnwys cemegion parhaus fel PFAS, microblastigau, a maethynnau gormodol sy'n gallu arwain at ewtroffigedd o dan amodau penodol. Mae'r llygryddion hyn yn peri heriau ecolegol hirdymor a heriau posibl o ran iechyd y cyhoedd, ac eto nid yw'r systemau monitro a dosbarthu presennol o dan Rheoliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn mynd i'r afael â nhw'n ddigonol. Felly, mae achos dros ddiwygio i sicrhau bod Rheoliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn parhau i fod yn effeithiol, yn addas ar gyfer y dyfodol, ac yn ymateb i dystiolaeth wyddonol, disgwyliadau'r cyhoedd ac anghenion rhanddeiliaid, gan eu galluogi i fynd i'r afael â bygythiadau etifeddol a rhai sy'n dod i'r amlwg i ansawdd dŵr.

Wrth ystyried newidiadau yn y dyfodol, byddwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i "iechyd ym mhob polisi". Mae hyn yn cynnwys y cysyniad o Iechyd Cyfunol, y mae Sefydliad Iechyd y Byd yn ei ddiffinio fel dull integredig, unedig sy'n ceisio cydbwysu a gwella iechyd pobl, anifeiliaid ac ecosystemau yn gynaliadwy. Bydd angen i unrhyw fframwaith diwygiedig gysylltu'n effeithiol â'r trefniadau presennol a'r rheoleiddiwr economaidd arfaethedig a swyddogaethau cynllunio'r system. Dylai hefyd anelu at gynnwys yr holl systemau defnydd tir sy'n effeithio ar ansawdd dŵr er mwyn gallu cyflawni'n effeithiol.

Os nodir ystyriaethau iechyd y cyhoedd ehangach, dylid ystyried opsiynau i fynd i'r afael â'r rhain drwy ehangu cwrddas Rheoliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr neu drwy greu trefn newydd. Y naill ffordd neu'r llall, dylid adrodd ar gynnydd ar wahân, un mesur yn olrhain ansawdd amgylcheddol a swyddogaeth ecosystem, ac un arall yn canolbwyntio ar ganlyniadau iechyd y cyhoedd. Rydym yn cydnabod rhyngddibyniaethau iechyd pobl ac iechyd ecosystemau a'r cyfleoedd i ddatblygu dull gweithredu sy'n cynnig synergeddau a manteision lluosog.

Wrth ystyried mesurau i wella safonau ansawdd dŵr, mae'n bwysig cydnabod na all neu na ddylai pob corff dŵr gael yr un lefel o warchodaeth â dyfroedd ymdrochi dynodedig. Mae gofynion microbiolegol llymach yn berthnasol i ddyfroedd ymdrochi oherwydd eu bod wedi'u bwriadu ar gyfer cyswllt uniongyrchol â phobl, tra gall cyrff dŵr eraill gyflawni dibenion ecolegol neu ddibenion adnoddau lle mae safonau gwahanol yn briodol. Mae'r gwahaniaeth hwn yn tanlinellu'r angen am fesurau cymesur ac wedi'u targedu sy'n adlewyrchu'r defnydd arfaethedig a'r dichonoldeb ymarferol o sicrhau cydymffurfiaeth. Gwahoddir barn ar opsiynau ymarferol a chwmpas daearyddol. Byddwn hefyd yn defnyddio cyngor gan y Grŵp Cyngori ar Ddiogelu Iechyd, dan gadeiryddiaeth Prif Swyddog Meddygol Cymru, sydd eisoes yn archwilio ansawdd dŵr a'i effaith ar iechyd y cyhoedd.

Mae adroddiad y Comisiwn hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwerth amwynder a'r angen i adlewyrchu hyn mewn unrhyw fframwaith yn y dyfodol. Mae'r achos dros newid yma yn llai cryf, ac nid yw'r ffordd y gellid mesur gwerth amwynder mor glir, ond rydym yn croesawu barn ar yr hyn a allai fod yn bosibl a sut y gellid ei fesur.

Bydd angen i unrhyw fframwaith yn y dyfodol fod yn fforddiadwy, darparu gwerth am arian, bod yn hawdd ei ddefnyddio a'i weithredu, a bod yn addas i'r diben. Bydd penderfynu ar y dull sy'n cael ei ffafrio yn gofyn am asesiad cadarn o gostau,

manteision a dichonoldeb. Er y gall y gwaith o gynllunio ac adrodd ar gyfer y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, yr UWWTR a Dyfroedd Ymdrochi newid, bydd y safonau amgylcheddol presennol yn cael eu cynnal.

3.4: Monitro'r amgylchedd dŵr

Argymhelliad 13 y Comisiwn

Dylid adolygu rhaglenni monitro dŵr yn y dyfodol a darparu adnoddau digonol ar eu cyfer, er mwyn adlewyrchu cyflwr yr amgylchedd yn gywir.

Mae monitro'r amgylchedd dŵr yn elfen hanfodol o'r Rheoliadau WFD. Mae'n sicrhau tryloywder, atebolrwydd ac yn cefnogi penderfyniadau rheoleiddio ar sail gwybodaeth.

Mae'r fframwaith monitro presennol yn defnyddio llawer o adnoddau, sy'n golygu bod angen casglu data cynhwysfawr ar draws yr holl gyrff dŵr a'r mathau o lygryddion. Oherwydd cyfyngiadau adnoddau, mae'r gwaith monitro wedi cael ei leihau, gan arwain at fylchau a defnyddio hen ddata. Mae yna fylchau lle nad yw llygryddion yn cael eu monitro o gwbl, ac mae oedi wrth adrodd yn creu oedi dilynol. Mae'r materion hyn yn tanseilio cywirdeb dosbarthiadau amgylcheddol ac effeithiolrwydd rheoli llygredd. Gall bylchau fod yn dymhorol, yn ofodol neu'n gysylltiedig â chemegau penodol. Mae mynd i'r afael â'r gwendidau hyn yn hanfodol er mwyn gwella hyder mewn data a gwneud penderfyniadau.

Rydym wedi ymrwymo i adolygu a gwella rhaglenni monitro dŵr yn y dyfodol, gan sicrhau bod ganddynt yr adnoddau priodol i adlewyrchu cyflwr yr amgylchedd yn gywir. Yn unol â hyn, rydym yn derbyn argymhelliad 13. Mae trefn fonitro gadarn yn hanfodol er mwyn cyflawni ein hamcanion amgylcheddol ac olrhain cynnydd tuag at dargedau ansawdd dŵr.

Rhaid i raglen samplu a monitro graidd sy'n cael ei hariannu'n ddigonol ac sy'n cael ei darparu gan Cyfoeth Naturiol Cymru fod wrth galon rheoleiddio yn y dyfodol. Dylai'r rhaglen hon adrodd ar ansawdd dŵr, nodi ysgogwyr o ansawdd gwael a darparu dosbarthiad tarddiad â lefel ddigonol o fanylder i alluogi gweithredu wedi'i dargedu.

Rydym hefyd yn cydnabod yr angen i ystyried cyfaddawdau. Mae gwella ansawdd dŵr yn aml yn golygu cael gwared ar lygryddion naill ai yn y tarddiad neu yn y gwaith trin. Ein dewis ni yw cael gwared ar lygredd yn y ffynhonnell, a dim ond os nad yw hynny'n ymarferol y dylid cael gwared ar lygryddion i lawr yr afon. Gall gwaredu gwaith trin effeithio ar ansawdd slwtsh, sydd â goblygiadau o ran diogelu'r amgylchedd yn ehangach ac iechyd pobl ac anifeiliaid. Rhaid i unrhyw ddull gweithredu yn y dyfodol gynnwys asesiad o'r canlyniadau bwriadol ac anfwriadol hyn i sicrhau bod gwelliannau'n gynaliadwy ac nad ydynt yn cynyddu'r risg gyffredinol.

Rhaid i waith monitro hefyd gefnogi cydymffurfiaid ag amcanion llif a chadwraeth, nid ansawdd dŵr yn unig. Mae gennym ddiddordeb mewn clywed barn am yr hyn y dylai rhaglen fonitro graidd ei gynnwys, yn ogystal â'i chwmpas a'i hamlder. Rydym hefyd am archwilio sut y gall technoleg, modelu rhagfynegol a gwyddoniaeth dinasyddion ddarparu darlun cyfoethocach a mwy deinamig o'r amgylchedd dŵr.

Mae cyllid yn parhau i fod yn fater allweddol. Mae'r Comisiwn yn awgrymu defnyddio'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu ar gyfer costau monitro. Byddwn yn adolygu mecanweithiau cyllido i sicrhau cynaliadwyedd ac effeithiolrwydd hirdymor.

3.5: Disgresiwn cyfyngedig

Argymhelliad 14 y Comisiwn

Yn Lloegr, dylai'r adolygiad o'r fframwaith deddfwriaethol fwrw ymlaen â'r cysyniad o 'ddisgresiwn cyfyngedig' ar gyfer y rheoleiddiwr. Dylai hyn hefyd fod yn berthnasol i gynllunwyr systemau dŵr, pe baent yn rhan o gorff annibynnol.

Argymhelliad 15 y Comisiwn

Yng Nghymru, dylai fframwaith disgresiwn cyfyngedig cryfach adeiladu ar y disgresiwn sydd eisoes wedi'i alluogi gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r cysyniad o ddisgresiwn cyfyngedig yn cyfeirio at ganiatáu hyblygrwydd i reoleiddwyr o ran sut maent yn cyflawni canlyniadau, o fewn set ddiffiniedig o ffiniau cyfreithiol a pholisi. Er bod rhywfaint o ddeddfwriaeth y sector dŵr yn rhagnodol iawn, gan gyfyngu ar allu rheoleiddwyr i addasu i amgylchiadau penodol, mae fframweithiau eraill, fel trwyddedu amgylcheddol, yn caniatáu dulliau gweithredu sydd wedi'u teilwra'n fwy.

Yng Nghymru, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy a nodau llesiant. Mae'r egwyddorion hyn yn galluogi rheoleiddwyr i gyfiawnhau gwneud penderfyniadau hyblyg. Rhannodd Cyfoeth Naturiol Cymru enghreifftiau o hyn â'r Comisiwn.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd bwerau sydd wedi'u cynllunio i adael iddo ddatrys problemau lle nad oes llwybrau rheoleiddio presennol yn bodoli, nid i osgoi rhwymedigaethau presennol. Mae'r pwerau hyn yn caniatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru brofi dulliau newydd a dysgu oddi wrthynt. Ar ben hynny, gall Cyfoeth Naturiol Cymru ddefnyddio disgresiwn mewn rhai fframweithiau rheoleiddio i gefnogi treialon arloesol a darparu atebion pontio ar gyfer gweithgareddau risg isel. Mae hyn yn cynnwys y Cytundeb Technegol Gweithredol, sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer treialu datrysiadau sy'n seiliedig ar natur. Mae disgresiwn wrth ddefnyddio adnoddau rheoleiddio hefyd yn bodoli yn Lloegr, ond mae gan Gymru hyblygrwydd ychwanegol drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a deddfwriaeth gysylltiedig.

O'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Comisiwn, ac adborth arall, mae'n amlwg bod rhai rhwymedigaethau rheoleiddio a dulliau gweithredu o ran cymhellion perfformiad a chosbau yn dal yn rhy llym. Gall hyn lesteirio arloesi a defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur. Nid diffyg uchelgais yw'r her, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn diweddar ei Gyfarwyddyd Treialon i'w gymhwyso'n ehangach ac mae wedi cyhoeddi penderfyniadau rheoleiddio i gefnogi'r diwydiant dŵr, gan gynnwys cymeradwyaethau diweddar ar gyfer gwastraff gloywi dŵr. Y prif gyfyngiadau yw adnoddau ac absenoldeb ffrydiau incwm ar gyfer y gwaith hwn.

O ganlyniad, rydym yn derbyn argymhelliad 15 sy'n galw am fframwaith disgresiwn cyfyngedig cryfach i adeiladu ar y disgresiwn sydd eisoes wedi'i alluogi gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Wrth wneud hynny, rydym yn cydnabod cyd-destun deddfwriaethol unigryw Cymru a'r ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy. Rydym hefyd yn cydnabod yr angen i wella hyblygrwydd rheoleiddiol ar yr un pryd â chynnal atebolrwydd, amddiffyniadau

amgylcheddol tymor hir a thryloywder. Dylai'r dull hwn fod yn berthnasol nid yn unig i Cyfoeth Naturiol Cymru ond hefyd i Ofwat ac unrhyw reoleiddiwr economaidd yn y dyfodol.

Pennod 4: Cryfhau Rheoleiddio ac Atebolrwydd Dŵr Cymru

Mae'r bennod hon yn ymateb i argymhellion y Comisiwn ar ddiwygio rheoleiddio. Mae'n nodi sut y gellid cryfhau trefniadau llywodraethiant yng Nghymru i wella tryloywder, egluro cyfrifoldebau, ac ymgorffori gwerth cyhoeddus yn fwy cyson ar draws y sector dŵr.

Mae llywodraethiant ac atebolrwydd yn ganolog i weithrediad effeithiol unrhyw system ddŵr. Maen nhw'n siapio sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, sut mae cyfrifoldebau'n cael eu dyrannu, a sut mae perfformiad yn cael ei fonitro a'i wella. Mae'r Comisiwn wedi nodi bod y trefniadau presennol, er eu bod yn weithredol, yn dameidiog ac yn brin o dryloywder. Gall hyn wanhau ymddiriedaeth y cyhoedd, lleihau cydlynad strategol, a chyfyngu ar allu'r sector i ymateb i heriau hirdymor.

Yng Nghymru, mae gennym gyfle i fabwysiadu dull mwy strategol o ddiwygio llywodraethiant. Mae ein pwerau datganoledig a'n fframwaith deddfwriaethol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a Bil Egwyddorion yr Amgylchedd yn darparu sylfaen gref ar gyfer newid. Mae'r fframweithiau hyn yn pwysleisio meddwl yn hirdymor, gwerth cyhoeddus a diogelu'r amgylchedd, a bydd angen eu hystyried yn llawn wrth ddylunio unrhyw fodel llywodraethiant newydd.

Mae datblygu swyddogaeth rheoleiddio economaidd ar wahân i Gymru, gyda swyddogaeth cynllunio system integredig, yn gyfle i ddarparu dull mwy integredig ac ymatebol o reoli dŵr. Bydd yn cryfhau hyder y cyhoedd ac yn cefnogi buddsoddiad tymor hir mewn seilwaith a diogelu'r amgylchedd. Mae'n bwysig nodi bod sefydlu rheoleiddiwr economaidd ar wahân i Gymru yn amodol ar drafodaethau parhaus gyda Llywodraeth y DU ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru. Mae hyn yn ymwneud ag ailgynllunio dull gweithredu a etifeddwyd o'r cyfnod cyn datganoli, nad yw wedi'i deilwra'n ddigonol i anghenion Cymru. Gallwn ddisodli hwn â fframwaith moesegol a chydweithredol sy'n seiliedig ar gynaliadwyedd, fforddiadwyedd a thegwch.

Rhaid i unrhyw ddiwygiad hefyd fod o fewn y cyd-destun polisi a chyllidol ehangach. Mae safbwynt polisi ehangach Llywodraeth Cymru, fel yr adlewyrchir yn y Datganiad Blaenoriaethau ac Amcanion Strategol i Ofwat, yn nodi disgwyliadau ar gyfer rheoleiddio sy'n gymesur, yn dryloyw ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau hirdymor. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys tegwch rhwng y cenedlaethau, gwydnwch a gwerth am arian i gwsmeriaid a chymunedau.

Rhaid i ddiwygio rheoleiddiol yn y sector dŵr adlewyrchu'r egwyddorion hyn a chael ei ddylunio i gefnogi uchelgeisiau ehangach ar gyfer Cymru gryfach, wyrddach a thecach.

Mae hefyd yn hanfodol ein bod yn ystyried sut mae newidiadau i reoleiddio yn rhyngweithio â chylch etholiadol pedair blynedd newydd y Senedd, gan alluogi parhad strategol ar yr un pryd â chaniatáu ar gyfer craffu democrataidd ac adnewyddu polisi. Bydd angen i ni hefyd ystyried sut bydd dull gweithredu Cymru yn gweithio ochr yn ochr â'r rheoleiddiwr integredig newydd sy'n cael ei sefydlu yn Lloegr. Mae hyn yn cynnwys rheoli materion trawsffiniol, sicrhau eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau yn ystod unrhyw gyfnod pontio, a chynnal cydweithio effeithiol lle mae buddiannau cyffredin yn bodoli.

Argymhelliad 16 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth y DU sefydlu rheoleiddiwr integredig newydd yn Lloegr. Dylai hyn gyfuno swyddogaethau Ofwat, DWI, a swyddogaethau dŵr Asiantaeth yr Amgylchedd (Lloegr) a Natural England. Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â'r saernïaeth reoleiddiol yn Lloegr ac felly mae'n fater i Lywodraeth y DU.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi cynnig y Comisiwn i gyfuno rheoleiddio economaidd, amgylcheddol a dŵr yfed yn un corff integredig ar gyfer Lloegr. Rydym yn cydnabod bod hyn yn adlewyrchu pryderon ynghylch darnio, dyblygu a'r angen am atebolrwydd cliriach yn y system yn Lloegr.

Yng Nghymru, rydym eisoes wedi cadarnhau y byddwn yn dilyn trywydd gwahanol, yn unol ag argymhellion y Comisiwn. Fel y trafodir ymhellach yn adran 4.1 isod, rydym wedi ymrwmo i sefydlu rheoleiddiwr economaidd ar wahân i Gymru ac fel y trafodwyd yn gynharach yn yr ymgynghoriad hwn, yn amodol ar farn ymgynghoreion, ein dewis cynyddol yw ymgorffori swyddogaeth cynllunio'r system ochr yn ochr â'r rôl honno. Rydym wrthi'n trafod y materion hyn â Llywodraeth y DU i sicrhau bod unrhyw drefniadau newydd yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau Cymru yn llawn.

Rydym yn cytuno ag argymhelliad y Comisiwn y dylai'r DWI barhau i fod yn wasanaeth i Gymru a Lloegr. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai'r broses o drosglwyddo'r swyddogaeth hon o Defra i reoleiddiwr newydd yn Lloegr fod yn heriol. Mae'n hanfodol nad yw unrhyw newidiadau i'r bensaernïaeth reoleiddiol yn Lloegr yn tanseilio effeithiolrwydd neu annibyniaeth prosesau rheoleiddio dŵr yfed yng Nghymru.

Mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed yn rhoi sicrwydd annibynnol o ddiogelwch a safonau dŵr yfed, ac mae Llywodraeth Cymru yn glir na ddylai'r mesurau diogelu hyn ar gyfer iechyd y cyhoedd gael eu gwanhau. Byddai angen i unrhyw ystyriaeth yn y dyfodol o newidiadau i drefniadau rheoleiddio gynnal neu wella hyder yn niogelwch ac ansawdd dŵr yfed Cymru. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu'n llawn a bod unrhyw newid yn cael ei reoli'n dryloyw ac ar y cyd.

Er nad penderfyniad Llywodraeth Cymru yw sefydlu rheoleiddiwr integredig newydd yn Lloegr, mae ganddo oblygiadau i Gymru. Mae Llywodraeth y DU wedi cynnig y caiff y corff newydd yn Lloegr oruchwyllo rhai swyddogaethau rheoleiddio dros dro ar gyfer Cymru tra bydd sefydliadau yng Nghymru yn cael eu sefydlu. Mae sicrhau bod hyn yn cael ei ddarparu mewn deddfwriaeth sydd wedi'i chynllunio a'i chyflwyno'n effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau parhad o ran goruchwyllo'r diwydiant dŵr yng Nghymru nes bydd sefydliadau newydd wedi'u sefydlu'n llawn.

Mae hwn yn gam cymhleth a sensitif o sefydlu trefniadau newydd. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda chymheiriaid yn Llywodraeth y DU i sicrhau bod trefniadau interim yn cael eu diffinio'n glir, gyda chyfyngiad amser ac nad ydynt yn tanseilio datblygiad capasiti rheoleiddio Cymru. Rydym wedi ymrwmo i ddarparu eglurder drwy gydol y broses hon.

Yn ystod y cyfnod pan fydd y trefniadau newydd yn cael eu sefydlu, bydd swyddogaethau rheoleiddio ar gyfer cwmnïau yng Nghymru yn cael eu goruchwyllo dros dro yn gyntaf gan Ofwat ac yna gan reoleiddiwr newydd Lloegr, ar ôl iddo gael

ei sefydlu. Drwy gydol y cyfnod hwn, bydd yn ofynnol i'r rheoleiddiwr reoleiddio'n effeithiol ar gyfer Cymru, gan ymateb yn llawn i anghenion a blaenoriaethau Cymru. Byddwn yn parhau i nodi ein disgwyliadau a'n gofynion drwy fecanweithiau fel y Datganiad Polisi Strategol a chyfarwyddiadau eraill, gan sicrhau bod y dull rheoleiddio yn adlewyrchu safonau ac amcanion polisi Cymru yn llawn. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod y gofynion hyn yn cael eu hymgorffori ym mhob trefniant interim, a bod rolau a chyfrifoldebau cyrff rheoleiddio Cymru a'r DU yn cael eu cyfleu'n glir i'r holl randdeiliaid. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU wrth iddi ddylunio a gweithredu ei rheoleiddiwr newydd yn Lloegr i sicrhau bod materion trawsffiniol yn cael sylw a bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu. Byddwn hefyd yn asesu'r potensial ar gyfer cydweithio, rhannu data ac alinio rheoleiddiol yn y dyfodol, lle bo hynny'n briodol, gan gynnal natur unigryw model Cymru ar yr un pryd.

Rydym yn dal i ganolbwyntio ar greu system reoleiddio yng Nghymru sy'n gydlynol ac yn atebol. Ein nod yw sicrhau manteision hirdymor i'n cymunedau a'n hamgylchedd. Er y gall y bensaernïaeth reoleiddiol yn Lloegr newid, byddwn ni'n cynnal system sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd, yn cefnogi ein blaenoriaethau ac yn darparu gwerth cyhoeddus ar draws y sector dŵr. Ni fydd safonau na blaenoriaethau Cymru yn cael eu gwanhau yn ystod y cyfnod pontio.

4.1 Sefydlu Rheoleiddiwr Economaidd Newydd i Gymru

Argymhelliad 17 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu swyddogaeth rheoleiddio economaidd newydd yng Nghymru sy'n gallu cyd-fynd yn uniongyrchol â chyfeiriad strategol a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Barn y Comisiwn yw mai'r llwybr gorau, yn amodol ar ymgynghoriad, fyddai ymgorffori hyn yn Cyfoeth Naturiol Cymru ochr yn ochr â'r swyddogaethau rheoleiddio ehangach ar gyfer dŵr yng Nghymru, er y gellid ystyried corff annibynnol bach hefyd, fel yn yr Alban.

Argymhelliad 18 y Comisiwn

Dylai'r rheoleiddiwr fabwysiadu dull mwy 'goruchwyliol' o reoleiddio cwmnïau unigol. Mae hyn yn berthnasol i Gymru a Lloegr.

Argymhelliad 19 y Comisiwn

Dylai'r rheoleiddiwr sicrhau bod cyllid yn cael ei gyfeirio'n briodol i adnewyddu asedau drwy ddiffinio'n glir a neilltuo gwariant cyfalaf sylfaenol (cynnal cyfalaf), gwariant gweithredol sylfaenol a lwfansau gwariant cyfalaf ychwanegol. Mae hyn yn berthnasol i Gymru a Lloegr.

Argymhellodd y Comisiwn y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu swyddogaeth rheoleiddio economaidd newydd ar gyfer y sector dŵr yng Nghymru. Ei farn, yn amodol ar ymgynghoriad, oedd y gellid ymgorffori'r swyddogaeth hon yn Cyfoeth Naturiol Cymru ochr yn ochr â'i gyfrifoldebau rheoleiddio ehangach. Nododd hefyd y gellid ystyried corff bach annibynnol, fel model yr Alban.

Rydym yn cefnogi argymhelliad y Comisiwn i sefydlu rheoleiddiwr economaidd annibynnol newydd ar gyfer y sector dŵr yng Nghymru. Nid ydym yn bwriadu creu un 'rheoleiddiwr dŵr' ar gyfer Cymru. Rydym eisoes wedi dwyn ynghyd swyddogaethau rheoleiddio amgylcheddol, rheoli adnoddau naturiol a swyddogaethau cysylltiedig yn

Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi cylch gwaith integredig Cyfoeth Naturiol Cymru a'r gofyniad i ystyried rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan weithio ar draws amgylcheddau tir, dŵr a morol. Nid ydym yn dymuno tanseilio hyn naill ai drwy ddileu swyddogaethau dŵr neu drwy ychwanegu cyfrifoldeb ychwanegol, fel rheoleiddio economaidd. Rydym yn cydnabod y gallai sefydlu swyddogaeth cynllunio systemau yn y rheoleiddiwr economaidd arwain at rai goblygiadau i swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, fel y nodwyd ym mhennod 2, rydym yn rhagweld y bydd cynllunio systemau yn swyddogaeth ychwanegol yn bennaf yn hytrach na disodli gweithgarwch presennol ar lefel genedlaethol.

Byddwn yn nodi trefniadau llywodraethiant clir fel bod pwerau gwneud penderfyniadau terfynol yn cael eu diffinio, bod atebolrwydd yn dryloyw, a bod diogelu'r amgylchedd yn cael ei warchod. Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried sut bydd pwerau a rolau statudol Cyfoeth Naturiol Cymru yn dylanwadu ar benderfyniadau cynllunio systemau, a lle bo angen, yn gallu eu herio, er mwyn sicrhau bod canlyniadau amgylcheddol yn cael eu diogelu.

Er mwyn sefydlu rheoleiddiwr economaidd gyda'r pwerau/swyddogaethau a ddymunir, mae'n debygol y bydd angen rhagor o gymhwysedd deddfwriaethol a swyddogaethau gweithredol. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i geisio'r pwerau angenrheidiol ac i sicrhau bod modd cyflawni newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio mewn ffordd sy'n adlewyrchu blaenoriaethau a chyfrifoldebau statudol Cymru.

Mae angen cytundeb â Llywodraeth y DU ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd datrys y materion hyn yn brydlon er mwyn rhoi eglurder i randdeiliaid ac i gefnogi cynllunio hirdymor effeithiol.

Os na roddir pwerau priodol i Gymru i gyflawni ei fframwaith rheoleiddio ei hun, byddai angen i Lywodraeth y DU sicrhau bod rheoliadau economaidd addas ar gyfer dŵr yng Nghymru yn cael eu cynnal. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd angen sicrwydd cadarn y bydd y rheoleiddiwr newydd sy'n cael ei arwain gan y DU yn diogelu buddiannau Cymru yn llawn, yn cynnal blaenoriaethau polisi Cymru, ac yn cyflawni ar gyfer cymunedau Cymru a'r amgylchedd.

Byddai rheoleiddiwr economaidd annibynnol newydd i Gymru yn nodi newid sylweddol yn y ffordd y bydd rheoleiddio economaidd yn cael ei gyflawni. Mae'n adlewyrchu'r angen am gorff sy'n cyd-fynd yn llawn â blaenoriaethau, gwerthoedd a chyfrifoldebau datganoledig Cymru.

Ystyriwyd argymhelliad y Comisiwn i wreiddio rheoleiddio economaidd yn Cyfoeth Naturiol Cymru yn fanwl. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad bod corff annibynnol yn cynnig mwy o eglurder, annibyniaeth a chydlynid strategol, yn enwedig yng nghyd-destun diwygio rheoleiddio ehangach a'r angen i sicrhau tryloywder a hyder y cyhoedd.

Bydd y rheoleiddiwr newydd hwn yn cael ei ddylunio o'r egwyddorion cyntaf i adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Bil arfaethedig Egwyddorion yr Amgylchedd, ac uchelgeisiau ehangach diwygio dŵr yng Nghymru. Ni fydd yn efelychu model Ofwat yn unig. Yn hytrach, bydd yn datblygu dull gweithredu unigryw i Gymru ar gyfer rheoleiddio economaidd, gan flaenoriaethu sefydlogrwydd, gwerth cyhoeddus, fforddiadwyedd, gwydnwch a chanlyniadau hirdymor i Gymru.

Mae sefydlu corff o'r fath yn broses gymhleth ac aml-haenog. Mae'n gofyn am ddilyniant gofalus o ddylunio strategol, ymgynghori, datblygu deddfwriaethol, a phontio gweithredol. Bydd ymgysylltiad parhaus â Llywodraeth y DU i sicrhau trosglwyddiad llyfn o un rheoleiddiwr newydd Llywodraeth y DU i reoleiddiwr economaidd dros Gymru. Mae'r broses yn dechrau drwy ddiffinio diben a chwmpas y rheoleiddiwr, gan gynnwys ei berthynas â Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed, cwmnïau dŵr yng Nghymru, a rheoleiddwyr Llywodraeth y DU. Bydd y chwmpas hefyd yn cynnwys trwyddedeion cyflenwi dŵr a charthffosiaeth (adwerthwyr) a chwmnïau trawsffiniol penodedig sy'n gweithredu'n rhannol yng Nghymru, fel United Utilities, Severn Trent a South Staffs Water. Lle bo angen, byddwn yn cynnwys cafeatau i egluro rolau ac osgoi gorgyffwrdd neu fylchau. Bydd y penderfyniadau hyn yn siapio ei bwerau cyfreithiol, ei anghenion staffio a'i fodel llywodraethiant.

Rhaid mynegi'n glir rôl y rheoleiddiwr o ran cynllunio'r system, goruchwyllo adolygiadau prisiau, a monitro perfformiad. Rhaid i'w atebolrwydd i'r Senedd, a'i berthynas â Llywodraeth Cymru, fod yn gadarn, yn dryloyw ac yn gyson â'r egwyddor hyd braich. Bydd cyfnod o ymgysylltu ac ymgynghori wedyn yn hanfodol i brofi'r model arfaethedig a meithrin dilysrwydd.

Bydd rhanddeiliaid ar draws y sector, gan gynnwys grwpiau defnyddwyr, sefydliadau amgylcheddol, buddsoddwyr a'r cyhoedd, yn cael eu gwahodd i gyfrannu at ddyluniad y rheoleiddiwr. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y drefn rheoleiddio economaidd i fuddsoddwyr a statws credyd. Bydd yr ymgysylltu hwn yn helpu i sicrhau bod y rheoleiddiwr yn cael ei ystyried yn annibynnol, yn arbenigol ac yn ymatebol i anghenion Cymru.

Bydd angen deddfwriaeth i sefydlu'r rheoleiddiwr yn ffurfiol. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn gofyn am Fil Cymru i alluogi diwygio dŵr, wedi'i gefnogi gan ddarpariaethau galluogi yn neddfwriaeth DU. Rhaid i'r broses ddeddfwriaethol fod yn drylwyr ac yn gynhwysol, gan ganiatáu ar gyfer craffu a mireinio.

Rhaid bod yn ofalus iawn wrth reoli'r newid o Ofwat ac yna rheoleiddiwr newydd Llywodraeth y DU i reoleiddiwr newydd Cymru. Mae hwn yn gyfnod sensitif, lle mae eglurder a pharhad yn hollbwysig. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gwneud newidiadau sylweddol i'w trefniadau rheoleiddio perthnasol, ac mae'n hanfodol bod y rhain yn cael eu cydlynu'n effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Defra i gytuno ar y trefniadau pontio mwyaf priodol. Ar hyn o bryd, mae rôl oruchwyllo dros dro ar gyfer Ofwat, a'r corff sy'n ei olynu, yn cynnig parhad a sicrwydd pwysig - ac yn sicrhau bod y swyddogaethau perthnasol yn parhau hyd braich oddi wrth y Llywodraeth. Fodd bynnag, mae hon yn broses ar y cyd, a bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y cyd i sicrhau'r canlyniad gorau i Gymru a Lloegr. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau sefydlogrwydd rheoleiddiol yn ystod y cyfnod o newid.

Yn amodol ar gytundeb Llywodraeth y DU i ddatganoli'r swyddogaethau rheoleiddio gofynnol, rhaid i unrhyw drefniadau interim gael eu diffinio'n glir, gyda chyfyngiad amser, a'u dylunio i gefnogi'r gwaith o sefydlu rheoleiddiwr Cymru. Mae risgiau gwirioneddol yn gysylltiedig â pheidio â chael y newid hwn yn iawn, ac mae'r ddwy Lywodraeth wedi ymrwymo i'w reoli mewn ffordd sy'n cynnal hyder, yn osgoi tarfu, ac yn gosod sylfeini cryf ar gyfer llwyddiant rheoleiddio hirdymor. Byddwn hefyd yn egluro sut bydd trefniadau Cymru yn rhyngweithio â'r rheoleiddiwr integredig newydd yn Lloegr, gan gynnwys cynllunio trawsffiniol, rhannu data a chydlynu gorfodaeth.

Bydd ein hagwedd at bartneriaeth gymdeithasol yn ganolog i'r broses hon. Drwy gydweithio ag undebau llafur, cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill, byddwn yn sicrhau ein bod yn sefydlu rheoleiddiwr economaidd newydd ar gyfer dŵr yng Nghymru sy'n adlewyrchu gwerthoedd cyffredin ac yn sicrhau canlyniadau teg. Bydd y dull cynhwysol hwn yn helpu i feithrin ymddiriedaeth, cryfhau atebolrwydd, a chefnogi proses bontio ddidrafferth fydd o fudd i gymunedau a'r economi ehangach.

Rhaid i'r trosglwyddiad osgoi bylchau rheoleiddiol, dyblygu neu ddryswch, a rhaid ei gyfleu'n dryloyw i rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

Drwy gydol y broses hon, bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y rheoleiddiwr yn gynaliadwy yn ariannol. Bydd model cyllido sy'n seiliedig ar adennill costau llawn gan y diwydiant yn cael ei ddatblygu, yn unol â'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu. Rhaid i'r rheoleiddiwr hefyd allu recriwtio a chadw staff o ansawdd uchel, a allai olygu bod angen hyblygrwydd o ran strwythurau cyflog a threfniadau llywodraethiant.

Mae creu rheoleiddiwr economaidd newydd yn cynnig cyfleoedd sylweddol. Mae'n caniatáu i Gymru gysoni rheoleiddio economaidd â'i blaenoriaethau strategol, ymgorffori gwerth cyhoeddus a chynaliadwyedd mewn penderfyniadau rheoleiddio, a gwella tryloywder, atebolrwydd ac ymatebolrwydd. Mae hefyd yn cefnogi buddsoddiad tymor hir mewn gwydnwch, fforddiadwyedd ac arloesedd.

Fodd bynnag, mae risgiau ynghlwm wrth y diwygiad hefyd. Rhaid rhagweld a lliniaru oedi deddfwriaethol, cyfyngiadau ar gapasiti, a heriau cysylltiedig â'r rhyngwyneb gyda rheoleiddwyr y DU a chyrff dŵr trawsffiniol. Mae yna risg hefyd o ganlyniadau anfwriadol yn sgil gwahanu strwythurol, fel darnio neu ddyblygu. Bydd y risgiau hyn yn cael eu rheoli drwy grwpiau cynllunio gweithredu pwrpasol ac ymgysylltu'n barhaus â rhanddeiliaid.

Mae'r canlyniad y mae Cymru'n ei geisio yn glir. Byddwn yn darparu system reoleiddio sy'n cadw gwasanaethau dŵr yn fforddiadwy, yn wydn ac yn gynaliadwy, gan sicrhau bod rheoleiddio'n cefnogi ein cymunedau a'n hamgylchedd ac yn darparu sicrwydd i fuddsoddwyr a marchnadoedd cyfalaf.

Pennod 5: Sicrhau Canlyniadau Gwell - Diwygio Rheoleiddio yng Nghymru

Mae'r Comisiwn wedi gwneud cyfres o argymhellion gyda'r nod o gryfhau'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer y sector dŵr ledled Cymru a Lloegr. Mae'r cynigion hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad yw'r system bresennol, er ei bod wedi cyflawni rhai canlyniadau pwysig, bellach wedi'i harfogi'n llawn i ateb heriau'r dyfodol. Mae materion fel newid yn yr hinsawdd, fforddiadwyedd, dirywiad amgylcheddol, a'r angen am fuddsoddiad hirdymor mewn seilwaith yn gofyn am ddull rheoleiddio sy'n fwy tryloyw, atebol ac yn cyd-fynd â gwerth cyhoeddus.

Yng Nghymru, mae'r cyd-destun yn newid. Rydym wedi ymrwymo i sefydlu rheoleiddiwr economaidd newydd ar gyfer y sector dŵr, gan greu cyfle unigryw i ddylunio system sy'n adlewyrchu ein cyfrifoldebau datganoledig a gwerthoedd ein cymunedau.

Mae'r bennod hon yn nodi ein hymateb i argymhellion y Comisiwn ar reoleiddio economaidd, llywodraethiant, gorfodi, goruchwyllo dŵr yfed, effeithlonrwydd dŵr a chryfhau profiad cwsmeriaid ac eiriolaeth yng Nghymru. Mae'n amlinellu sut byddwn yn mynd ati i ddiwygio mewn ffordd raddol a chydweithredol, gan sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio yn y dyfodol yn addas i'r diben, yn gymesur ac yn gallu cyflawni ar gyfer pobl ac amgylchedd Cymru.

Y ffordd orau o weithio yw i'r rheoleiddiwr economaidd newydd gydweithio â chyrrff eraill a manteisio ar eu harbenigedd drwy ddull agored a chydweithredol – yn hytrach na cheisio dyblygu ymdrechion. Mae hyn yn gyson â'r Dull Goruchwyllo a argymhellwyd gan y Comisiwn. Y nod yw i'r system reoleiddio geisio gweithio ochr yn ochr â'r system mewn rhannau eraill o'r DU, gan rannu gwybodaeth, modelau a pharamedrau lle bo hynny'n briodol, gan gofio bob amser bod angen cadw'r sector dŵr yng Nghymru o leiaf yr un mor ddeniadol i fuddsoddwyr bond â chyfundrefnau mewn rhannau eraill o'r DU.

5.1 Diwygio Methodolegau Rheoleiddio Economaidd a Fframweithiau Ariannol

Argymhelliad 20 y Comisiwn

Ar ôl sefydlu methodoleg newydd ar gyfer asesu cyflwr asedau a'u hoes ddisgwyliedig, dylai'r rheoleiddiwr ystyried rhinweddau cysylltu dŵr ffo RCV yn agosach â dibrisiant economaidd asedau. Mae hyn yn berthnasol i Gymru a Lloegr.

Argymhelliad 22 y Comisiwn

Dylai'r rheoleiddiwr adolygu'r fframwaith cymhellion perfformiad, er mwyn rhesymoli nifer cyffredinol y PCs ac egluro eu gwobrau ODI cyfatebol, cosbau a'r enillion sy'n wynebu risg. Mae hyn yn berthnasol i Gymru a Lloegr.

Argymhelliad 23 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth y DU ystyried rhoi'r cyfrifoldeb i'r CMA bennu methodoleg WACC gyffredin ar gyfer yr holl sectorau sy'n cael eu rheoleiddio yn y DU. Mae hyn yn cynnwys y sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.

Argymhelliad 24 y Comisiwn

Dylai Defra newid natur proses anghydfod y CMA ar gyfer cwmnïau dŵr o ailbenderfyniadau i weithdrefn apelio safonol, yn unol â sectorau eraill. Mae hyn yn berthnasol i Gymru a Lloegr.

Wrth i Gymru symud tuag at sefydlu ei rheoleiddiwr economaidd ei hun ar gyfer y sector dŵr, rydym yn cydnabod yr angen i ailystyried a diwygio'r methodolegau sy'n sail i wneud penderfyniadau rheoleiddio. Mae argymhellion y Comisiwn yn adlewyrchu pryderon hirsefydlog am gymhlethdod rheoleiddiol, tryloywder a chysondeb â gwerth cyhoeddus. Nid addasiadau technegol yn unig yw'r diwygiadau hyn, maent yn sylfaenol i adeiladu system reoleiddio sy'n gredadwy, yn deg ac yn addas i Gymru.

Gellir gwneud nifer o'r newidiadau hyn nawr ac nid oes angen i drefn reoleiddio ddiwygiedig fod ar waith. Rydym yn awyddus i flaenoriaethu'r newidiadau hynny y mae rhanddeiliaid yn credu sy'n cynnig y manteision mwyaf sylweddol. Rydym hefyd yn awyddus i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar fwrw ymlaen â'r argymhellion hyn.

Dibrisiant Asedau a Dŵr ffo RCV (Argymhelliad 20)

Un o'r materion canolog yw trin dibrisiant asedau. Mae'r Comisiwn yn argymhell, unwaith y bydd methodoleg newydd ar gyfer asesu cyflwr asedau a'r oes ddisgwyliedig ar waith, y dylai rheoleiddwyr ystyried alinio dŵr ffo gwerth cyfalaf rheoleiddiol (RCV) yn agosach â dibrisiant economaidd. Yng Nghymru, rydym yn cydnabod bod y dull presennol, sy'n aml yn dibynnu ar dybiaethau sefydlog, yn gallu cuddio gwir gyflwr seilwaith ac ystumio arwyddion buddsoddi. Bydd diwygio'r fethodoleg hon yn gofyn am gydweithio ar draws peirianeg, cyllid a pholisi, a rhaid iddo fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o'r canlyniadau rydym am eu cyflawni. Mae hyn yn cynnwys seilwaith gadarn, buddsoddiad effeithlon, a chostau teg a thryloyw.

Fframwaith Cymhellion Perfformiad (Argymhelliad 22)

Ochr yn ochr â phrisio asedau, mae'r Comisiwn hefyd yn galw am adolygiad o'r fframwaith cymhellion perfformiad. Mae'r system bresennol sy'n seiliedig ar ymrwymadau perfformiad a chymhellion i gyflawni canlyniadau wedi dod yn fwyfwy cymhleth, gyda phryderon ynghylch eglurder, cymesuredd, a'r cysylltiad rhwng gwobrau, cosbau a chanlyniadau gwirioneddol gwasanaethau.

Yng Nghymru, byddwn yn edrych ar sut gellir rhesymoli'r fframwaith hwn, gan sicrhau bod cymhellion yn ystyrlon, yn ddealladwy ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau cymunedau Cymru. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys ymgysylltu â chwmnïau dŵr, rheoleiddwyr a grwpiau defnyddwyr, a rhaid ei gydlynu gyda diwygiadau i adolygiadau prisiau ac adroddiadau rheoleiddio.

Byddem yn awyddus i glywed barn am newidiadau i'r ymrwymiad perfformiad presennol a'r drefn cymhelliant cyflawni canlyniadau y dylid eu blaenoriaethu nawr.

Methodoleg WACC Cyfartaledd Pwysoledig Cost Cyfalaf (Argymhelliad 23)

Mae'r Comisiwn hefyd yn codi cwestiynau am rôl yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd o ran gosod y WACC ar draws sectorau sy'n cael eu rheoleiddio yn y DU. Er mai mater i Lywodraeth y DU yw hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan adeiladol mewn trafodaethau am gysondeb, tryloywder, a'r goblygiadau ar gyfer rheoleiddio datganoledig. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod

unrhyw newidiadau i fethodoleg WACC yn adlewyrchu cyd-destun unigryw Cymru, gan gynnwys ein dull o ymdrin â fforddiadwyedd, sicrwydd buddsoddi, a gwerth cyhoeddus.

Proses Datrys Anghydfodau (Argymhelliad 24)

Yn olaf, mae'r Comisiwn yn argymhell bod Defra yn newid natur proses anghydfodau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer cwmnïau dŵr, gan symud o ailbenderfyniadau i weithdrefn apelio safonol.

Mae gan y cynnig hwn oblygiadau cyfreithiol a chyfansoddiadol o ran sut mae anghydfodau'n cael eu trin ar draws ffiniau, yn enwedig yng nghyd-destun cyfrifoldebau datganoledig yng Nghymru.

Yng Nghymru, rydym yn cydnabod bod yn rhaid i unrhyw newidiadau i fecanweithiau datrys anghydfodau fod yn gwbl gydnaws â chyfraith Cymru a phwerau datganoledig, nawr ac yn y dyfodol wrth i ni symud tuag at sefydlu rheoleiddiwr economaidd i Gymru.

Yn eu Papur Gwyn, *A New Vision for Water*, mae Defra yn datgan eu bwriad i sicrhau bod y sector dŵr yn cyd-fynd â sectorau eraill sy'n cael eu rheoleiddio drwy ddisodli'r ailbenderfyniad trydydd parti presennol sy'n cael ei arwain gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd â phroses apelio gyda gwell ffocws. Eu nod yw helpu i greu proses adolygu prisiau sy'n gyflymach, yn fwy effeithlon o ran adnoddau, ac yn fwy rhagweladwy i gwmnïau dŵr ac i fuddsoddwyr.

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU i sicrhau bod unrhyw broses datrys anghydfodau newydd yn cael ei datblygu ar y cyd, gyda threfniadau clir ar gyfer rheoli anghydfodau trawsffiniol a diogelu buddiannau Cymru. Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod y broses yn deg, yn gymesur ac yn hygyrch. Byddai hyn yn galluogi diwylliant rheoleiddio sy'n adlewyrchu blaenoriaethau Cymru, gofynion statudol, a buddiannau rhanddeiliaid yng Nghymru. Byddwn yn gofyn am sicrwydd cyfreithiol nad yw unrhyw newidiadau i'r fframwaith datrys anghydfodau yn tanseilio effeithiolrwydd rheoleiddio yng Nghymru na hawliau defnyddwyr a chwmnïau yng Nghymru.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd eglurder a sicrwydd i gwmnïau dŵr, defnyddwyr a rheoleiddwyr yn ystod unrhyw newid. Wrth i newidiadau i'r fframwaith datrys anghydfodau gael eu hystyried, byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru i ddeall eu hanghenion a'u pryderon, a sicrhau bod trefniadau newydd yn cael eu cyfleu'n glir a'u rhoi ar waith mewn ffordd sy'n cefnogi hyder yn y system reoleiddio.

Y camau nesaf

Mae hwn yn faes diwygio lle bydd cydweithio agos â Llywodraeth y DU.

Bydd y broses o ddiwygio methodolegau rheoleiddio economaidd yn ailadroddol ac yn ymgynghorol. Mae'n dechrau gydag adolygiad o fframweithiau presennol, gan nodi lle gallai cymhlethdod, diffyg eglurder neu gam-alinio fod yn tanseilio effeithiolrwydd. Mae'n parhau gydag ymgysylltu, ar draws y llywodraeth, diwydiant a chymunedau, i ddylunio system sy'n adlewyrchu gwerthoedd a blaenoriaethau Cymru. Mae wedyn yn symud ymlaen drwy newid deddfwriaethol a gweithredol, wedi'i gydlynw â sefydlu rheoleiddiwr economaidd newydd Cymru.

Mae risgiau yn y broses hon. Gallai newidiadau i ddibrisiant, cymhellion neu fecanweithiau anghydfod arwain at ansicrwydd, ansefydlogrwydd, neu effeithiau

ariannol anfwriadol os na chânt eu rheoli'n ofalus. Mae perygl hefyd y gellid ystyried bod diwygiadau yn rhai technocratig neu'n rhai sydd wedi'u datgysylltu oddi wrth brofiad go iawn defnyddwyr. Bydd y risgiau hyn yn cael eu lliniaru drwy gyfathrebu clir, gweithredu fesul cam, ac ymrwymiad i dryloywder ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

Ar yr un pryd, mae'r cyfleoedd yn sylweddol. Gall Cymru adeiladu system reoleiddio sy'n symlach, yn decach ac yn fwy ymatebol. Mae'r diwygiadau hyn yn cefnogi penderfyniadau buddsoddi gwell, yn gwella atebolrwydd, ac yn helpu i sicrhau bod y costau a ysgwyddir gan ddefnyddwyr yn gymesur ac yn gyfiawn. Maent hefyd yn cyd-fynd â nodau ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gwydnwch economaidd, cynaliadwyedd amgylcheddol, a chyflawni gwerth cyhoeddus.

Y canlyniad mae Cymru'n ei geisio yw fframwaith rheoleiddio sy'n galluogi cynllunio seilwaith hirdymor, sy'n cefnogi fforddiadwyedd, ac sy'n adlewyrchu gwerthoedd ein cymunedau. Mae'r bennod hon ar ddiwygio yn ymwneud ag adeiladu pensaernïaeth ariannol system sy'n gweithio i reoleiddwyr, darparwyr a phobl Cymru.

5.2 Cryfhau Llywodraethiant a Gorfodi yng Nghymru

Argymhelliad 21 y Comisiwn

Dylai'r rheoleiddiwr dynnu'r asesiad ansawdd ac uchelgais (QAA) yn ôl. Mae hyn yn berthnasol i Gymru a Lloegr.

Argymhelliad 25 y Comisiwn

Dylai'r rheoleiddiwr yng Nghymru a Lloegr ddiwygio'r system Hunan-fonitro gan Weithredwyr yn sylweddol. Dylai ddatblygu dull cryfach o fonitro, gan ddefnyddio mwy o ddigideiddio, awtomeiddio, tryloywder cyhoeddus, sicrwydd trydydd parti ac arolygiadau sy'n seiliedig ar wybodaeth

Argymhelliad 26 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth y DU adolygu'r dull o Fonitro Ansawdd Dŵr yn Barhaus. Dylai'r adolygiad hwn werthuso effeithiolrwydd a gwerth am arian y monitro hwn, gyda golwg ar wella effeithlonrwydd costau drwy fabwysiadu datblygiadau technolegol.

Argymhelliad 27 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru dynhau'r oruchwyliaeth reoleiddiol dros weithgarwch slwtsh drwy symud trin, storio a defnyddio slwtsh i'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

Argymhelliad 28 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru weithredu'r darpariaethau sancsiynau sifil yn Neddf Dŵr (Mesurau Arbennig) 2025 a fydd yn ehangu pecyn adnoddau'r rheoleiddiwr er mwyn gallu gorfodi'n gyflymach.

Argymhelliad 29 y Comisiwn

Dylai Asiantaeth yr Amgylchedd gyflymu ei hymdrechion i ddod i benderfyniad ynghylch achosion gorfodi hirsefydlog gan ystyried budd y cyhoedd mewn perthynas â gweinyddu cyfiawnder am unrhyw droseddau hanesyddol.

Argymhelliad 30 y Comisiwn

Dylai'r rheoleiddiwr gyflymu'n sylweddol y broses o roi rhaglenni digidol ar waith i gefnogi gweithgareddau gorfodi a chydymffurfio tryloyw sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Mae hygrededd ac effeithiolrwydd diwygio'r sector dŵr yn dibynnu nid yn unig ar ddyluniad cyrff rheoleiddio newydd, ond hefyd ar gryfder y systemau llywodraethiant a gorfodi sy'n sail iddynt. Mae argymhellion y Comisiwn yn y maes hwn yn adlewyrchu galw clir am newid. Mae hyn yn cynnwys y fframweithiau presennol ar gyfer goruchwylio, monitro a gorfodi, nad ydynt bellach yn ddigonol i ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r sector.

Yng Nghymru, rydym wedi ymrwymo i adeiladu system sy'n dryloyw, sy'n atebol ac sy'n gallu darparu gwerth cyhoeddus.

Rydym hefyd am weld dull gweithredu sy'n adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n mynnu bod cyrff cyhoeddus yn ystyried dull hirdymor, ataliol a chydweithredol o sicrhau canlyniadau hirdymor. Rydym yn gweld cyfleoedd i gymhwyso egwyddorion rheoleiddio moesegol a gweithio tuag at setliadau wedi'u negodi o fewn rheoleiddiwr economaidd a chynllunydd systemau newydd yng Nghymru.

Fframwaith Llywodraethiant a Thynnu'r QAA yn ôl

Mae'r Comisiwn yn argymhell bod y rheoleiddiwr (Ofwat) yn tynnu'r Asesiad Ansawdd ac Uchelgais (QAA) yn ôl, sy'n berthnasol ledled Cymru a Lloegr. Bydd y newid hwn yn gofyn am ddiweddarau canllawiau rheoleiddio i sicrhau eglurder a chysondeb yn ystod y cyfnod pontio.

Yng Nghymru, byddwn yn gweithio gydag Ofwat a Llywodraeth y DU i reoli'r broses o dynnu'r QAA yn ôl mewn ffordd sy'n osgoi tarfu ac sy'n cynnal hyder mewn prosesau rheoleiddio. Bydd y canllawiau'n cael eu hadolygu i gael gwared ar gyfeiriadau at QAA a bydd y newidiadau hyn yn egluro rolau a chyfrifoldebau rheoleiddiwr economaidd newydd Cymru a'r cynllunydd systemau ac yn sicrhau cysondeb â blaenoriaethau datganoledig a deddfwriaeth Cymru.

Wrth galon y diwygiad hwn mae'r angen i symud oddi wrth orfodi tameidiog ac adweithiol, tuag at fodel sy'n seiliedig ar wybodaeth, wedi'i alluogi'n ddigidol, ac sy'n seiliedig ar ganlyniadau amgylcheddol ac iechyd y cyhoedd.

Gorfodi a monitro digidol

Mae'r ymgyrch i gyflymu'r broses o orfodi a monitro'n ddigidol ar draws sector dŵr Cymru yn angenrheidiol ac yn amserol. Roedd argymhellion y Comisiwn yn tynnu sylw at botensial trawsnewidiol rhaglenni digidol, gan alluogi rheoleiddwyr i fonitro perfformiad mewn amser real, nodi risgiau'n gynnar, ac ymateb yn gyflym i achosion o dorri amodau.

Yng Nghymru, byddwn yn edrych ar fuddsoddi mewn systemau sy'n caniatáu i reoleiddwyr wneud y pethau hyn. Wrth i ni ddechrau ar y daith hon, byddwn yn sicrhau bod fforddiadwyedd yn parhau i fod wrth galon pob penderfyniad. Byddwn yn edrych ar gyfleoedd i fuddsoddi mewn technolegau newydd, fel synwryddion awtomataidd, dangosfyrddau cyhoeddus, a rhannu data ar draws asiantaethau, er mwyn sicrhau gwelliannau pendant mewn effeithiolrwydd rheoleidiol a chanlyniadau i gwsmeriaid, gan gynnal gwerth am arian ar yr un pryd. Ein huchelgais yw sicrhau atebion digidol hygyrch, cymesur sy'n cynnig y gwerth gorau am arian.

Rydym yn croesawu safbwyntiau ar sut gellir gorfodi a monitro'n ddigidol mewn ffordd sy'n fforddiadwy i gwsmeriaid yng Nghymru.

Hunan-fonitro gan Weithredwyr

Mae system hunan-fonitro gan weithredwyr yn darparu mecanwaith clir i gefnogi'r egwyddorion mai'r llygrwr sy'n talu, a dyma'r dull priodol mewn system o ymddiriedolaeth uchel, sef yr hyn yr ydym am weithio tuag ato. Yn y cyfamser, gan gydnabod bod pryderon ynghylch gwydnwch y systemau hyn, mae gennym ddiddordeb mewn clywed barn am gamau priodol y gellid eu cymryd i roi mwy o sicrwydd.

Gall hyn gynnwys lefelau uwch o awtomatiaeth; sicrwydd ac arolygiadau ychwanegol gan drydydd parti sydd wedi'u targedu'n ofalus, neu ddulliau eraill sy'n ceisio meithrin hyder bod monitro ac adrodd yn gadarn ac yn gymesur.

Mae Papur Gwyn Llywodraeth y DU, *A New Vision for Water*, a gyhoeddwyd ar 20 Ionawr 2026, yn nodi bwriad i symud at fwy o sicrwydd annibynnol a thryloywder mewn trefniadau monitro yn Lloegr. Felly, mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar y cydbwysedd priodol i Gymru rhwng monitro dan arweiniad gweithredwyr, sicrwydd annibynnol a thryloywder cyhoeddus, gan ystyried blaenoriaethau Cymru, cymesuredd a fforddiadwyedd.

Goruchwyllo gweithgarwch slwtsh

Slwtsh carthion yw'r gwastraff solet gweddilliol a gynhyrchir drwy drin dŵr gwastraff. Mae'r rhan fwyaf o slwtsh yn cael ei gynhyrchu a'i drin gan Gwmnïau Dŵr a Charthffosiaeth, ac mae slwtsh hefyd yn cael ei gynhyrchu o drin systemau carthion preifat, fel tanciau carthion. O'u trin yn briodol, gall slwtsh fod yn ffynhonnell werthfawr o ddeunydd organig a maetholion planhigion, gan helpu i gefnogi iechyd pridd a'r economi gylchol. Felly, mae goruchwyliaeth yn hanfodol i sicrhau ei fod yn parhau i gael ei ddefnyddio'n ddiogel, yn gynaliadwy ac mewn ffordd sy'n diogelu iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd.

Mae'r Comisiwn wedi argymhell bod trin, storio a defnyddio slwtsh carthion yn dod o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Yng Nghymru, rydym yn cefnogi'r egwyddor o oruchwyliaeth gryfach ac yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod slwtsh yn cael ei reoli drwy fframwaith rheoleiddio clir a chymesur sy'n adlewyrchu gwyddoniaeth fodern, technolegau trin ac arferion y gadwyn gyflenwi. Mae trin, storio a defnydd anamaethyddol o slwtsh carthion eisoes yn cael eu rheoleiddio o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yng Nghymru. Dim ond defnydd amaethyddol sydd angen ystyriaeth bellach i'w gynnwys yn y Rheoliadau hynny.

Cydnabyddir mai dim ond ychydig o ddiweddariadau sydd wedi bod i [Reoliadau Slwtsh \(Defnydd Amaethyddol\) 1989](#) (SUiAR) a'r Cod Ymarfer cysylltiedig ers iddynt gael eu cyflwyno. Dros yr un cyfnod, mae prosesau trin slwtsh, trefniadau'r gadwyn gyflenwi a dealltwriaeth wyddonol o halogion wedi esblygu'n sylweddol.

Mae mesurau gwirfoddol, fel y Matrics Slwtsh Diogel, wedi cael eu defnyddio i gefnogi arferion da. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn darparu darpariaeth gynhwysfawr na darpariaeth sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Nid yw'r rheoliadau chwaith yn caniatáu i'r rheoleiddiwr adennill cost gweithgarwch cydymffurfio. Nid yw SUiAR wedi'i arfogi'n dda i ymateb i dystiolaeth wyddonol newydd ar halogion fel microblastigau, PFAS a marcwyr ymwrthedd gwrthficrobaidd, ac nid yw ychwaith yn adlewyrchu'r cadwyni cyflenwi slwtsh aml-barti mwy cymhleth sydd bellach ar waith.

Rhaid i unrhyw ddiwygiad hefyd ystyried slwtsh sy'n deillio o systemau nad ydynt yn cael eu cyflenwi gan y prif gyflenwad. Mae'r rheoliadau presennol yn cwmpasu'r ffynonellau hyn. Mae hyn yn sicrhau bod pob math o slwtsh yn cael ei reoli'n briodol, gan osgoi bylchau rheoleiddiol.

Mae'r Comisiwn wedi tynnu sylw at y ffaith na fydd ehangu gweithgarwch rheoleiddio ynddo'i hun yn ddigon. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chwmnïau dŵr, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid yn y diwydiant i ystyried strategaeth hirdymor ar gyfer rheoli slwtsh. Bydd hyn yn mynd i'r afael ag arloesi, buddsoddi a chylchoedd rheoleiddio yn y dyfodol (gan gynnwys PR29 a thu hwnt). Mae'r Comisiwn wedi galw am ddull gweithredu cynhwysfawr, a bydd y gwaith strategol hwn yn ystyried sut y gallwn feithrin gwydnwch yn y system slwtsh, gwella'r gallu i olrhain ar draws y gadwyn gyflenwi, a chefnogi'r gwaith o ddatblygu technolegau trin ac adfer newydd.

Bydd angen ystyried symud slwtsh ar draws ffiniau yn ofalus. Mae arferion gweithredol a masnachol yn golygu bod slwtsh yn symud rhwng Cymru a Lloegr. Felly, byddwn yn gweithio gyda Defra a Llywodraethau datganoledig eraill i ddeall y trefniadau presennol, i ddatrys heriau rheoleiddiol a gweithredol ac i sicrhau bod rheolaethau cadarn yn cael eu cynnal.

Mae angen dadansoddiad pellach i bennu'r cwmpas, y dyluniad a'r dull cyflawni priodol ar gyfer yr argymhelliad hwn. Mae hyn yn cynnwys asesu'r effaith bosibl ar weithredwyr a chyrrff rheoleiddio. Bydd hefyd yn gofyn am ystyried goblygiadau pob opsiwn ar gyfer cydlyniant rheoleiddiol, adfer costau, pwerau gorfodi ac ystwythder y system i addasu i risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud mewn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru, rhanddeiliaid perthnasol yn y diwydiant a chyrrff ieuchyd y cyhoedd. Yn amodol ar ganlyniadau'r dadansoddiad hwn, byddwn yn ystyried y dull mwyaf priodol o reoli slwtsh, wedi'i ein llywio gan arferion gorau a gan ystyried y dulliau sydd eisoes wedi cael eu defnyddio a'u cynnig gan lywodraethau eraill y DU.

Mae tystiolaeth gan reoleiddwyr, sefydliadau amgylcheddol a monitro ehangach wedi tynnu sylw at y cyfraniad y gall gwasgaru deunyddiau organig ar dir ei wneud i lygredd maethynnau mewn dalgylchoedd sensitif os na chaiff ei reoli'n effeithiol. Mae pryderon wedi cael eu codi ynghylch slwtsh carthion, gweddillion treuliad anaerobig a thail, gan gynnwys eu heffeithiau cronol, pa mor ddigonol yw'r gwaith monitro a gorfodi, a goblygiadau hirdymor halogion fel gormod o faethynnau, microblastigau a llygryddion eraill sy'n dod i'r amlwg. Mae'r materion hyn yn cael eu hystyried fel rhan o'r cynigion ehangach i newid llywodraethiant dŵr yng Nghymru, ochr yn ochr â gwaith i gryfhau atebolrwydd rheoleiddio a hyder y cyhoedd yn ein systemau dŵr.

I gefnogi'r ymgynghoriad, dyma bum llwybr posibl:

Opsiwn 1 - Integreiddio slwtsh yn llawn yn y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol

Byddai'r opsiwn deddfwriaethol hwn yn golygu dod â'r gweithgareddau slwtsh ychwanegol yn llawn o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, gan foderneiddio a chyfuno system sy'n dameidiog ar hyn o bryd. Ers iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf, ychydig iawn o ddiweddariadau sydd wedi bod i SUIAR a'r Cod Ymarfer cysylltiedig, ac mae eu strwythur a'u gofynion craidd wedi aros fwy neu

lai yr un fath. Dros y cyfnod hwn, mae prosesau trin slwtsh, trefniadau'r gadwyn gyflenwi a dealltwriaeth wyddonol o halogion wedi parhau i ddatblygu.

I gyflawni'r dull hwn, gellid diwygio'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol i gynnwys defnyddio tir i adfer slwtsh. Gellid diddymu SUIAR, a diweddarau neu ddisodli'r darpariaethau perthnasol yn [Rheoliadau Gwastraff a Reolir 1992](#) yn ôl yr angen. Byddai hyn yn atgyfnerthu goruchwyliaeth o dan drefn drwyddedu fodern.

Byddai'r dull hwn yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i adennill costau, darparu pwerau gorfodi a goruchwyllo rheoleiddiol clir, sicrhau cysondeb â Lloegr, a chau bylchau rheoleiddio yn y dyfodol fel y rhai sy'n ymwneud â chemegion parhaus neu halogion newydd eraill.

Mae'r opsiwn hwn yn cyd-fynd ag argymhelliad y Comisiwn y dylid cryfhau'r oruchwyliaeth reoleiddiol ar weithgarwch slwtsh drwy fframwaith trwyddedu. Mae hefyd yn darparu sail fwy hyblyg ar gyfer rheoleiddio, gan ganiatáu i safonau a gofynion esblygu wrth i arferion trin, technolegau a dealltwriaeth wyddonol barhau i ddatblygu.

Opsiwn 2 - Gwelliannau anneddfwriaethol i safonau a sicrwydd

Opsiwn anneddfwriaethol, a allai ddarparu ateb interim neu ategol wrth i newidiadau deddfwriaethol gael eu datblygu. Gallai hyn gynnwys cryfhau cynlluniau sicrwydd gwirfoddol fel y Cynllun Sicrwydd Biosolidau a diweddarau codau ymarfer y diwydiant fel eu bod yn cyd-fynd â rheolaethau ehangach ar gyfer deunyddiau sy'n cael eu rhoi ar y tir.

Byddai angen i unrhyw gynllun cryfach fodloni gofynion rheoleiddio perthnasol. Gallai codau wedi'u diweddarau helpu i wella cysondeb a thryloywder ar draws y sector. Byddai'r mesurau hyn yn cefnogi gwelliannau cyflymach mewn ymarfer heb fod angen newid deddfwriaethol ar unwaith.

Fodd bynnag, ni fyddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno pwerau adennill costau i Cyfoeth Naturiol Cymru a byddai'n parhau i weithredu ochr yn ochr â'r trefniadau statudol presennol. Felly, gallai wella safonau yn y tymor byr ond ni fyddai'n mynd i'r afael â chydlynid tymor hir na'r gallu i addasu sydd ar gael o dan fodel trwyddedu cyfunol.

Opsiwn 3 - Model deddfwriaethol a sicrwydd cyfunol

Gallai opsiwn hybrid gyfuno elfennau allweddol o'r SUIAR â'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Byddai hyn yn sefydlu llinell sylfaen statudol ar yr un pryd â chaniatáu cydnabyddiaeth ar sail perfformiad i weithredwr sy'n cydymffurfio ac sy'n glynu wrth safonau sicrwydd cymeradwy'r rheoleiddiwr.

Byddai'r model hwn yn rhoi cyfle i Cyfoeth Naturiol Cymru adennill costau a darparu hyblygrwydd rheoleiddiol ar yr un pryd â chynnal safonau uchel ymysg gweithredwyr. Mae cydnabyddiaeth ar sail perfformiad yn lleihau'r beichiau gweinyddol ar weithredwyr sy'n dangos perfformiad cryf, wedi'i gefnogi gan drefniadau monitro cadarn.

Byddai angen gwneud rhagor o waith i ddylunio'r mecanweithiau ar gyfer cydnabyddiaeth ar sail perfformiad a sicrhau cymesuredd a chysondeb ar draws y system. Mae'r dull hwn yn darparu llwybr graddol tuag at strwythur trwyddedu mwy modern, gan gynnig sefydlogrwydd a hyblygrwydd yn ystod y cyfnod pontio.

Opsiwn 4 - Diweddaru'r rheoliadau presennol gyda mesurau rheoli ansawdd gwell

Byddai'r opsiwn hwn yn cadw'r fframwaith deddfwriaethol presennol ond yn moderneiddio SUIAR i wella aliniad â rheolaethau ar gyfer gweithgareddau eraill yn ymwneud â rhoi gwastraff ar dir. Byddai hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl slwtsh domestig gael ei reoli drwy gynllun sicrwydd a gymeradwywyd gan reoleiddiwr fel y Cynllun Sicrwydd Biosolidau, gan helpu i sicrhau safonau cyson ar draws gweithredwyr.

Gallai'r dull hwn gefnogi disgwyliadau cliriach a gwella hyder yn y defnydd o slwtsh fel cam dros dro. Fodd bynnag, ni fyddai'n cyflwyno pwerau adennill costau i Cyfoeth Naturiol Cymru a byddai'n parhau i weithredu o fewn fframwaith statudol hŷn. Felly, efallai y bydd yn fwyaf priodol fel dull dros dro neu drosiannol tra bydd diwygio tymor hwy yn cael ei ddatblygu.

Opsiwn 5 – Dim newid i'r fframwaith deddfwriaethol presennol.

Byddai cynnal y fframwaith rheoleiddio presennol yn sicrhau parhad. Fodd bynnag, ni fyddai'n adlewyrchu'r datblygiadau mewn prosesau trin slwtsh, gweithrediadau'r gadwyn gyflenwi na thystiolaeth wyddonol sydd wedi dod i'r amlwg ers cyflwyno'r SUIAR a'r Cod Ymarfer. Mae diffyg mecanweithiau adennill costau, gallu cyfyngedig i fonitro a llai o allu i addasu i risgiau yn y dyfodol yn golygu efallai na fydd yr opsiwn hwn yn cefnogi gwydnwch rheoleiddiol neu ganlyniadau amgylcheddol hirdymor yn llawn.

Bydd safbwyntiau rhanddeiliaid yn helpu i benderfynu a yw'r dull hwn yn dal yn briodol ar gyfer anghenion yn y dyfodol.

Trosolwg o'r opsiynau posibl

Mae'r pum opsiwn a nodir uchod yn adlewyrchu amrywiaeth o lwybrau posibl ar gyfer rheoleiddio a goruchwylio gweithgareddau slwtsh yng Nghymru yn y dyfodol. Maent yn cynnwys dulliau deddfwriaethol, anneddfwriaethol, hybrid a status quo. Mae gan bob opsiwn oblygiadau gwahanol o ran dylunio a gweithredu rheoleiddiol, ac mae'n cyflwyno amrywiaeth o fanteision, cyfyngiadau ac ystyriaethau ymarferol posibl. Ar hyn o bryd, nid oes opsiwn sy'n cael ei ffafrio wedi cael ei nodi.

Byddai rhai opsiynau'n cyflwyno mecanweithiau rheoleiddio newydd, tra byddai eraill yn gwella'r trefniadau presennol neu'n cynnal y fframwaith presennol. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar sut y gallai pob opsiwn weithredu'n ymarferol, gan gynnwys effeithiau posibl ar ddiwydiant, rheoleiddwyr, rheolwyr tir, iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd.

Gallai opsiynau deddfwriaethol gynnig cyfleoedd i ddiwygio'r fframwaith rheoleiddio sylfaenol. Gall dulliau anneddfwriaethol a hybrid gefnogi gwelliannau yn y system bresennol neu ddarparu hyblygrwydd yn ystod unrhyw gyfnod o newid. Gall opsiynau

parhad gynnig sefydlogrwydd ond efallai y bydd angen ystyried hefyd pa mor effeithiol y maent yn diwallu anghenion yn y dyfodol.

O ystyried y gwahaniaethau rhwng y cyd-destunau Cymreig a Seisnig, mae gennym ddiddordeb arbennig ym marn rhanddeiliaid ar sut y gallai pob opsiwn gefnogi goruchwyliaeth glir, gymesur ac effeithiol yng Nghymru, gan gynnwys unrhyw oblygiadau ar gyfer data, monitro, trefniadau cadwyn gyflenwi a chyflawni gweithredol.

Rydym yn croesawu adborth ar yr holl opsiynau a gyflwynir, yn ogystal ag unrhyw ddulliau neu ystyriaethau ychwanegol y mae rhanddeiliaid yn credu y dylent fod yn rhan o'r ymgynghoriad hwn. Bydd unrhyw ddiwygiadau a chynlluniau sicrwydd yn cael eu datblygu yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru a gofynion rheoleiddio ehangach, gan wreiddio Rheoli Rheoliadau Llygredd Amaethyddol a safonau perthnasol eraill.

Rheoleiddio Gweddillion Treuliad Anaerobig yng Nghymru - Galwad am Dystiolaeth ac Opsiynau i Ddiwygio

Mae gweddillion treuliad anaerobig, a gynhyrchir o dreuliad anaerobig o ddeunydd porthiant bioddiraddadwy yn cael eu defnyddio fwyfwy ar draws amaethyddiaeth Cymru. Fe'i ddefnyddir yn bennaf fel bio-wrtaith cynaliadwy, cyflyrlydd pridd ac adnodd maethol i amaethyddiaeth, gan ddisodli gwrteithiau synthetig. Er eu bod yn rhannu rhai nodweddion â slwtsh carthion, maent yn cyflwyno set benodol o heriau rheoleiddiol, amgylcheddol a gweithredol. Mae'r fframwaith presennol i reoli gweddillion treuliad anaerobig wedi datblygu'n dameidiog, gyda safonau amgylcheddol a mecanweithiau goruchwyllo gwahanol yn dibynnu ar y math o borthiant, y broses drin a'r defnydd terfynol. Mae hyn wedi arwain at ansicrwydd i weithredwyr, i reoleiddwyr ac i reolwyr tir, ac wedi codi cwestiynau ynghylch a yw'r trefniadau presennol yn ddigon cadarn i ddiogelu ansawdd dŵr a chanlyniadau amgylcheddol.

Mae adborth gan rhanddeiliaid a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn tynnu sylw at yr angen i ystyried gweddillion treuliad anaerobig ar wahân i slwtsh carthion. Mae hyn yn cynnwys deall sut mae gorsafoedd treulio anaerobig yn gweithredu yng Nghymru, graddfa a natur eu porthiant, priodweddau allweddol y gweddillion treuliad anaerobig, sut mae gweddillion treuliad anaerobig yn cael eu trin a'u defnyddio, a'r rheolaethau rheoleiddio sy'n rheoli'r defnydd ohonynt. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o ddiddordeb cynyddol yn y maes hwn, gan gynnwys gan gyrff anllwywodraethol amgylcheddol, a'r angen i fynd i'r afael â bylchau posibl o ran trwyddedu amgylcheddol, monitro, cysondeb safonau, a'r rhyngwyneb â systemau gwastraff ac amaethyddol presennol.

O ystyried y materion hyn, rydym yn gofyn am farn ynghylch a yw'r fframwaith rheoleiddio presennol ar gyfer cynhyrchu a defnyddio gweddillion treuliad anaerobig yn darparu mesurau diogelu amgylcheddol digonol ac yn darparu eglurder i weithredwyr ac i reolwyr tir. Mae hyn yn cynnwys sut y mae'r opsiynau presennol o ddulliau rheoleiddio ar gyfer treuliad anaerobig yn mynd i'r afael â risg amgylcheddol y broses. Rydym hefyd yn gwahodd tystiolaeth ar sut mae defnyddio gweddillion treuliad anaerobig yn cyfrannu at economi gylchol yng Nghymru, heriau rheoli maethynnau ac ansawdd dŵr mewn dalgylchoedd sensitif, ac a oes angen mecanweithiau rheoleiddio neu sicrwydd cryfach o bosibl.

I gefnogi asesiad cliriach o'r opsiynau, mae'r Papur Gwyrdd hwn yn cynnwys **cais penodol am dystiolaeth ar gynhyrchu a defnydd gweddillion treuliad anaerobig**. Mae cwestiynau penodol sy'n ymwneud â threuliad anaerobig wedi'u cynnwys yn y Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad (cwestiynau 18–20).

Gorfodaeth a Sanctsiynau Sifil

Mae [Deddf Dŵr \(Mesurau Arbennig\) 2025](#) yn darparu pecyn adnoddau pwysig newydd ar gyfer gorfodi, gan gynnwys sanctsiynau sifil sy'n caniatáu i reoleiddwyr weithredu'n gyflymach ac yn fwy cymesur.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r egwyddor o weithredu'r darpariaethau hyn ac yn cydnabod eu potensial i gryfhau ymateb rheoleiddiol a sbarduno cydymffurfiaeth. Bydd cyflawni'r diwygiad hwn yn gofyn am raglen raddol o ddatblygu deddfwriaethol, gweithredol a rheoleiddiol. Mae hyn yn cynnwys drafftio canllawiau statudol, dylunio protocolau gorfodi, meithrin gallu rheoleiddwyr, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Bydd gweithredu hyn yn gofyn am gyllid penodol i gefnogi hyfforddiant, cymorth cyfreithiol a systemau digidol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i asesu sut gellir defnyddio'r pwerau hyn yn ymarferol, gan sicrhau eu bod yn dryloyw, yn gyson ac yn cyd-fynd ag egwyddorion tegwch a chyfiawnder amgylcheddol.

Monitro ansawdd dŵr yn barhaus

Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell bod Llywodraeth y DU yn adolygu ei dull o fonitro ansawdd dŵr yn barhaus, gyda'r bwriad o wella effeithlonrwydd costau drwy arloesi technolegol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y dull gweithredu priodol ar gyfer Cymru ar wahân, gan ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar ei hadolygiad ei hun.

Mae cwmnïau dŵr yng Nghymru eisoes yn defnyddio technegau fel rhwydweithiau synwryddion gwell, monitro o bell a dadansoddeg ragfynegol. Byddwn yn gweithio gyda nhw a phartneriaid eraill i archwilio sut y gellir cryfhau ac integreiddio'r dulliau hyn gyda modelu ansawdd dŵr. Bydd dod â monitro a modelu at ei gilydd yn ein helpu i ddeall gweithgareddau a'u heffeithiau ar yr amgylchedd yn well, gan gefnogi ymyriadau mwy penodol ac effeithiol.

Cydlynu gorfodaeth drawsffiniol

Yn olaf, mae'r Comisiwn yn galw ar Asiantaeth yr Amgylchedd i gyflymu ei hymdrechion i ddatrys achosion gorfodi sydd wedi bod ar waith ers tro byd. Er bod yr argymhelliad hwn yn berthnasol i Loegr, mae ganddo oblygiadau i Gymru, yn enwedig mewn dalgylchoedd trawsffiniol a swyddogaethau rheoleiddio a rennir. Byddwn yn gweithio gyda chymheiriaid yn Llywodraeth y DU i sicrhau bod gorfodaeth yn amserol, yn dryloyw ac yn gydlynol ar draws awdurdodaethau.

Bydd angen i'r cydlynu hwn hefyd fynd i'r afael â materion fel symudiadau slwtsh rhwng cwmnïau sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i ddatrys y materion hyn o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, a byddwn yn parhau i ymgysylltu ynghylch y ffordd orau o reoli cydymffurfiaid a gorfodaeth yn y meysydd hyn.

Y Camau Nesaf

Bydd diwygio llywodraethiant, gorfodi a monitro yng Nghymru yn broses gymhleth a rhyngddibynnol. Bydd yn dechrau gydag adolygiad cynhwysfawr o fframweithiau

presennol, i nodi bylchau, gorgyffyrddiadau a meysydd gwendid. Bydd yn parhau gydag ymgysylltu, ar draws y llywodraeth, rheoleiddwyr, diwydiant a chymdeithas sifil, er mwyn dylunio system sy'n adlewyrchu gwerthoedd a blaenoriaethau Cymru. Bydd ymgysylltu effeithiol â Llywodraeth y DU drwy gydol y broses yn hanfodol, yn enwedig yn ystod y cyfnod pan fydd rheoleiddiwr dŵr newydd Llywodraeth y DU yn dal i reoleiddio cwmnïau dŵr Cymru, nes bydd rheoleiddiwr Cymru wedi'i sefydlu. Bydd y broses wedyn yn symud ymlaen drwy newid deddfwriaethol a gweithredol, wedi'i gydlynw â sefydlu rheoleiddiwr newydd Cymru, gyda rheoleiddio cwmnïau dŵr Cymru yn parhau drwy'r rheoleiddiwr newydd Lloegr nes bydd rheoleiddiwr Cymru ar waith.

Mae risgiau yn y broses hon. Gallai newidiadau i brotocolau monitro neu bwerau gorfodi arwain at ddryswch, gwrthwynebiad, neu ganlyniadau anfwriadol os na chânt eu rheoli'n ofalus. Mae risg hefyd y gellid ystyried bod diwygiadau'n gosbol neu'n rhy ganolog. Bydd y risgiau hyn yn cael eu lliniaru drwy gyfathrebu clir, gweithredu fesul cam, ac ymrwymiad i dryloywder ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd yn sylweddol. Gall Cymru adeiladu system llywodraethiant a gorfodi y gellir ymddiried ynddi, sy'n effeithiol ac sy'n gallu sicrhau manteision hirdymor i bobl a'r amgylchedd. Mae'r diwygiadau hyn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau amgylcheddol, yn gwella hyder y cyhoedd, ac yn sicrhau tegwch i weithredwyr. Maent hefyd yn cyd-fynd â blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Bil Egwyddorion yr Amgylchedd, ac ymrwymïadau i gyfiawnder amgylcheddol ac ymgysylltu â'r gymuned.

Y canlyniad y mae Cymru yn ei geisio yw system lle mae gorfodaeth yn amserol, yn gymesur ac wedi'i seilio ar werth cyhoeddus.

System lle mae llywodraethiant yn adlewyrchu gwerthoedd cymunedau Cymru a'r cyfrifoldebau rydym yn eu rhannu dros ein hamgylchedd a chenedlaethau'r dyfodol.

5.3 Sicrhau Safonau Dŵr Yfed a Chapasiti Rheoleiddiol yng Nghymru

Argymhelliad 31 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod costau'r diwydiant yn cael eu hadennill yn llawn er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth rheoleiddio yn hunangynhaliol ac yn cyd-fynd â'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu.

Argymhelliad 32 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan eu rheoleiddwyr ddigon o bwerau, hyblygrwydd gweithredol a'r gallu i recriwtio a chadw staff technegol o ansawdd uchel. Dylai hyn gynnwys sefydlu'r rheoleiddiwr newydd y tu allan i reolaethau tâl y sector cyhoeddus.

Argymhelliad 33 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sicrhau bod proses effeithiol ar waith ar gyfer adolygu a diweddarau safonau dŵr yfed yn rheolaidd.

Argymhelliad 34 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gyflwyno pwerau i gryfhau pecyn adnoddau'r rheoleiddiwr mewn perthynas â dŵr yfed, gan gynnwys ymestyn ei bwerau i gynnwys pob gweithredwr trydydd parti, a phwerau i osod cosbau ariannol yn uniongyrchol.

Argymhelliaid 35 y Comisiwn

Dylai'r rheoleiddiwr, y diwydiant dŵr a llywodraethau'r DU a Chymru sicrhau ac ehangu gwasanaethau profi Rheoliad 31 ar gyfer cynhyrchion dŵr yfed.

Rydym wedi ymrwymo i gynnal a chryfhau diogelwch, ansawdd a goruchwyliaeth dŵr yfed yng Nghymru er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Mae argymhellion y Comisiwn yn y maes hwn yn adlewyrchu'r angen am system reoleiddio sydd nid yn unig yn gadarn yn dechnegol ond sydd hefyd yn gallu addasu i heriau yn y dyfodol, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, twf poblogaeth, a disgwyliadau iechyd y cyhoedd sy'n esblygu.

Rydym yn cytuno mewn egwyddor â chyfeiriad argymhellion y Comisiwn ond rydym yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith i benderfynu ar y ffordd orau o'u symud ymlaen mewn ffordd sy'n adlewyrchu cyd-destun Cymru, gan gynnwys ein cyfrifoldebau datganoledig a realiti gweithredol y sector.

Annibyniaeth a chapasiti rheoleiddiol

Wrth galon y diwygiad hwn mae'r gydnabyddiaeth bod yn rhaid i reoleiddwyr gael y pwerau, yr hyblygrwydd a'r gallu i gyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys y gallu i recriwtio a chadw staff technegol o ansawdd uchel, gweithredu'n annibynnol ar fframweithiau cyflog gor-gyfyngol, gan barhau i gynnig gwerth am arian, ac ymateb yn gyflym i risgiau sy'n dod i'r amlwg. Byddwn yn sicrhau bod strwythurau ac adnoddau ein cyrff rheoleiddio yn gadarn, yn cael eu cefnogi'n dda ac yn addas i'r diben.

Bwriad Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yw ymgorffori'r DWI yn yr un corff rheoleiddio newydd ar gyfer Lloegr. Ar hyn o bryd mae DWI yn gweithredu fel corff rheoleiddio ar y cyd ar gyfer Cymru a Lloegr. Penodir Prif Arolygydd Dŵr Yfed Cymru gan Weinidogion Cymru ac mae'n arfer swyddogaethau statudol mewn perthynas â rheoleiddio dŵr yfed yng Nghymru, gan adrodd yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru.

Mewn egwyddor, rydym yn cefnogi parhau â'r swyddogaeth reoleiddio hon sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd symud DWI i un rheoleiddiwr dŵr newydd Defra yn peri heriau, gan gynnwys cymhlethu cwmpas daearyddol a chylch gwaith y corff rheoleiddio newydd yn barhaol. Mae hon yn sefyllfa wahanol i'r hyn a gyflwynir gan y rheoleiddiwr newydd yn Lloegr sy'n cynnal cyfrifoldebau rheoleiddio yn ystod cyfnod pontio i drefniadau newydd.

Wrth i'r newid hwn ddigwydd, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Defra i asesu priodoldeb rheoli rheoleiddio dŵr yfed yng Nghymru gan y corff hwnnw. Byddwn yn ystyried a fyddai'n fwy effeithiol sefydlu swyddogaeth reoleiddio benodol yng Nghymru, gan adlewyrchu ein cyfrifoldebau datganoledig a'n cyd-destun polisi penodol, a lleihau cymhlethdod yng nghwmpas a chylch gwaith y corff rheoleiddio newydd yn Lloegr. Bydd angen i unrhyw benderfyniad gael ei lywio gan ddadansoddiad ac ymgysylltiad manwl a rhaid iddo gael ei gefnogi gan drefniadau pontio sy'n sicrhau parhad, atebolrwydd a hyder y cyhoedd.

Adennill costau a'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu

Mae'r Comisiwn yn argymhell bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i sicrhau bod costau'n cael eu hadennill yn llawn gan y diwydiant, yn unol â'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu. Rydym yn cefnogi'r egwyddor hon sy'n cael ei hymgorffori yn y gyfraith drwy Fil Egwyddorion yr Amgylchedd, sy'n mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn cyflwyno fframwaith statudol ar gyfer egwyddorion amgylcheddol, gan gynnwys y llygrwr sy'n talu, ac mae'n sefydlu dyletswyddau newydd ar gyfer targedau bioamrywiaeth a llywodraethiant amgylcheddol.

Fel rhan o hyn, byddwn yn edrych ar sut y gellir ariannu gwasanaethau rheoleiddio, gan gynnwys goruchwyllo dŵr yfed, yn deg, yn dryloyw ac yn gynaliadwy. Bydd hyn yn cynnwys egluro a yw'r dull yn berthnasol i gyflenwadau dŵr preifat ac ystyried a ddylai ymestyn i sectorau eraill. Byddwn yn asesu'r goblygiadau o ran fforddiadwyedd, sicrwydd buddsoddi a chydbwysedd y costau rhwng defnyddwyr a darparwyr. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu hystyried yn ofalus i sicrhau eu bod yn cefnogi gwydnwch hirdymor ac yn adlewyrchu gwerthoedd cymunedau Cymru.

Ein barn ni yw bod yn rhaid i adennill costau gyd-fynd â'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu ac y dylai gael ei weithredu mewn ffordd sy'n gymesur, yn deg ac yn gyson â'n hamcanion amgylcheddol ehangach. Gall y dull hwn hefyd fod yn berthnasol i sectorau amgylcheddol eraill dros amser, fel rhan o lywodraethiant integredig. Rydym yn croesawu barn ar sut y dylid cymhwyso'r egwyddor hon yn ymarferol, gan gynnwys ei chwmpas ac unrhyw fesurau diogelu sydd eu hangen i ddiogelu fforddiadwyedd.

Safonau dŵr yfed

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a DWI i sicrhau bod safonau dŵr yfed yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd. Mae hwn yn faes i Lywodraeth Cymru weithredu arno'n gynnar.

Mae hyn yn hanfodol er mwyn cynnal hyder y cyhoedd a sicrhau bod Cymru'n parhau i gyd-fynd ag arferion gorau. Bydd y broses adolygu yn gydweithredol, gan ddefnyddio tystiolaeth wyddonol, data iechyd y cyhoedd, a mewnbwn gan randdeiliaid. Bydd hefyd yn ystyried goblygiadau newid yn yr hinsawdd, halogion sy'n dod i'r amlwg, ac arloesedd technolegol. Byddwn yn edrych ar sut gall casglu a samplu data gefnogi cynllunio yn y dyfodol drwy nodi risgiau amgylcheddol yn gynnar a'u rheoli'n effeithiol. Byddwn hefyd yn ystyried sut y gellir cysoni safonau cymeriant yn well â safonau amgylcheddol, neu o leiaf sut y gellir gwneud yr aliniad hwn yn gliriach ac yn fwy effeithiol.

Pwerau rheoleiddio a gorfodi

Rydym yn cefnogi ymestyn pwerau rheoleiddio i gynnwys yr holl weithredwyr trydydd parti sy'n ymwneud â darparu dŵr yfed, a chyflwyno pwerau i osod cosbau ariannol uniongyrchol pan fydd safonau'n cael eu torri. Byddai'r newidiadau hyn yn helpu i sicrhau cysondeb, atebolrwydd a diogelu'r cyhoedd ar draws y sector.

Mae angen gwneud rhagor o waith i ddiffinio sut byddai'r pwerau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol, gan gynnwys datblygu canllawiau a phrotocolau gorfodi.

Gwasanaethau profi Rheoliad 31

Mae argymhelliad y Comisiwn i sicrhau ac ehangu gwasanaethau profi Rheoliad 31 yn arbennig o bwysig. Mae'r gwasanaethau hyn yn sail i ddiogelwch cynnyrch a seilwaith dŵr yfed, a rhaid cynnal a chryfhau eu hargaeledd i ateb y galw yn y dyfodol. Gyda phartneriaid, byddwn yn archwilio opsiynau ar gyfer cynyddu capasiti profi, gan gynnwys buddsoddi mewn seilwaith labordai a phartneriaethau â darparwyr academiaidd a masnachol.

Y camau nesaf

Mae'r broses ddiwygio yn y maes hwn yn gyd-ddibynnol ar newidiadau ehangach i reoleiddio economaidd, goruchwyllo amgylcheddol, a llywodraethiant ieuchyd y cyhoedd. Rhaid ei drefnu'n ofalus er mwyn osgoi dyblygu, dryswch neu fylchau mewn cyfrifoldeb. Mae risg y gallai newidiadau i strwythurau neu bwerau rheoleiddio arwain at ansicrwydd ymysg gweithredwyr neu'r cyhoedd. Bydd y risgiau hyn yn cael eu lliniaru drwy gyfathrebu clir, gweithredu fesul cam, ac ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid.

Ar yr un pryd, mae'r diwygiadau'n cynnig cyfleoedd sylweddol. Gall Cymru adeiladu system reoleiddio sy'n rhagweithiol, yn ymatebol ac yn seiliedig ar werth cyhoeddus. Mae'r diwygiadau hyn yn cefnogi'r gwaith o ddarparu dŵr yfed diogel o ansawdd uchel, gwella hyder y cyhoedd, a sicrhau bod rheoleiddio'n cyd-fynd â newid technolegol ac amgylcheddol.

Nod Cymru yw sefydlu system rheoleiddio dŵr yfed sy'n parhau i ddarparu dŵr yfed diogel i'r holl breswylwyr, gyda phwyslais ar effeithiolrwydd, dibynadwyedd a manteision hirdymor i unigolion a chymunedau. Rhaid iddo allu ymateb i risgiau sy'n dod i'r amlwg, cefnogi arloesedd, a sicrhau bod y sector yn gweithredu mewn ffordd sy'n adlewyrchu gwerthoedd a blaenoriaethau cymdeithas Cymru.

5.4 Arbed Dŵr ac Ailddefnyddio yng Nghymru (Argymhellion 36 - 40)

Argymhelliad 36 y Comisiwn

Mae'r Comisiwn yn argymhell bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn gwella'r oruchwyliaeth reoleiddiol ar weithgarwch tynnu dŵr y diwydiant dŵr drwy ddod â hynny o dan y Drefn Trwyddedu Amgylcheddol.

Argymhelliad 37 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gyflymu'r ymdrechion i leihau faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio mewn cartrefi drwy gyflwyno mesuryddion clyfar gorfodol ar gyfer amrywiaeth ehangach o amgylchiadau.

Argymhelliad 38 y Comisiwn

Dylid newid strwythurau tariff i gymell effeithlonrwydd dŵr. Gallai hyn olygu cael gwared ar dariffau bloc sy'n gostwng ar gyfer defnydd nad yw'n ymwneud ag aelwydydd.

Argymhelliad 39 y Comisiwn

Dylid cyhoeddi safonau ar gyfer cyflwyno mesuryddion clyfar yn y farchnad nad yw ar gyfer aelwydydd yng Nghymru a Lloegr.

Argymhelliad 40 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru weithio gyda'u rheoleiddwyr i ddatblygu polisi a fframwaith rheoleiddio newydd i sbarduno mabwysiadu seilwaith ailddefnyddio dŵr yn y farchnad aelwydydd a marchnadoedd eraill.

Rydym yn cydnabod bod gwella effeithlonrwydd dŵr a chyflymu'r broses o fabwysiadu seilwaith ailddefnyddio yn hanfodol er mwyn adeiladu system ddŵr gadarn a chynaliadwy i Gymru. Mae hyn yn cryfhau gwydnwch i gymdeithas a'r amgylchedd ac mae'n gam allweddol wrth addasu i newid yn yr hinsawdd. Rydym hefyd yn cydnabod y gall llai o argaeledd dŵr waethygu'r pwysau ar ansawdd dŵr os na chaiff ei reoli'n dda.

Mae hwn yn faes sydd yn hanesyddol wedi cael llai o ffocws yng Nghymru nag ansawdd dŵr amgylcheddol ond mae'n rhaid iddo symud i fyny'r agenda. Gall y canfyddiad bod Cymru bob amser yn cael digon o law greu hunanfodlonrwydd, er gwaethaf ein dibyniaeth drom ar storio dŵr wyneb a pharthau adnoddau dŵr cymharol dameidiog. Gyda hinsawdd sy'n newid, rhaid mynd i'r afael â'r gwendid hwn yn rhagweithiol.

Mae argymhellion y Comisiwn yn y maes hwn yn adlewyrchu natur frys ymateb i bwysau hinsawdd, twf poblogaeth, a'r angen i leihau effaith amgylcheddol ar draws y sector. Nid yw tynnu, defnyddio ac ailddefnyddio dŵr yn faterion technegol ynysig, maent wedi'u cysylltu'n ddwfn â chwestiynau ehangach o ran cynllunio seilwaith, fforddiadwyedd a newid ymddygiad.

Rydym yn cytuno mewn egwyddor â chyfeiriad argymhellion y Comisiwn, ond mae angen gwneud rhagor o waith i ddeall sut gellir bwrw ymlaen â'r cynigion hyn mewn ffordd sy'n adlewyrchu cyd-destun Cymru, gan gynnwys ein cyfrifoldebau datganoledig, ein cyd-destun seilwaith a'n blaenoriaethau polisi. Bydd ein dull gweithredu yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael ei ddilyniannu a bydd yn ystyried effeithiau dosbarthu a fforddiadwyedd.

Caniatáu tynnu dŵr (Argymhelliad 36)

Mae'r Comisiwn yn argymhell dod â gweithgarwch tynnu dŵr y diwydiant dŵr o dan y Drefn Trwyddedu Amgylcheddol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod manteision posibl gwell cysondeb rheoleiddiol, goruchwyliaeth amgylcheddol gryfach, a rheolaeth fwy integredig ar ddalgylchoedd. Mae'r Comisiwn yn tynnu sylw at y ffaith y gallai gosod gweithgareddau tynnu dŵr o dan y Drefn Trwyddedu Amgylcheddol foderneiddio a chyflymu adolygiadau rheoleiddio, gan alluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i ganolbwyntio ar y gweithgareddau tynnu dŵr mwyaf peryglus ond hefyd diogelu cyflenwadau a'r amgylchedd

Rheolir y broses tynnu dŵr yng Nghymru gan dirwedd gymhleth bresennol o dynnu dŵr, hen seilwaith, systemau camlesi hanesyddol, a gofynion dŵr amrywiol rhanbarthol. Rhaid ystyried unrhyw newidiadau i drwyddedu yn ofalus er mwyn osgoi effeithiau anfwriadol ar fordwy, asedau treftadaeth, a defnyddio dŵr cymunedol. Byddwn yn cynnwys asesiad o argaeledd dŵr ar raddfa dalgylch, ochr yn ochr ag anghenion llif amgylcheddol, i sicrhau bod newidiadau'n gymesur ac yn effeithiol. Rydym yn gofyn am farn ar ba mor briodol fyddai integreiddio tynnu dŵr i Drefn Trwyddedu Amgylcheddol ar gyfer Cymru ac ar ddewisiadau amgen a allai gryfhau goruchwyliaeth ar yr un pryd ag adlewyrchu amodau Cymru.

Byddwn yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill i asesu sut gallai trwyddedau tynnu dŵr esblygu mewn ffordd sy'n adlewyrchu nodweddion penodol dalgylchoedd Cymru, gan gydnabod arwyddocâd tynnu dŵr ar gyfer cyflenwad dŵr yfed ac amrywiaeth o ddefnyddiau amaethyddol a busnes, yn ogystal â rôl camlesi a ffynonellau tynnu dŵr safonol eraill. Bydd hyn yn cynnwys asesu argaeledd dŵr ar lefel dalgylch, ochr yn ochr â gofynion llif amgylcheddol, i sicrhau gwydnwch a defnydd cynaliadwy. Byddwn hefyd yn edrych ar sut byddai newidiadau'n rhyngweithio â fframweithiau rheoleiddio presennol, cynllunio adnoddau dŵr, a nodau ehangach gwydnwch a diogelu'r amgylchedd. Bydd angen rhagor o ymgysylltu i sicrhau bod diwygiadau'n gymesur, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn sensitif i gyd-destunau lleol.

Mesuryddion clyfar (Argymhellion 37 a 39)

Mae'r Comisiwn yn argymhell cyflymu ymdrechion i leihau'r defnydd o ddŵr mewn aelwydydd drwy osod mesuryddion clyfar gorfodol mewn ystod ehangach o amgylchiadau (Argymhelliad 37) a chyhoeddi safonau ar gyfer cyflwyno mesuryddion clyfar nad ydynt ar gyfer cartrefi ledled Cymru a Lloegr (Argymhelliad 39).

Yng Nghymru, rydym yn cefnogi'r uchelgais i wella effeithlonrwydd defnydd dŵr, ond mae cyflwyno gorfodol yn codi cwestiynau pwysig ynghylch fforddiadwyedd, diogelu defnyddwyr, a dichonoldeb technegol. Rydym yn cydnabod bod cyfran uchel o deuluoedd incwm isel yng Nghymru yn byw mewn eiddo â gwerth ardrethol isel ac eiddo heb fesurydd. Gallai mesuryddion gorfodol gynyddu biliau'r teuluoedd hyn yn sylweddol.

Byddwn yn asesu costau a manteision mesuryddion clyfar i aelwydydd a mannau nad ydynt yn aelwydydd, gan gynnwys yr effeithiau ar gwsmeriaid agored i niwed, a'r achos dros safonau sy'n sicrhau ansawdd data, y gallu i ryngweithredu a diogelu defnyddwyr. Byddwn yn profi modelau cyflawni, llywodraethiant ac opsiynau cyllido cyn gwneud cynigion, a byddwn yn cydlynu â phartneriaid yn y DU lle mae safonau yn berthnasol ledled Prydain Fawr.

Diwygio tariffau (Argymhelliad 38)

Mae'r Comisiwn yn galw am newidiadau i strwythurau tariff i gymhell effeithlonrwydd dŵr, gan gynnwys dileu tariffau bloc sy'n gostwng ar gyfer defnydd nad yw'n ymwneud ag aelwydydd. Rydym yn cefnogi mesurau i annog effeithlonrwydd dŵr ond rydym am ddeall mwy am yr effaith bosibl ar fusnesau a defnyddwyr eraill nad ydynt yn aelwydydd er mwyn llywio penderfyniad ynghylch a yw hwn yn gam nesaf priodol.

Rydym yn croesawu ac yn casglu tystiolaeth ar ddefnydd nad yw'n ymwneud ag aelwydydd, opsiynau ar gyfer diwygio tariffau, effeithiau posibl ar degwch a chymhellion ymarferol sy'n lleihau defnydd heb danseilio gwasanaethau hanfodol. Byddai unrhyw newidiadau'n cael eu trefnu'n ofalus a'u halinio â mesuryddion clyfar a gwelliannau i ddata.

Seilwaith ailddefnyddio dŵr (Argymhelliad 40)

Mae datblygu seilwaith ailddefnyddio dŵr yn nod hirdymor ond hanfodol. Byddwn yn edrych ar sut gall polisi cynllunio, safonau adeiladu, tai, rheoleiddio amgylcheddol, iechyd y cyhoedd a diwydiant weithio gyda'i gilydd i gefnogi'r defnydd o dechnolegau ailddefnyddio, gan gynnwys systemau dŵr llwyd, casglu dŵr glaw, ac ailgylchu diwydiannol.

Yn nhymor nesaf y Senedd, byddwn yn adolygu canllawiau cynllunio, fframweithiau rheoleiddio a rhaglenni buddsoddi er mwyn gallu mabwysiadu atebion ailddefnyddio ar raddfa fawr. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â datblygwyr, awdurdodau lleol a'r diwydiant i nodi rhwystrau a chyfleoedd ar gyfer arloesi.

Y Camau Nesaf

Mae'r broses ddiwygio yn y maes hwn yn gymhleth ac yn rhyngddibynnol. Bydd newidiadau i drwyddedau tynnu dŵr yn cael eu cydlynu â rheoliadau amgylcheddol, cynllunio dalgylch ac asesiadau o argaeledd dŵr. Byddai angen i unrhyw ddiwygiadau i fesuryddion clyfar a diwygio tariffau gael eu trefnu i osgoi dryswch neu effeithiau dosbarthu anfwriadol ac i sicrhau'r arbedion mesuradwy gorau posibl. Bydd seilwaith ailddefnyddio dŵr yn cael ei gefnogi gan bolisi cynllunio, safonau technegol ac iechyd y cyhoedd, ac ymgysylltu â'r cyhoedd, ac yn cael ei integreiddio â modelu fel bod data monitro yn llywio camau gweithredu.

Mae risg y gallai diwygiadau fod yn dameidiog neu'n cael eu deall yn wael os na fyddant yn cael eu rheoli'n ofalus. Bydd y risgiau hyn yn cael eu lliniaru drwy gyfathrebu clir, gweithredu fesul cam, a gwerthuso parhaus. Ar yr un pryd, mae'r cyfleoedd yn sylweddol. Gall Cymru arwain y ffordd o ran datblygu system ddŵr sy'n effeithlon, yn gadarn ac yn ymateb i bwysau amgylcheddol.

Mae'r diwygiadau hyn yn cefnogi ein hymrwymiaadau sero net, yn lleihau'r pwysau ar ecosystemau, ac yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau dŵr yn parhau i fod yn fforddiadwy ac yn deg. Maent hefyd yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Bil Egwyddorion yr Amgylchedd, a'n nodau cynaliadwyedd ehangach.

Y canlyniad y mae Cymru'n ei geisio yw system ddŵr sy'n defnyddio adnoddau'n ddoeth, yn cefnogi arloesedd, ac yn adlewyrchu gwerthoedd ein cymunedau. Rhaid iddi allu ymateb i newid yn yr hinsawdd, cefnogi datblygiad economaidd, a diogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r bennod hon ar ddiwygio yn ymwneud ag adeiladu system sydd nid yn unig yn gadarn yn dechnegol, ond hefyd yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol gyfiawn.

5.5 Cryfhau Profiad Cwsmeriaid ac Eiriolaeth yng Nghymru

Argymhelliad 41 y Comisiwn

Dylai'r rheoleiddiwr gryfhau'r cymhelliad C-Mex i adlewyrchu profiad cwsmeriaid yn well a symud tuag at ddull goruchwyliol o fonitro amod y drwydded mewn perthynas â chanolbwyntio ar y cwsmer.

Argymhelliad 42 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth y DU ymgynghori ar gyflwyno tariffau cymdeithasol cenedlaethol gyda meini prawf cymhwysedd a lefelau cymorth cyson.

Argymhelliad 43 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu cynlluniau tariff cymdeithasol presennol a ddarperir gan y 2 gwmni yng Nghymru ac ystyried diwygiadau i sicrhau eu bod yn darparu canlyniadau teg.

Argymhelliad 44 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ystyried a ddylid troi'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn Ombwdsmon Dŵr gorfodol newydd.

Argymhelliad 45 y Comisiwn

Dylai'r llywodraeth ystyried trosglwyddo swyddogaethau eiriolaeth CCW i Gyngor ar Bopeth, gan roi llais cryfach i gwsmeriaid, y mae'n ofynnol i'r rheoleiddiwr dŵr ymateb iddynt.

Un prawf allweddol ar gyfer diwygio'r sector dŵr yw pa mor dda y mae'r system yn gwasanaethu pobl Cymru, a'u canfyddiadau ohoni. Mae argymhellion y Comisiwn ar brofiad cwsmeriaid ac eiriolaeth yn adlewyrchu'r angen i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu clywed, eu cefnogi a'u diogelu, yn enwedig y rheini sy'n wynebu pwysau fforddiadwyedd neu heriau o ran gwasanaethau.

Profiad cwsmeriaid a diwylliant gwasanaeth

Mae gwella profiad cwsmeriaid yn dechrau gyda'r ffordd y mae cwmnïau dŵr yn ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'r Comisiwn yn argymhell cryfhau'r cymhelliant C-Mex i adlewyrchu profiad cwsmeriaid yn well a symud tuag at ddull goruchwyllo o fonitro amod y drwydded ynghylch canolbwyntio ar y cwsmer.

Yng Nghymru, rydym yn cefnogi'r cyfeiriad hwn ac yn gyffredinol mae cwmnïau dŵr Cymru yn perfformio'n well ar y mesurau hyn, felly rydym yn dechrau ar sylfaen dda. Er enghraifft, yn adroddiad diweddaraf Ofwat, cyrhaeddodd Dŵr Cymru, neu rhagorodd ar y lefelau ymrwymiad perfformiad ar gyfer boddhad cwsmeriaid, toriad yn y cyflenwad heb ei gynllunio a charthffosydd yn cwmpo. Mae Hafren Dyfrdwy wedi perfformio'n gyson gryf ar draws sawl maes dros y cyfnod asesu, gan gynnwys digwyddiadau llygredd a chydymffurfio ag ansawdd dŵr yfed. O ran digwyddiadau llygredd, dyma'r unig gwmni sydd wedi cyrraedd ei lefel ymrwymiad perfformiad ym mhob blwyddyn o'r cyfnod. Fodd bynnag, credwn fod yn rhaid i fodlonrwydd cwsmeriaid fod yn fwy na metrig, rhaid iddo gael ei wreiddio yn niwylliant ac atebolrwydd darparwyr gwasanaethau. Mae hyn yn golygu sicrhau bod cwmnïau nid yn unig yn ymateb i gwynion, ond eu bod hefyd yn rhagweithiol o ran deall a diwallu anghenion cymunedau amrywiol.

Fel enghraifft o arfer da presennol yn y maes hwn, mae gan Dŵr Cymru Brosiect Cymunedau Dŵr Gwydn sy'n canolbwyntio ar ddull gweithredu integredig, ymarferol wedi'i dargedu sy'n cynnwys y gymuned. Y nod yw gweithio gyda'r gymuned, ac nid ar ei chyfer yn unig, ar brosiectau sy'n amrywio o ddarparu cymorth effeithlonrwydd dŵr, i helpu gyda dyledion cwsmeriaid, i ddarparu sesiynau addysg i gefnogi ceiswyr gwaith.

Fforddiadwyedd a thariffau cymdeithasol

Mae fforddiadwyedd yn parhau i fod yn bryder canolog. Mae'r Comisiwn yn galw ar Lywodraeth y DU i ymgynghori ar dariff cymdeithasol cenedlaethol gyda meini prawf cymhwysedd a lefelau cymorth cyson.

Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod ein cyd-destun yn wahanol yng Nghymru ac mae'n darparu argymhelliad ar wahân i Gymru adolygu tariffau cymdeithasol presennol. Mae tariff cymdeithasol Dŵr Cymru bellach ymhlith y goreuon. Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn a byddwn yn gweithio gyda Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy i ystyried eu cynlluniau tariff cymdeithasol presennol, gyda'r bwriad o'u diwygio os yw'n briodol i sicrhau canlyniadau teg. Byddwn yn ystyried sut mae tariffau'n cael eu strwythuro, sut mae cymhwysedd yn cael ei bennu, a sut mae cymorth yn cael ei gyfleu a'i gyrchu. Bydd hefyd yn archwilio sut y gellir cysoni tariffau cymdeithasol â strategaethau gwrthdlodi ehangach ac egwyddorion tegwch

ac urddas. Ein blaenoriaeth yw'r fforddiadwyedd uchaf, a byddwn yn ystyried yr opsiynau gorau i gyflawni hynny.

Eiriolaeth a chynrychiolaeth defnyddwyr

Mae'r Comisiwn wedi cynnig newidiadau sylweddol i eiriolaeth defnyddwyr yn y sector dŵr, gan gynnwys troi'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn Ombwdsmon Dŵr gorfodol a throsglwyddo ei swyddogaethau eiriolaeth i Gyngor ar Bopeth. Mae'r cynigion hyn yn codi cwestiynau pwysig am annibyniaeth, atebolrwydd, a pha mor amlwg yw cynrychiolaeth defnyddwyr.

Yng Nghymru, rydym yn cydnabod bod eiriolaeth defnyddwyr yn rhan hanfodol o system ddŵr deg ac ymatebol. Mae Papur Gwyn Llywodraeth y DU yn arwydd o fwriad i greu Ombwdsmon Dŵr annibynnol newydd a defnyddio Mesur Dŵr arfaethedig Llywodraeth y DU i roi llais cryfach i gwsmeriaid, gan adeiladu ar rôl eiriolaeth y Cyngor Defnyddwyr Dŵr. Ac ystyried natur ar y cyd bresennol y trefniadau eiriolaeth a chynrychiolaeth defnyddwyr, mae angen inni ystyried goblygiadau hynny i Gymru. Byddai'n well gennym, yn amodol ar ystyriaeth ac ymgysylltiad pellach, sefydlu trefniadau Cymreig unigryw, a chydabod y gallai hyn olygu bod angen deddfwriaeth alluogi gan Lywodraeth y DU.

Yn y cyfamser, byddwn yn ystyried ffyrdd o gryfhau'r model presennol yn ogystal ag edrych ar senarios o newid posibl yn y dyfodol. Ym mhob achos, ein blaenoriaeth yw sicrhau bod cynrychiolaeth defnyddwyr yn dal yn gryf, yn weladwy ac yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau rheoleiddio, a'i fod yn gweithio'n effeithiol mewn dyfodol lle ceir dwy drefn rheoleiddio economaidd ar wahân.

Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod ein dull gweithredu ar gyfer eiriolaeth defnyddwyr yng Nghymru yn y dyfodol yn gadarn, yn annibynnol ac yn gallu sicrhau canlyniadau ystyrlon i ddefnyddwyr. Bydd y gwaith hwn yn seiliedig ar ymgysylltu â chymunedau, defnyddwyr gwasanaethau a'r rheini sy'n cefnogi grwpiau agored i niwed. Bydd hefyd yn seiliedig ar dystiolaeth ynghylch pa mor dda mae'r trefniadau presennol yn gweithio a lle gallai fod angen gwelliannau.

Y Camau Nesaf

Bydd y broses o gryfhau profiad cwsmeriaid ac eiriolaeth yng Nghymru yn ailadroddol, yn cael ei harwain gan dystiolaeth, ac yn seiliedig ar ymgysylltu. Bydd yn dechrau drwy ystyried y trefniadau presennol, gan gynnwys tariffau cymdeithasol, cymhellion gwasanaeth i gwsmeriaid, a strwythurau cynrychioli defnyddwyr. Bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys cydweithio'n agos â chwmnïau dŵr, rheoleiddwyr, y Cyngor Defnyddwyr Dŵr a grwpiau defnyddwyr gan gynnwys Cyngor ar Bopeth, yn ogystal ag ymgysylltu â chymunedau a'r rheini sy'n cefnogi defnyddwyr agored i niwed. Y nod yw nodi lle mae angen gwelliannau a sut y gellir cynllunio diwygiadau i adlewyrchu gwerthoedd a blaenoriaethau cymdeithas yng Nghymru.

Pennod 6: Sicrhau Llywodraethiant Cryf a Chyfrifol ar gyfer Cwmnïau Dŵr yng Nghymru

Strwythurau cwmnïau, llywodraethiant a gwydnwch ariannol yw sylfeini sector dŵr sy'n cyflawni dros Gymru. Mae ein dull gweithredu yn cael ei arwain gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r egwyddor bod yn rhaid i wasanaethau dŵr fod yn gynaliadwy, yn dryloyw ac wedi'u hymgorffori mewn gwerth cyhoeddus. Er bod llawer o argymhellion y Comisiwn wedi'u cyfeirio at reoleiddwyr, byddwn yn arwain y gwaith o ddatblygu polisiau yn ystod y cyfnod pontio i sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn cael eu hymgorffori.

Mae sector dŵr Cymru yn unigryw, gyda dau gwmni presennol, Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy, ochr yn ochr â NAVs ac adwerthwyr. Ein blaenoriaeth yw sector sy'n gadarn yn ariannol, sy'n cael ei lywodraethu'n dda, ac sy'n cyd-fynd â gwerthoedd cymunedau Cymru.

6.1 Strwythurau a Pherchnogaeth Cwmnïau

Argymhelliad 46 y Comisiwn

Dylai'r rheoleiddiwr yng Nghymru a Lloegr fabwysiadu proses sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ystyried, fesul achos, a fyddai'n briodol i gwmni dŵr newid i fodel perchnogaeth amgen pan fydd yn gofyn am hynny neu'n dilyn SAR.

Argymhelliad 47 y Comisiwn

Dylai'r rheoleiddiwr yng Nghymru a Lloegr gael y pŵer i rwystro newidiadau sylweddol o ran rheoli cwmnïau dŵr.

Argymhelliad 48 y Comisiwn

Dylai'r rheoleiddiwr yng Nghymru a Lloegr gael pwerau i gyfarwyddo rhiant-gwmnïau a rheolwyr terfynol.

Argymhelliad 49 y Comisiwn

Dylai'r rheoleiddiwr yng Nghymru a Lloegr adlewyrchu elfennau o'r Erthyglau Cymdeithasu yn amodau'r drwydded er mwyn cryfhau atebolrwydd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Ofwat, rheoleiddiwr newydd Cymru (pan gaiff ei sefydlu) a chwmnïau dŵr yng Nghymru i ystyried yr argymhellion hyn. Yn y cyfamser, rydym yn croesawu barn rhanddeiliaid.

6.2 Llywodraethiant ac Atebolrwydd

Argymhelliad 50 y Comisiwn

Dylai'r rheoleiddiwr yng Nghymru a Lloegr barhau â'r cynlluniau presennol i gryfhau safonau llywodraethiant a sicrhau bod ei egwyddorion yn cyd-fynd â Chod Llywodraethiant Corfforaethol y DU. Dylai rheolau fod yn berthnasol i bob cwmni dŵr, wedi'u rhestru a heb eu rhestru, a chreu tegwch o ran llywodraethiant a thryloywder ar draws pob cwmni.

Argymhelliad 51 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sefydlu trefn newydd ar gyfer atebolrwydd uwch. Dylai'r drefn arfaethedig fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus cyn ei rhoi ar waith.

Argymhelliad 52 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gynnwys targed sy'n ymwneud â sefydlogrwydd y model rheoleiddio fel amcan yn ei chanllawiau strategol.

Argymhelliad 53 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth y DU ddefnyddio'r cyfle yn yr adolygiad hwn a'i phenderfyniadau ar weithredu argymhellion y Comisiwn i ailosod ei dull o gyfathrebu'n strategol ynghylch y diwydiant dŵr. Fel nod, dylid gosod beirniadaeth gyfiawnadwy yng nghyd-destun diwygio a dangos cefnogaeth i'r diwydiant wrth i berfformiad wella. Dylai'r Llywodraeth hefyd osod perfformiad amgylcheddol y sector yng nghyd-destun ehangach cyfraniadau sectorau eraill at gyflawni amcanion amgylcheddol, yn enwedig lle mae camau adferol ar waith ar gyfer methiannau yn y gorffennol.

Argymhelliad 54 y Comisiwn

Dylai'r rheoleiddwyr yng Nghymru a Lloegr gwblhau ymchwiliadau ac achosion gorfodi hirsefydlog cyn gynted â phosibl fel rhan o broses o ailosod y sector.

Mae llywodraethiant cadarn yn hanfodol er mwyn meithrin ymddiriedaeth a sicrhau bod cwmnïau dŵr yn gweithredu er budd y cyhoedd. Yng Nghymru, mae hyn yn golygu annog y gwaith o ddatblygu fframweithiau sy'n adlewyrchu arferion gorau'r DU ar yr un pryd ag ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: tryloywder, amrywiaeth a meddwl hirdymor. Dylai byrddau feddu ar yr arbenigedd priodol i sicrhau canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol, a dylai safonau llywodraethiant gael eu cymhwysu'n gymesur ar draws pob darparwr, gan gynnwys pob NAV.

Mae argymhellion y Comisiwn yn nodi cyfeiriad clir ar gyfer diwygio. Byddai cysoni safonau llywodraethiant â Chod Llywodraethiant Corfforaethol y DU yn creu cysondeb ac yn cryfhau atebolrwydd ar draws y sector. Rydym yn cefnogi'r dull hwn a byddwn yn gweithio gyda rheoleiddwyr a chwmnïau dŵr yng Nghymru yn y dyfodol er mwyn ymgorffori'r egwyddorion hyn yn amodau'r drwydded. Cyn yr ymarfer hwn, byddwn yn annog cwmnïau sy'n gweithredu yng Nghymru i ddilyn esiampl Glas Cymru a mabwysiadu'r safonau hyn yn wirfoddol, gan gydnabod bod llywodraethiant cryf o fudd i gwsmeriaid ac i'r amgylchedd.

Mae atebolrwydd cliriach ar gyfer uwch arweinwyr hefyd yn hanfodol. Rydym yn cytuno y dylid datblygu trefn newydd ar gyfer atebolrwydd uwch reolwyr ac y dylid ymgynghori yn ei chylch. Bydd hyn yn cynnwys ystyried cwpas, mecanweithiau gorfodi, a sut gall y drefn adlewyrchu blaenoriaethau Cymru, megis tegwch, tryloywder a gwydnwch hirdymor.

Mae'r Comisiwn hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd eglurder a sefydlogrwydd yn y model rheoleiddio. Rydym yn cydnabod bod sicrwydd rheoleiddiol yn sail i hyder buddsoddwyr a chynllunio effeithiol. Byddwn yn adlewyrchu'r egwyddor hon yn ein Datganiad Polisi Strategol a'n canllawiau yn y dyfodol, gan sicrhau bod diwygiadau'n cael eu trefnu a'u cyfleu'n glir er mwyn osgoi tarfu diangen.

Mae argymhellion eraill, fel ailosod cyfathrebiadau strategol (argymhelliad 53) a chwblhau achosion gorfodi (argymhelliad 54), wedi'u cyfeirio at Lywodraeth y DU a rheoleiddwyr. Serch hynny, rydym o'r farn bod argymhelliad 53 hefyd yn berthnasol i Gymru a byddwn yn cysylltu â Llywodraeth y DU ar waith i wella cyfathrebiadau strategol. Yn yr un modd, rydym yn cefnogi argymhelliad 54 a byddwn yn gweithio gyda rheoleiddwyr yng Nghymru i gefnogi ymdrechion i gwblhau achosion gorfodi hirsefydlog.

6.3 Gwydnwch Ariannol

Argymhelliad 55 y Comisiwn

Dylai'r rheoleiddiwr yng Nghymru a Lloegr ystyried y ffordd orau o hyrwyddo'r defnydd o fondiau amgylcheddol.

Argymhelliad 56 y Comisiwn

Dylid ymgorffori fframwaith goruchwyllo ariannol fel rhan o fodel goruchwyllo ehangach. O fewn y fframwaith hwn, dylai'r rheoleiddiwr yng Nghymru a Lloegr gyhoeddi amrywiaeth o ffactorau risg sy'n sail i'w barn am broffil risg ariannol cwmni

Argymhelliad 57 y Comisiwn

Dylai'r rheoleiddiwr yng Nghymru a Lloegr gael y pŵer i bennu lefelau cyfalaf sylfaenol ar gyfer cwmnïau dŵr.

Argymhelliad 58 y Comisiwn

Dylid sefydlu trefn drawsnewid ffurfiol ar gyfer y rheoleiddiwr yng Nghymru a Lloegr i gefnogi trawsnewid cwmnïau sy'n perfformio'n wael. Dylai hyn alluogi mwy o bŵer cyfarwyddo yn ogystal â goddefgarwch rheoleiddiol.

Argymhelliad 59 y Comisiwn

Dylai'r rheoleiddiwr yng Nghymru a Lloegr ddatblygu ac ymgynghori ar fframwaith ar gyfer sicrhau bod cwmnïau'n barod ar gyfer SAR.

Argymhelliad 60 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth y DU gynnal adolygiad ôl-weithredu o'r BRM. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn dymuno ystyried adolygiad ôl-weithredu o'r BRM, er bod y Comisiwn yn cydnabod bod polisi ynghylch y BRM yn wahanol yng Nghymru a Lloegr.

Mae gwydnwch ariannol yn sail i allu'r sector i ddarparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy. Bydd llwyddiant trefniadau newydd ar gyfer y system ddŵr yng Nghymru yn dibynnu ar ei gallu i ddenu buddsoddiad preifat drwy'r marchnadoedd bondiau. Ni ellir ystyried hyn ar wahân i amcanion amgylcheddol a chymdeithasol. Rhaid i gwmnïau fod â'r capasiti ariannol i fuddsoddi mewn gwydnwch, addasu i'r hinsawdd, ac atal llygredd, gan gynnal fforddiadwyedd i gwsmeriaid ar yr un pryd.

Mae'r Comisiwn yn argymhell mesurau fel terfynau gerio, cyfyngiadau difidend, trefniadau clustnodi, a chyfundrefnau trawsnewid ar gyfer cwmnïau mewn trafferthion. Rydym yn croesawu barn rhanddeiliaid ar yr argymhellion hyn.

Mae cyfle hefyd i adeiladu ar fecanweithiau presennol i gysylltu gwytnwch ariannol â pherfformiad amgylcheddol. Mae mecanweithiau fel bondiau amgylcheddol yn cymhell buddsoddiad mewn atebion sy'n seiliedig ar natur a gwydnwch seilwaith, ac mae

trefniadau clustnodi yn diogelu cwsmeriaid mewn achos o drafferthion ariannol. Byddwn yn gofyn am farn ar ymgorffori'r egwyddorion hyn yn y Datganiad Polisi Strategol a'r canllawiau rheoleiddio.

Byddwn hefyd yn ystyried a yw adolygiad o bolisi'r Farchnad Adwerthu Busnes (BRM) yng Nghymru yn briodol, gan gydnabod gwahaniaethau o'i gymharu â Lloegr.

6.4 Tryloywder ac Atebolrwydd Cyhoeddus

Argymhelliad 61 y Comisiwn

Dylai'r llywodraeth a'r rheoleiddiwr yng Nghymru a Lloegr edrych ar fesurau tymor byr i wella gweithrediad y BRM.

Argymhelliad 62 y Comisiwn

Dylid gwneud y fframwaith ar gyfer rheoleiddio ceisiadau NAV yn Lloegr yn fwy cymesur i gefnogi twf tai. Mae'r Comisiwn yn cydnabod, o ystyried y safbwyntiau gwahanol ar fanteision NAV, y gallai Llywodraeth Cymru benderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r diwygiadau hyn.

Argymhelliad 63 y Comisiwn

Mae'r Comisiwn yn gweld achos cryf dros ollwng y gofyniad i NAVs gynhyrchu WRWMPs a Chynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff (DWMPs) o ystyried barn EA a'r newidiadau i'r gofynion sydd arnynt mewn perthynas â phrofi dŵr yfed.

Mae ymddiriedaeth y cyhoedd yn dibynnu ar dryloywder a rheoleiddio cymesur. Byddwn yn edrych ar fesurau tymor byr i wella gweithrediad BRM yng Nghymru ac yn ymgynghori ynghylch a ddylid addasu gofynion NAV, gan gydbwyso twf tai â mesurau diogelu amgylcheddol ac iechyd y cyhoedd.

Mae'r Comisiwn yn argymhell diwygiadau i rwymedigaethau NAV yn Lloegr, gan gynnwys dileu'r gofynion ar gyfer Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr a Chynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r argymhellion hyn ac yn ymgynghori ynghylch a yw addasiadau'n briodol i Gymru.

Ochr yn ochr â'r mesurau penodol hyn, byddwn yn gwella eglurder a hygyrchedd adroddiadau drwy grynodedau ariannol symlach, metrigau perfformiad safonol, a dangosfyrddau cyhoeddus. Bydd y gwelliannau hyn yn cael eu cynllunio i'w mabwysiadu gan reoleiddiwr y dyfodol ond yn cael eu hannog yn wirfoddol yn y tymor byr.

6.5 Ymgorffori Budd y Cyhoedd ac Archwilio Modelau Amgen

Argymhelliad 64 y Comisiwn

Cred y Comisiwn y dylai llywodraeth y DU fonitro maint y farchnad NAV a'r risg o ddarnio.

Argymhelliad 65 y Comisiwn

Dylai'r rheoleiddiwr yn Lloegr barhau â'r camau hanfodol y mae Ofwat yn eu cymryd i fynd i'r afael â materion gyda DPC a SIPR. Dylid cynnal gwerthusiad llawn o'r ddau gynllun ymhen 5 mlynedd pan fydd sylfaen dystiolaeth ehangach wedi'i chronni. Mae'r Comisiwn yn cydnabod, o ystyried y safbwyntiau gwahanol ar fanteision DPC ac SIPR, y gallai Llywodraeth Cymru benderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r diwygiadau hyn

Mae'r Comisiwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd monitro datblygiadau yn y farchnad er mwyn osgoi darnio a sicrhau bod cystadleuaeth yn arwain at fanteision i gwsmeriaid. Er bod yr argymhelliad hwn wedi'i gyfeirio at Lywodraeth y DU, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a oes angen monitro tebyg yng Nghymru, yn enwedig wrth i ni adolygu rôl NAVs a modelau amgen eraill o ran cefnogi twf tai a gwytnwch. Rydym am wreiddio egwyddorion budd y cyhoedd yn nyletswyddau cwmnïau dŵr ac adlewyrchu'r rhain mewn fframweithiau rheoleiddio yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut gellid cymhwyso'r egwyddorion hyn yn y cyfamser drwy ganllawiau a datganiadau polisi. Byddwn yn arwain gwaith ymgysylltu ac ymchwil i archwilio sut y gellir cyflawni hyn.

Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn edrych ar y potensial ar gyfer modelau perchnogaeth amgen, gan gynnwys dulliau cydfuddiannol, cydweithredol a chymunedol, ac yn asesu pa fframweithiau galluogi y gallai fod eu hangen i gefnogi eu datblygiad yng nghyd-destun Cymru. Bydd y gwaith hwn yn seiliedig ar dystiolaeth a mewnbwn gan randdeiliaid, gan sicrhau bod unrhyw newidiadau'n hyrwyddo tryloywder, atebolrwydd a gwerth cyhoeddus.

Y Camau Nesaf

Mae diwygio strwythurau, llywodraethiant a gwydnwch ariannol cwmnïau yn rhan hanfodol o adeiladu sector dŵr sy'n wydn, yn dryloyw ac yn cyd-fynd â gwerthoedd cymunedau Cymru. Er y bydd sefydlu rheoleiddiwr economaidd newydd i Gymru yn garreg filltir allweddol, mae hon yn uchelgais tymor hwy. Yn y cyfamser, bydd Llywodraeth Cymru yn arwain ar y gwaith o lunio cyfeiriad y diwygiadau a pharatoi'r tir ar gyfer trefniadau rheoleiddio yn y dyfodol.

Byddwn yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar fapio'r dirwedd bresennol o berchnogaeth, llywodraethiant ac arferion ariannol ar draws pob cwmni sy'n gweithredu yng Nghymru, gan gynnwys NAVs ac adwerthwyr, a nodi lle mae angen gwelliannau i gryfhau gwydnwch a gwerth cyhoeddus.

Bydd y gwaith hwn yn sail i'r ymgynghoriad ar ymgorffori'r egwyddorion hyn yn y Datganiad Polisi Strategol a'r canllawiau rheoleiddio yn y dyfodol. Drwy gydol y broses hon, byddwn yn cynnal pwyslais cryf ar gydweithio, tryloywder a'r gallu i addasu, gan sicrhau bod diwygiadau'n gymesur, yn ymarferol ac yn gallu sicrhau manteision hirdymor i gwsmeriaid a'r amgylchedd.

Pennod 7: Adeiladu Seilwaith Gwydn ac Asedau Iach i Gymru

Mae'r Bennod hon yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Comisiwn mewn perthynas â seilwaith ac iechyd asedau yn y diwydiant dŵr.

Mae'r argymhellion wedi'u cynllunio i sbarduno newid sylweddol yn y ffordd mae seilwaith yn y diwydiant dŵr yn cael ei reoli, ei fonitro a'i gyflawni.

Mae darparu dŵr yfed diogel a rheoli dŵr gwastraff yn effeithiol yn dibynnu ar seilwaith gwydn a chadwyni cyflenwi cadarn. Wrth i newid yn yr hinsawdd, twf yn y boblogaeth a gofynion eraill, a safonau amgylcheddol cynyddol ddwysáu'r pwysau ar y sector, mae cynnal iechyd asedau'r diwydiant dŵr yn dod yn fwyfwy pwysig.

Mae iechyd asedau, sef capasiti seilwaith i gyflawni ei swyddogaethau arfaethedig a sicrhau manteision ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol, yn hanfodol i wydnwch y system gyfan. Fodd bynnag, mae gwydnwch yn mynd y tu hwnt i gyflwr asedau unigol. Mae'n cwmpasu gallu'r system ddŵr i ragweld, atal, gwrthsefyll ac adfer ar ôl amrywiaeth o achosion o darfu, p'un a yw'r rhain yn deillio o fethiannau gweithredol, tywydd eithafol, neu siociau allanol eraill. Er mwyn sicrhau gwydnwch gwirioneddol, mae angen i gwmnïau dŵr fonitro, cynnal ac adnewyddu eu hasedau, yn ogystal â deall a rheoli risgiau'n rhagweithiol, buddsoddi mewn cynllunio tymor hir, a chydweithio'n effeithiol â phartneriaid ar draws y dirwedd gwydnwch.

Mae rhai o'r fframweithiau rheoleiddio sy'n berthnasol i asedau cwmnïau dŵr yn gofyn am gynnal a chadw a gwella'r ased er mwyn cyflawni amcanion amgylcheddol. Un enghraifft yw cynnal a gwirio uniondeb strwythurol fel rhan o'r trwyddedau perthnasol a roddir ar gyfer Treulio Anerobig slwtsh carthion. Byddwn yn ystyried a allai dod â gweithgareddau trin dŵr a thrin dŵr gwastraff o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol helpu i sicrhau bod uniondeb asedau'n cael ei drin fel proses fuddsoddi barhaus.

Mae gan gwmnïau dŵr rôl allweddol yn hyn. Mae'r flaenoriaeth y maent yn ei rhoi i gynnal a chadw asedau, eu gweithredu'n effeithiol a'u hamnewid yn cael effaith sylfaenol ar yr hyn sy'n cael ei gyflawni. Fodd bynnag, mae rheoleiddwyr yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o oruchwylio perfformiad seilwaith, gosod dyletswyddau cyfreithiol, archwilio asedau, a dylanwadu ar fuddsoddiad drwy fetrigau perfformiad ac adolygiadau prisiau. Yn benodol, rhoddir blaenoriaeth i'r cydbwysedd y mae Ofwat, a rheoleiddwyr economaidd yn y dyfodol, yn ei daro rhwng cyllid ar gyfer cynnal a chadw, adnewyddu a gwella, ac mae'n gosod y naws ehangach y mae cwmnïau dŵr yn ymateb iddi. Gwelodd yr adolygiad prisiau diweddaraf rywfaint o ail-gydbwyso ond mae mwy i'w wneud ar hyn.

Mae galwadau diweddar am safonau gwydnwch diwydiant-gyfan, gan gynnwys dangosyddion iechyd asedau sy'n edrych tua'r dyfodol, yn adlewyrchu'r gydnabyddiaeth gynyddol o'r angen am gynllunio cyson a hirdymor ar draws y sector.

Ar hyn o bryd mae Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (NICW) yn adolygu anghenion seilwaith dŵr Cymru, ac mae argymhellion y Comisiwn yn cydnabod y dylai penderfyniadau ar seilwaith ac iechyd asedau gael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru gan ystyried canfyddiadau NICW, a byddwn yn gwneud hynny. Daw'r gwaith hwn i ben yn hydref 2026.

Rydym yn cytuno bod seilwaith cadarn a ffocws o'r newydd ar iechyd asedau yn hanfodol er mwyn diogelu'r ddarpariaeth rheoli dŵr a dŵr gwastraff ar gyfer

cenedlaethau'r dyfodol a'i fod yn gyson â'r egwyddorion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn enwedig ar atal ac edrych tua'r tymor hir.

Er bod Cymru'n gweithredu o fewn fframwaith deddfwriaethol a pholisi penodol, byddwn yn gweithio'n adeiladol gyda rhanddeiliaid a chymheiriaid yn Lloegr i gefnogi'r gwaith o ddatblygu dulliau a safonau, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy Cymru. Hefyd, lle bo'n briodol, dylai ymgwymerwyr yng Nghymru weithio gyda chymheiriaid yn Lloegr a mabwysiadu dulliau sy'n gweithio yno.

7.1: Gwydnwch ac iechyd asedau

Rydym yn cytuno bod sicrhau seilwaith gwydn ac iechyd asedau yn hanfodol i gynaliadwyedd hirdymor y diwydiant dŵr. Mae'r Comisiwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd rheoli asedau'n gadarn, cadwyni cyflenwi effeithiol, a safonau gwydnwch blaengar i fynd i'r afael â heriau yn y dyfodol fel newid yn yr hinsawdd, twf yn y boblogaeth, a disgwyliadau amgylcheddol cynyddol.

Mae Adroddiad y Comisiwn hefyd yn galw am safonau cliriach a chyson ar draws y sector, gan gynnwys metrigau sy'n mynd y tu hwnt i gyflwr asedau i gynnwys dileu swyddi, y gallu i adfer, a methiannau critigol. Mae hefyd yn cydnabod rôl rheoleiddwyr o ran sbarduno gwelliannau drwy ddyletswyddau cyfreithiol, arolygiadau a chymhellion ar sail perfformiad.

Rydym yn cytuno â byrdwn y canfyddiadau hyn ac yn cydnabod pwysigrwydd cryfhau gwydnwch ac iechyd asedau ar draws y sector dŵr er budd defnyddwyr a'r amgylchedd a byddwn yn ystyried y ffordd orau o wreiddio'r gwaith hwn yn y rhaglen ddiwygio. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod y Strategaeth Ddŵr i Gymru a Chynllunydd Systemau'r dyfodol yn gallu cael gafael ar ddata tryloyw gan gwmnïau i fod yn sail i benderfyniadau cynllunio a buddsoddi effeithiol.

Argymhelliad 66 y Comisiwn

Dylid datblygu a mabwysiadu safonau gwydnwch statudol, sy'n cwmpasu systemau, seilwaith a chadwyni cyflenwi, ar gyfer y diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr.

Rydym yn derbyn egwyddor argymhelliad 66 a'r angen i fabwysiadu safonau gwydnwch statudol, sy'n cwmpasu systemau, seilwaith a chadwyni cyflenwi ar gyfer y diwydiant dŵr yng Nghymru. Rydym yn cytuno â barn y Comisiwn bod budd mewn pennu safonau gwydnwch sy'n seiliedig ar ganlyniadau ar lefel system, yn hytrach na gofynion rhagnodol ar gyfer asedau unigol, gan y byddai hyn yn rhoi hyblygrwydd ar gyfer y gwahanol amodau y mae cwmnïau'n gweithredu ynddynt.

Fodd bynnag, mae angen mewnbwn gan amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys y diwydiant dŵr, wrth ystyried a datblygu'r safonau hyn ac rydym yn croesawu barn ymgynghoreion gan y bydd hyn yn helpu i lunio ein polisi sy'n datblygu yn y maes hwn.

Argymhelliad 67 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gryfhau'r gofynion ar gwmnïau i fapio ac asesu iechyd eu hasedau, a dylai'r rheoleiddwyr sicrhau bod metrigau ar gyfer iechyd asedau yn edrych digon i'r dyfodol.

Rydym yn cytuno mewn egwyddor ag argymhelliad 67, sy'n gofyn i Lywodraeth Cymru gryfhau'r gofynion ar gwmnïau i fapio ac asesu iechyd eu hasedau a sicrhau

bod y metrigau ar gyfer iechyd yn edrych tua'r dyfodol. Heb os, byddai hyn yn arwain at fanteision o ran gwydnwch asedau. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith i asesu cost/budd y dull hwn ac i asesu'r achos dros ddileu neu newid yr eithriadau presennol i fapio.

Mae'r Adroddiad hefyd yn argymhell y dylai'r ddyletswydd i orfodi gofynion mapio gael ei dirprwyo i'r rheoleiddiwr newydd yn hytrach nag aros gyda'r Ysgrifennydd Gwladol. Unwaith eto, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod rhinweddau dirprwyo gweithgarwch gorfodi o'r math hwn, gan fod rheoleiddwyr fel arfer yn arfer swyddogaethau gorfodi o'r natur hon.

Argymhelliad 68 y Comisiwn

Dylid cryfhau goruchwyliaeth y rheoleiddiwr ar wydnwch seilwaith ac iechyd asedau, o dan ei ddull goruchwyllo. Dylai hyn gynnwys penodi Prif Beiriannydd ar fwrdd y rheoleiddiwr yng Nghymru a Lloegr, yn y drefn honno.

Argymhelliad 69 y Comisiwn

Dylai'r rheoleiddiwr gynnal asesiad risg ar draws y sector o ddibyniaethau hanfodol y gadwyn gyflenwi yng Nghymru a Lloegr.

Mae argymhellion 68 a 69 yn gofyn am drefniadau cryfach ar gyfer goruchwyliaeth y rheoleiddiwr ar seilwaith ac iechyd asedau. Unwaith eto, rydym yn cytuno â'r bwriad y tu ôl i'r argymhellion. Byddai arbenigedd peirianeg ar lefel bwrdd yn darparu cyngor a mewnbwn arbenigol ar frig y sefydliad a fyddai'n cryfhau'r broses o wneud penderfyniadau a mewnbwn arbenigol i wneud penderfyniadau strategol. Er, rydym yn cydnabod y bydd ffyrdd eraill o gyflawni hyn, er enghraifft, drwy benodi cynghorydd arbenigol neu banel o gynghorwyr. Ni fyddem am ddiystyru dulliau eraill o gyflawni'r un diben.

Rydym hefyd yn cytuno bod yn rhaid i'r diwydiant dŵr allu gwrthsefyll tarfu gweithredol ar y gadwyn gyflenwi. Byddai asesiad risg ar draws y sector yn ceisio nodi rhyngddibyniaethau neu risgiau traws-sector y mae cwmnïau unigol yn eu colli. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer yr ardaloedd mwyaf agored i niwed, er mwyn sicrhau mynediad diogel at ddeunyddiau hanfodol.

Rydym yn cytuno ei bod yn hanfodol bod cwmnïau'n parhau i gynnal eu hasesiadau risg eu hunain o'r gadwyn gyflenwi ochr yn ochr â'r persbectif hwn ar draws y sector i sicrhau bod mesurau lliniaru a chynlluniau wrth gefn priodol ar waith ar lefel leol. Gan weithio gyda Llywodraeth y DU, byddwn yn cefnogi'r diwydiant dŵr i ymgorffori asesiadau risg o ddibyniaethau hanfodol y gadwyn gyflenwi ymhellach yn y rhaglen ddiwygio ehangach, gan sicrhau bod safbwyntiau rhanddeiliaid yn llunio'r broses o wneud penderfyniadau ar y ffordd orau o gyflawni hyn.

Mae hwn yn faes lle mae cydweithio helaeth eisoes ar draws y sector a lle mae cwmnïau dŵr Cymru wedi chwarae rhan weithredol iawn yn hanesyddol. Rydym yn awyddus i sefydlu pa gamau fyddai'n gwneud gwahaniaeth ymarferol yn hyn o beth a byddwn yn ymgysylltu â chwmnïau dŵr a rhanddeiliaid ac arbenigwyr ehangach.

7.2: Diogelwch seilwaith

Mae dŵr yn rhan hanfodol o seilwaith cenedlaethol hanfodol y DU. Yn ogystal â sicrhau gwydnwch, rhaid ei ddiogelu rhag bygythiadau gelyniaethus, gan gynnwys bygythiadau seiber, sy'n peri risgiau i iechyd y cyhoedd a diogelwch amgylcheddol.

Rydym yn ymwybodol o amrywiaeth o ddigwyddiadau, gan gynnwys ymosodiadau seiber, sy'n effeithio ar y diwydiant dŵr. Er nad yw pob digwyddiad yn arwain at darfu gweithredol, mae'n bosibl y bydd ymosodiadau difrifol yn effeithio ar wasanaethau dŵr yfed a dŵr gwastraff. Rydym yn cydnabod y gwendidau hyn a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i gryfhau diogelwch seilwaith dŵr ledled Cymru.

Ar hyn o bryd mae cwmnïau dŵr yn rhwym wrth ddwy set o ofynion diogelwch seilwaith, sy'n cael eu rheoleiddio gan y DWI: Cyfarwyddyd Diogelwch a Mesurau Brys 2022 (fel y'i diwygiwyd) (SEMD), sy'n berthnasol i bob ymgwymerwr dŵr a charthffosiaeth ac sy'n cefnogi diogelwch cenedlaethol a pharodwydd am argyfyngau sifil; a [Rheoliadau Rhwydweithiau a Systemau Gwybodaeth 2018](#) (NIS), sy'n gosod rhwymedigaethau gwydnwch seiber penodol ar gwmnïau dŵr mawr.

Fodd bynnag, o ganfyddiadau'r Adroddiad, rydym yn cydnabod bod rhanddeiliaid wedi nodi bylchau sylweddol yn y fframwaith deddfwriaethol. Er enghraifft, dim ond i ddŵr yfed y mae NIS yn berthnasol ac nid yw'n cynnwys dŵr gwastraff, ac nid yw SEMD yn ymestyn i weithredwyr trydydd parti. Mae rheoleiddwyr hefyd wedi mynegi pryderon nad yw Datganiadau Polisi Strategol wedi rhoi digon o amlygrwydd i seiberddiogelwch, ac nad oes gan y DWI bwerau gorfodi digonol i weithredu fel rhwystr.

Cefnogwn argymhellion y Comisiwn i gryfhau deddfwriaeth sy'n ymwneud â threfniadau diogelwch a phwerau gorfodi. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu hystyried fel rhan o'r rhaglen ehangach i ddiwygio cyfraith dŵr a bydd angen ystyried unrhyw newidiadau i'r gyfraith ers cyhoeddi Adroddiad y Comisiwn (fel y Bil Seiberddiogelwch a Gwydnwch (Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth) a gyflwynwyd i'r Senedd ar 12 Tachwedd 2025 ac sy'n cynnig newidiadau i'r NIS). Byddwn hefyd yn edrych ar fesurau gwirfoddol i fynd i'r afael â bylchau cyn newid statudol. Bydd protocolau rhynglywodraethol yn cael eu hadolygu i sicrhau trefniadau clir ar gyfer cydlynw protocolau diogelwch cenedlaethol a phrotocolau argyfwng ar draws ffiniau, gan gynnwys mecanweithiau ar gyfer cymorth ar y cyd rhwng Cymru a Lloegr i sicrhau gwydnwch ac ymateb cyflym i ddigwyddiadau sy'n effeithio ar seilwaith dŵr.

Argymhelliad 70 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gryfhau deddfwriaeth sy'n ymwneud â threfniadau diogelwch ar gyfer y diwydiant dŵr i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â diwydiant sy'n newid.

Argymhelliad 71 y Comisiwn

Dylid rhoi pwerau cryfach i'r rheoleiddiwr ar gyfer gorfodi rheoliadau diogelwch presennol yng Nghymru a Lloegr.

Yng ngoleuni amllder cynyddol digwyddiadau seiber, rydym yn cefnogi argymhellion y Comisiwn i gryfhau diogelwch seilwaith. Byddwn yn adolygu'r ddeddfwriaeth berthnasol fel rhan o'r adolygiad ehangach o ddeddfwriaeth dŵr y byddwn yn ei gynnal fel rhan o'n hymateb i argymhelliad 8. Rydym hefyd yn awyddus i nodi camau ymarferol y gellir eu cymryd i fynd i'r afael â materion a llenwi bylchau'n wirfoddol, cyn newid deddfwriaethol.

Mae angen seilwaith dŵr mwy gwydn a diogel er mwyn parhau i ddiogelu iechyd y cyhoedd ac uniondeb amgylcheddol. Mae'r rhain yn faterion diogelwch gwladol ac rydym yn gwerthfawrogi gweithio ar y materion hyn gyda Llywodraeth y DU, yr

Arolygiaeth Dŵr Yfed ac asiantaethau arbenigol eraill. Rydym wedi ymrwymo i barhau i gydweithio â chymheiriaid yn y DU, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid yn y diwydiant i sicrhau bod seilwaith dŵr yng Nghymru yn gadarn, yn ddiogel ac yn addas ar gyfer y dyfodol. Ar y cyd â phartneriaid, ystyrir y ffordd orau o fwrw ymlaen â'r argymhellion hyn.

Bydd hyn yn cynnwys adolygu Protocolau Rhynglywodraethol i sicrhau trefniadau clir ar gyfer cydlynu protocolau diogelwch cenedlaethol a phrotocolau argyfwng ar draws ffiniau, gan gynnwys mecanweithiau ar gyfer cymorth ar y cyd rhwng Cymru a Lloegr i sicrhau'r trywydd.

7.3: Cyflenwi seilwaith

Mae darparu seilwaith dŵr yn amserol yn hanfodol ar gyfer disodli asedau sy'n heneiddio a chefnogi twf economaidd cynaliadwy, gan gynnwys tai a diwydiannau sy'n dod i'r amlwg fel hydrogen a chanolfannau data deallusrwydd artifisial (AI).

Nid oes unrhyw brosiectau cyflenwi dŵr mawr ar y gweill ar gyfer Cymru yn PR 2024. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd datblygiadau yn y dyfodol a newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar gyflenwad ac argaeledd gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff. Mae ein Cynllun ar gyfer y Dyfodol i Gymru yn blaenoriaethu datblygu mewn ardaloedd adeiledig presennol i leihau'r angen am ffynonellau dŵr newydd sylweddol. Mae'r dull hwn wedi'i gynllunio i leihau'r effaith ar yr amgylchedd a sicrhau bod adnoddau dŵr yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.

Mae'r Comisiwn yn argymhell gwelliannau mewn pedwar maes allweddol:

1. Cynllunio - Gwell cydlynu rhwng awdurdodau cynllunio lleol a cwmnïau dŵr.
2. Prosesau Rheoleiddio - Proses wneud penderfyniadau symlach ar gyfer prosiectau newydd.
3. Cydlynu'r Llywodraeth a Rheoleiddwyr - Cysoni cymorth rheoleiddiol â blaenoriaethau'r llywodraeth.
4. Arferion Safonol - Rhannu arferion gorau ar draws y diwydiant dŵr i hybu effeithlonrwydd.

Rydym yn cytuno â'r egwyddorion hyn a byddwn yn gweithio gydag awdurdodau cynllunio, rheoleiddwyr a'r diwydiant i wreiddio gwelliannau sy'n cefnogi twf a gwydnwch cynaliadwy.

Cynllunio

Mae'r Comisiwn wedi nodi bod angen integreiddio'r diwydiant dŵr yn well, yn Lloegr, i'r fframwaith cynllunio.

Argymhelliad 72 y Comisiwn

Dylid cryfhau rôl cwmnïau dŵr yn y broses gynllunio yn Lloegr i sicrhau bod ganddynt ddigon o olwg a dylanwad dros ddatblygiadau sydd ar y gweill. Dylid adolygu'r 'hawl i gysylltu'.

Argymhelliad ar gyfer Lloegr yn unig yw hwn. Mae rhai gwahaniaethau sylfaenol yn y prosesau cynllunio yng Nghymru a Lloegr. Yng Nghymru, defnyddir Cynlluniau Datblygu Lleol i nodi sut y dylid defnyddio tir a ble y dylid datblygu dros gyfnod penodol. Yn wahanol i Lloegr, mae cwmnïau Dŵr Cymru eisoes yn ymgylgoreion

statudol ar gyfer ceisiadau cynllunio, sy'n cynnwys ceisiadau unigol a datblygiadau tai mawr. Mae hyn wedi bod yn wir ers 2016.

Mae'r Comisiwn yn nodi ym mharagraff 9.35 yr Adroddiad ei fod yn deall bod ymgysylltu digonol â chwmnïau dŵr wrth ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol, ond mae'n awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn ystyried a ellid cryfhau rôl cwmnïau yn y broses.

Byddwn yn ymgysylltu ar y pwynt hwn â'r cwmnïau dŵr perthnasol ac awdurdodau lleol fel rhan o'r rhaglen ddiwygio ehangach.

Prosesau Rheoleiddio

Mae'r Comisiwn wedi nodi bod angen sicrhau nad yw'r broses gynllunio yn arafu'r gwaith o ddarparu seilwaith yn y diwydiant dŵr.

Cytunwn â'r teimladau a fynegwyd gan y Comisiwn yn yr Adroddiad. Yng Nghymru, mae camau eisoes wedi cael eu cymryd, fel y nodir isod, i helpu i sicrhau bod prosesau cynllunio'n cefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith.

Argymhelliad 73 y Comisiwn

Dylid diweddarau prosesau cynllunio yn Lloegr i gefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith y diwydiant dŵr yn amserol.

Yn Lloegr, mae'r fframwaith Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) yn cefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith dŵr newydd. O dan NSIP, mae prosiectau seilwaith sy'n cyrraedd trothwy penodol yn cael cydsyniad drwy Orchymyn Cydsyniad Datblygu yn hytrach na gan awdurdodau cynllunio lleol. Mae prosiectau NSIP yn cael eu hasesu yn unol â pholisi'r llywodraeth a nodir mewn Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar gyfer dŵr gwastraff ac ar gyfer adnoddau dŵr. Mae'r Comisiwn yn nodi yn ei Adroddiad y dylid adolygu a diweddarau'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar adnoddau dŵr a dŵr gwastraff yn Lloegr.

Rydym wedi ymrwymo i gyflymu'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer prosiectau seilwaith ar raddfa fawr, ar yr un pryd â sicrhau bod ein cymunedau'n cael cyfleoedd i gymryd rhan lawn yn y broses a bod ein hamgylchedd yn cael ei ddiogelu. Nid yw argymhelliad 73 yn berthnasol i Gymru, ac yr ydym eisoes wedi llunio deddfwriaeth i symleiddio a chyflymu'r broses gydsynio ar gyfer seilwaith arwyddocaol yng Nghymru, gan gynnwys prosiectau'r diwydiant dŵr.

Dechreuodd y broses hon gyda [Deddf Seilwaith \(Cymru\) 2024](#) sy'n sefydlu proses newydd ar gyfer cydsynio ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol yng Nghymru, gan gynnwys prosiectau ynni, gwastraff, dŵr a thrafnidiaeth. Rhoddwyd y system newydd ar waith ar 15 Rhagfyr. Mae'r pecyn o is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Ddeddf honno wedi'i gynllunio i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y broses cydsyniad seilwaith newydd yn diwallu anghenion yr holl randdeiliaid yng Nghymru.

Argymhelliad 74 y Comisiwn

Dylid diweddarau Hawliau Datblygu a Ganiateir (PDRs) ar gyfer cwmnïau dŵr yng Nghymru a Lloegr er mwyn lleihau maint y ddarpariaeth sy'n gofyn am ganiatâd cynllunio llawn.

Mae'r Adroddiad yn nodi bod y broses gynllunio bresennol yn golygu bod yn rhaid aros yn hir i brosiectau seilwaith syml gael eu cymeradwyo. Rhoddir nifer o

enghreiffiau gan gynnwys unedau monitro ansawdd dŵr neu orsafoedd pwmpio bach.

Mae'r Comisiwn yn nodi y gallai diweddarau'r Hawliau Datblygu a Ganiateir olygu na fydd prosiectau mwy angen caniatâd cynllunio ar gyfer elfennau bach o'r prosiect, a bod lleihau nifer yr elfennau prosiectau sydd angen caniatâd cynllunio yn caniatáu i gwmnïau ganolbwyntio eu hymdrechion a'u hadnoddau ar gyflawni prosiectau mwy a mwy cymhleth.

Fel y dangoswyd gan ein deddfwriaeth ddiweddar i symleiddio a chyflymu penderfyniadau cynllunio ar brosiectau seilwaith mawr (a amlinellir uchod), mae Gweinidogion Cymru yn uniaethu ag argymhellion sy'n symleiddio prosesau cynllunio.

Yn gynharach eleni, fe wnaethom ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i Hawliau Datblygu a Ganiateir. Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar bympiau gwres ffynhonnell aer, unedau gwefru cerbydau trydan oddi ar y stryd, gwersylloedd dros dro, peiriannau gwerthu gwrthdro, datblygiadau gan ymgymerydd statudol (trydan), a thai fforddiadwy brys a defnyddiau yn y cyfamser. Roedd hefyd yn gofyn am farn ar ddiwygio'r diffiniad o "ddatblygiad mawr" yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) 2012.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Gorffennaf 2025, ac mae swyddogion wrthi'n dadansoddi ymatebion i lywio'r camau nesaf. Bydd unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn cael eu hystyried ochr yn ochr â diwygiadau cynllunio ehangach yn ddiweddarach eleni a byddant yn cyd-fynd â chyfraith cynllunio Cymru a phwerau datganoledig. Rydym yn croesawu tystiolaeth ynghylch pa newidiadau pellach y dylid eu hystyried i Hawliau Datblygu a Ganiateir ar gyfer seilwaith dŵr, a hefyd ynghylch y mesurau diogelu sydd eu hangen i gydbwyso cyflawni'n gyflymach â diogelu'r amgylchedd, gan ymgysylltu â'r gymuned fel rhan o unrhyw ddiwygio ar Hawliau Datblygu a Ganiateir yn y dyfodol.

Cydlynu'r llywodraeth a'r rheoleiddwyr

Argymhelliad 75 y Comisiwn

Dylid ehangu a chryfhau RAPID, yng Nghymru a Lloegr, i gefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith strategol.

Nod Cynghrair y Rheoleiddwyr ar gyfer Cynnydd Datblygu Seilwaith (RAPID) yw cyflymu datblygiad prosiectau.

Dywedodd y Comisiwn fod RAPID ar hyn o bryd yn goruchwyllo prosiectau adnoddau dŵr, gan ddefnyddio proses adwyog, ac mae'n darparu momentwm tuag at sicrhau'r cydsyniadau a'r trwyddedau sydd eu hangen cyn dechrau adeiladu. Mae RAPID hefyd yn hwyluso sgysiau cynnar ynghylch ystyried opsiynau. Mae'r Comisiwn yn argymhell ehangu cylch gwaith RAPID i gynnwys dŵr gwastraff a phrosiectau strategol bwysig eraill, hyd yn oed os nad ydynt yn bodloni'r trothwyon presennol. Mae hefyd yn cefnogi rôl barhaus RAPID o ran cydlynu'r gwaith o ddarparu seilwaith mawr a helpu prosiectau i sicrhau'r trwyddedau angenrheidiol.

O ystyried ffocws cylch gwaith RAPID hyd yma, prin fu'r cyfle iddo ddatblygu opsiynau ar gyfer cwmnïau dŵr Cymru neu, sydd o fudd ehangach i Gymru - fel y cydnabu'r Comisiwn ei hun. Nid yw'n glir a fyddai ehangu yn newid y sefyllfa hon, felly mae ganddynt ddiddordeb ym marn rhanddeiliaid ynghylch a fyddai hyn yn ddymunol.

Mae RAPID yn cynnwys Ofwat, Asiantaeth yr Amgylchedd a DWI. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Natural England yn gweithredu fel cynghorwyr i RAPID, ond nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn aelod ffurfiol ac nid yw'n eistedd ar Fwrdd RAPID. Fodd bynnag, mae staff Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael eu secondio i raglen RAPID.

Mae'r rhain yn ystyriaethau pwysig wrth asesu a ddylid ehangu cylch gwaith RAPID yng Nghymru. Bydd unrhyw benderfyniad i ehangu RAPID yn amodol ar asesiad Llywodraeth Cymru o gymesuredd a chysondeb â chyfrifoldebau datganoledig. Rydym yn gofyn am farn ynghylch a fyddai ehangu RAPID yn arwain at fanteision i Gymru, ac os felly, pa fesurau diogelu fyddai eu hangen.

Ym mharagraff 947 o'i Adroddiad, mae'r Comisiwn yn nodi mai cyfyngedig fu'r ymgysylltu rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'r rhaglen RAPID bresennol ac mae'n argymhell mwy o gydgyssylltu â rheoleiddwyr yng Nghymru i sicrhau bod manteision y rhaglen yn cael eu gwireddu. Er bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwneud â nifer fach o opsiynau adnoddau strategol sy'n effeithio ar Gymru, mae cylch gwaith RAPID yn canolbwyntio'n bennaf ar fuddiannau Lloegr. Wrth edrych i'r dyfodol, bydd yn bwysig sefydlu trefniadau clir ar gyfer Cymru os bydd cynigion yn y dyfodol yn ceisio defnyddio adnoddau o Gymru i gefnogi prosiectau yn Lloegr. Rydym yn croesawu safbwyntiau ar sut y gallai trefniadau yn y dyfodol ddarparu ymgysylltiad cymesur a diogelu buddiannau Cymru os daw mwy o opsiynau adnoddau strategol sy'n effeithio ar Gymru i'r amlwg.

Arferion safonol

Mae'r Comisiwn wedi nodi y gallai cwmnïau dŵr elwa o ddull gweithredu mwy cydgysylltiedig ar draws y diwydiant. Gan nad yw rhai cwmnïau dŵr mewn sefyllfa dda i gyflawni prosiectau seilwaith mawr, mae angen hwyluso dull gweithredu mwy cydgysylltiedig i sicrhau bod arbenigedd ac arferion gorau yn cael eu rhannu. Yr ydym yn cefnogi'r syniad y gall arferion safonol ddod ag arbedion effeithlonrwydd i'r sector dŵr.

Argymhelliad 76 y Comisiwn

Dylai NISTA ystyried sut gallai'r diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr symud tuag at arferion safonol ac argymhell sut gellid datblygu hyn hefyd.

Mae NISTA (Awdurdod Cenedlaethol Seilwaith a Thrawsnewid Gwasanaethau) yn uned ar y cyd gan Lywodraeth y DU sy'n adrodd i Drysorlys EF a Swyddfa'r Cabinet. Ei rôl yw darparu goruchwyliaeth a sicrwydd ar gyfer prosiectau seilwaith mawr, hyrwyddo arferion gorau, a chefnogi effeithlonrwydd a gwydnwch ar draws sectorau. Yng nghyd-destun diwygio dŵr, byddai NISTA yn archwilio cyfleoedd ar gyfer safoni ac yn cynghori ar sut y gellid gweithredu hyn yn effeithiol.

Rydym yn gwerthfawrogi y gallai symud tuag at safoni dyluniadau gynyddu effeithlonrwydd cyflawni prosiectau seilwaith dŵr. Mewn meysydd eraill, rydym wedi cefnogi dulliau gweithredu o'r fath, er enghraifft Tai ar y Cyd, llyfr patrymau safonol ar gyfer tai cymdeithasol yng Nghymru, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â'r sector. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod cymhlethdod a natur benodol asedau'r diwydiant dŵr a hoffem weld unrhyw safoni, ynghyd â gwerthfawrogiad o'r angen am hyblygrwydd, yn ymateb i fanylion safle, ac i anghenion cymunedau.

Byddwn yn ystyried a oes angen fframwaith safoni penodol i Gymru ochr yn ochr â gwaith ar lefel y DU. Rydym yn croesawu safbwyntiau ar ba feysydd dylunio seilwaith dŵr allai elwa fwyaf o safoni yng Nghymru.

7.4: Monitro a sicrwydd darpariaeth seilwaith

Mae monitro darpariaeth seilwaith dŵr yn effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau hyder y cyhoedd yn y ffordd y mae biliau'n cael eu gwario. Ar gyfer PR 2024, cyflwynodd Ofwat ddau fframwaith monitro a sicrwydd ar gyfer darparu seilwaith dŵr. Mae'r Fframwaith Monitro Darpariaeth yn cwrdd Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol y Diwydiant Dŵr (Lloegr), a gwariant Cynllun yr Amgylchedd Cenedlaethol (Cymru). Nod Fframwaith y Cynllun Cyflawni yw olrhain cynnydd cwmnïau'n flynyddol tuag at gyflawni eu rhaglenni cyflawni. Mae Ofwat hefyd yn gofyn am sicrwydd ar lefel bwrdd cwmnïau dŵr ynghylch y gallu i gyflawni cynllun busnes pob cwmni. Mae hefyd yn defnyddio Elfennau i'w Cyflawni ar Reoli Prisïau i gymhell cyflawni'n brydlon a dychwelyd arian i gwsmeriaid os bydd prosiectau'n methu.

Fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi nodi nifer o bryderon:

- Arolygiadau rheolaidd annigonol a mecanweithiau gwan ar gyfer ymyrraeth gynnar.
- Fframweithiau cymhleth a darniog sy'n rhoi baich ar gwmnïau ac sy'n cuddio'r cynnydd cyffredinol o ran cyflawni.
- Darpariaeth gyfyngedig o gynnal a chadw cyfalaf sylfaenol, gan leihau sicrwydd ynghylch adnewyddu asedau.
- Efallai na fydd yr Elfennau i'w Cyflawni ar Reoli Prisïau yn gwarchod arian cwsmeriaid yn ddigonol a gallai lesteirio arloesedd.

Mae'r Adroddiad yn gwneud tri argymhelliad i wella atebolrwydd ac effeithiolrwydd:

Argymhelliad 77 y Comisiwn

Dylai'r fframweithiau sicrwydd cyflawni (Cynlluniau Cyflawni a Fframwaith Monitro Cyflawni) sy'n ymdrin â gwariant cyfalaf seilwaith ledled Cymru a Lloegr gael eu hadolygu yn ystod AMP8 a'u rhesymoli.

Argymhelliad 78 y Comisiwn

Dylid cwblhau adolygiad o'r fframwaith PCD presennol yng Nghymru a Lloegr cyn diwedd AMP8, i lywio fframwaith mwy cadarn a hyblyg, wedi'i osod yn fras ar lefel gwariant rhaglenni.

Argymhelliad 79 y Comisiwn

O dan y dull goruchwyllo, dylai'r rheoleiddiwr yng Nghymru a Lloegr roi sicrwydd ynghylch sut mae cwmni'n cyflawni gwariant seilwaith.

Rydym yn cytuno bod angen monitro a sicrhau darpariaeth seilwaith yn effeithiol er mwyn i'r cyhoedd fod yn hyderus bod eu biliau'n cael eu defnyddio i wella'r amgylchedd dŵr a gwasanaethau. Fodd bynnag, rydym yn poeni nad yw'r dull presennol bob amser yn gymesur nac yn adlewyrchu blaenoriaethau polisi Cymru. Wrth inni symud drwy'r cyfnod pontio, bydd yn bwysig gwahaniaethu rhwng yr hyn sydd bwysicaf i Gymru a, lle y bo'n briodol, sut y caiff ei fesur.

Rydym yn cefnogi cynlluniau i adolygu'r fframweithiau presennol ond byddem am i unrhyw allbynnau adlewyrchu anghenion a chyfeiriad Cymru o ran diwygio. Efallai y bydd hyn yn gofyn am system sy'n amlwg yn fwy gwahanol i'r system yn Lloegr.

Rydym yn croesawu barn ar sut y gellid cyflawni hyn mewn ffordd sy'n creu'r cymhellion cywir ar gyfer cyflawni ac sy'n rhoi sicrwydd rheoleiddiol.

7.5: Capasiti'r gadwyn gyflenwi a'r llafurlu

Mae cadwyni cyflenwi dibynadwy a gweithlu medrus yn hanfodol er mwyn darparu seilwaith dŵr a dŵr gwastraff. Mae'r diwydiant dŵr yn dibynnu'n drwm ar y sector adeiladu, ond mynegwyd pryderon ynghylch gweithlu sy'n heneiddio a chystadleuaeth am adnoddau gan ddiwydiannau eraill. Mae diffyg eglurder o ran cynllunio seilwaith tymor hir hefyd yn atal buddsoddiad yn y gadwyn gyflenwi y tu hwnt i gylch presennol yr Adolygiad Prisïau.

Mae rhai cwmnïau dŵr wedi cwestiynu a allai'r gwariant presennol yn y diwydiant dŵr fod yn fwy na capasiti'r gadwyn gyflenwi. O ganlyniad, mae'r Comisiwn wedi pwysleisio'r angen i gwmnïau ddangos bod ganddynt y gallu yn y gweithlu a'r gadwyn gyflenwi i fodloni gofynion seilwaith yn y dyfodol.

Mewn ymateb i'r pryderon hyn, mae'r Comisiwn yn gwneud tri argymhelliad sy'n canolbwyntio ar wella capasiti'r gadwyn gyflenwi:

Argymhelliad 80 y Comisiwn

Dylai'r rheoleiddwyr a'r cynllunwyr systemau, yng Nghymru a Lloegr, gynnal asesiad o anghenion cyflenwi seilwaith y diwydiant dŵr ar y cyd yn erbyn asesiad o gapasiti'r gadwyn gyflenwi.

Mae'r Adroddiad yn argymhell y dylai cydlynnydd cenedlaethol cynllunwyr systemau rhanbarthol yn Lloegr gyhoeddi dangosfwrdd cenedlaethol sy'n amlinellu gofynion y gadwyn gyflenwi bob pum mlynedd, yn unol â'u cynlluniau rhanbarthol ac ochr yn ochr â dull tebyg gan y cynllunydd systemau cenedlaethol yng Nghymru. Hefyd, dylai Strategaethau Dŵr Cenedlaethol Cymru a'r DU amlinellu gweledigaeth 25 mlynedd lefel uchel ar gyfer blaenoriaethau'r sector dŵr. Mae'n dangos y byddai'r rhagolwg tymor hir hwn yn helpu i leihau ansicrwydd ac yn annog buddsoddiad yn y sgiliau a'r capasiti sydd eu hangen ar draws y gadwyn gyflenwi i gefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd mapio anghenion seilwaith yn erbyn capasiti'r gadwyn gyflenwi ac yn cytuno, mewn egwyddor, â'r argymhelliad. Ar hyn o bryd, nid oes gan y diwydiant dŵr un mecanwaith sy'n nodi anghenion seilwaith hirdymor ac yn asesu a oes modd cyflawni'r gofynion ar y gadwyn gyflenwi. Rydym yn gweld yr argymhelliad hwn yn cael ei arwain ar wahân yng Nghymru a Lloegr ond yn cael ei gefnogi gan ymgysylltu priodol, yn hytrach na gweithio tuag at un asesiad ar y cyd. Rydym yn croesawu barn ar hyn ac unrhyw drefniadau dros dro priodol.

Ar ben hynny, rydym yn credu y dylai cryfhau capasiti'r gadwyn gyflenwi hefyd gyfrannu at dwf a chreu swyddi cynaliadwy sy'n talu'n dda mewn cymunedau ledled Cymru, gan gefnogi ffyniant a gwydnwch lleol.

Argymhelliad 81 y Comisiwn

Dylai cwmnïau dŵr, drwy Water UK, rannu arferion gorau ar gontractau cyflenwyr a strategaethau caffael i helpu i wella perthynas cwmnïau dŵr â'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru a Lloegr.

Rydym yn cytuno â'r argymhelliad hwn. Mae'n amlwg o'r Adroddiad bod tystiolaeth o arferion da yn y maes hwn y dylid eu rhannu. Byddwn yn ymgysylltu â chwmnïau dŵr

yng Nghymru i'w hannog i gymryd rhan mewn unrhyw drefniadau y gallai Water UK eu rhoi ar waith.

Argymhelliad 82 y Comisiwn

Dylai'r rheoleiddiwr, o dan ei swyddogaeth oruchwylio, gael sicrwydd pellach gan gwmnïau yng Nghymru a Lloegr ynghylch y gweithlu a chadwyni cyflenwi i sicrhau bod cwmnïau'n gallu cyflawni'n ddigonol.

Fel rhan o'i waith, mae Ofwat yn craffu ar gynllunio'r gweithlu a chapasiti, ond mae'r Adroddiad yn dangos bod y cwmnïau dŵr yn aml yn ystyried nad yw ei waith craffu yn drylwyr.

Wrth symud ymlaen, rydym yn cytuno y dylai'r rheoleiddiwr barhau i fynnu bod cwmnïau dŵr yn sicrhau cynlluniau cyflawni, gan gynnwys o ran y gweithlu a chadwyni cyflenwi. Dylai gwybodaeth a gesglir gan y rheoleiddiwr mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu gael ei rhannu â Llywodraeth Cymru i wella ein llif sgiliau a hyfforddiant. Dylid hefyd ei rhannu â sefydliadau perthnasol eraill fel y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr).

Cytunir hefyd, mewn egwyddor, y dylai'r rheoleiddiwr fabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg, gan ofyn am ragor o wybodaeth a chraffu ychwanegol lle mae cwmnïau wedi wynebu heriau yn y maes hwn o'r blaen. Mae hwn yn ddull cymesur a fydd yn sbarduno gwelliant gan y bydd yn rhaid i gwmnïau ddangos eu bod yn ystyried anghenion y gweithlu nawr ac yn y dyfodol ac a ydynt yn gallu cyflawni gweithgareddau busnes fel arfer ac anghenion seilwaith yn y dyfodol. Rydym yn croesawu barn ar yr argymhelliad hwn.

7.6: Arloesi a thechnoleg

Fel y nodwyd yn yr Adroddiad, mae arloesi'n hanfodol er mwyn gwella cynhyrchiant yn y diwydiant dŵr, gwella ansawdd gwasanaethau, a lleihau biliau cwsmeriaid. Fodd bynnag, yn ôl asesiad y Comisiwn, ers 2008 mae twf cynhyrchiant wedi arafu'n sylweddol, ac er gwaethaf ymdrechion Ofwat, y llywodraeth a chwmnïau dŵr, mae arloesedd yn dal yn gyfyngedig oherwydd nifer o heriau allweddol:

- Mae osgoi risg a chyfyngiadau rheoleiddiol yn llesteirio arbrofi a dulliau newydd.
- Cyllid cyfyngedig, gyda phryderon bod Cronfa Arloesi Ofwat yn rhy fach ac y gallai ffafrio cwmnïau mwy.
- Diffyg cydweithio, yn rhannol oherwydd nad yw meincnodi cystadleuol yn annog rhannu gwybodaeth.
- Cylchoedd cynllunio tymor byr, sy'n lleihau cymhellion ar gyfer atebion arloesol, tymor hir.

Mae'r Comisiwn yn credu ei bod yn hanfodol mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn, yn enwedig o ran risg, cyllid a chydweithio. Mae'r Adroddiad hefyd yn cefnogi mesurau fel rheoleiddio ar sail canlyniadau a mwy o ddefnydd o dechnoleg i annog arloesi yn y sector.

Gan adlewyrchu ein hymrwymiad i arloesi, rydym yn cefnogi ymdrechion i feithrin cydweithio, datgloi cyllid, ac annog meddwl hirdymor ar draws y sector dŵr i sicrhau seilwaith gwydn sy'n edrych tua'r dyfodol. Mae arloesi yn y diwydiant dŵr hefyd yn hanfodol ar gyfer twf mewn cynhyrchiant ac mae ganddo'r potensial i leihau biliau cwsmeriaid a hwyluso canlyniadau o ansawdd gwell. Fodd bynnag, rydym yn

awyddus i nodi'r camau ymarferol a all gefnogi hyn wrth weithio tuag at y dull o lywodraethu'r sector dŵr a amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad.

Mae'r Adroddiad yn gwneud tri argymhelliad:

Argymhelliad 83 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gyflwyno blychau tywod rheoleiddiol strwythuredig i gefnogi'r defnydd o arloesedd.

Mae blychau tywod rheoleiddiol yn amgylcheddau rheoledig sy'n caniatáu i gwmnïau brofi technolegau, prosesau neu ddulliau newydd o dan fframwaith rheoleiddio wedi'i addasu, heb fod yn ddarostyngedig i'r baich rheoleiddio llawn. Maent yn darparu hyblygrwydd ar gyfer arloesi ar yr un pryd â chynnal mesurau diogelu ar gyfer iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd.

Rydym yn cefnogi'r egwyddor dros ddefnyddio blychau tywod rheoleiddio i alluogi cwmnïau dŵr i arbrofi â chysyniadau newydd a dulliau arloesol gan nodi bod hwn yn ddull sydd wedi bod yn effeithiol mewn sectorau eraill. Cytunir bod ganddynt y potensial i alluogi archwilio technolegau newydd neu ffyrdd newydd o weithio heb fod yn ddarostyngedig i'r baich rheoleiddio llawn. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru bwerau arbrofol yn barod, a bydd yn bwysig mynd i'r afael â hyn nid yn unig drwy newid deddfwriaethol ond drwy sicrhau eglurder pwrpas a chytundeb ar gwmpas ac uchelgais.

Mae rhywfaint o dystiolaeth eisoes fod hyn yn digwydd yng Nghymru. Er enghraifft, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru benderfyniad rheoleiddio i ganiatáu defnyddio elifion terfynol wedi'u trin yn drydyddol mewn ymateb ar frys i danau lle'r oedd adnoddau dŵr cyfagos yn wedi eu disbyddu. Cytunwyd ar hyn gyda chymorth gan lechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddangos sut y gellir galluogi arloesi'n ddiogel o dan amodau rheoledig.

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, Ofwat a chwmnïau dŵr yng Nghymru i drafod beth allai weithio i Gymru. Fodd bynnag, fel yr awgrymir yn yr Adroddiad, bydd angen gwneud gwaith i benderfynu a fyddai angen diwygio'r fframwaith deddfwriaethol presennol i gefnogi mwy o ddefnydd o flychau tywod rheoleiddiol neu a fyddai gweithredu o fewn disgresiwn cyfyngedig yn rhoi digon o hyblygrwydd.

Argymhelliad 84 y Comisiwn

Dylai'r rheoleiddiwr yng Nghymru a Lloegr ystyried a yw mecanweithiau cyllido arloesol ar gyfer y diwydiant dŵr yn ddigonol ac yn effeithiol.

Mae'r Adroddiad yn nodi y dylai'r rheoleiddiwr gynnal adolygiad llawn o effeithiolrwydd Cronfa Arloesi Ofwat i sicrhau bod y Gronfa'n gweithio'n effeithiol ochr yn ochr ag argymhellion arloesi eraill. Rydym wedi nodi bod rhai cwmnïau dŵr wedi mynegi'r angen am fwy o gyllid ar gyfer arloesi ac y gallai natur gystadleuol y Gronfa fod o fantais i gwmnïau mwy sy'n perfformio'n well. Mae'n arwyddocaol bod yr Adroddiad yn cofnodi (ym mharagraff 1007) bod rhwng 78% ac 87% o'r cyllid wedi cael ei ddyfarnu i'r un pum cwmni dŵr yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Byddai gennym ddiddordeb yng nghanlyniadau adolygiad Ofwat ac yna mewn cael cyfle i ystyried beth fyddai'r mecanwaith gorau i gefnogi arloesedd yn y dyfodol a sut y dylai hynny weithredu o fewn system reoleiddio economaidd ar wahân i Gymru. Rydym hefyd o'r farn y dylai unrhyw ddull gweithredu yn y dyfodol gynnwys goruchwyliaeth dechnegol gryfach i sicrhau bod cynigion yn sicrhau gwerth am arian.

Mae gwell gwybodaeth am brofi cysyniad eisoes yn bodoli o arloesi mewn sectorau eraill ac yn rhyngwladol, a dylai hyn lywio penderfyniadau ar gyllido a blaenoriaethu. Rydym yn croesawu barn ar sut y gellid cymhwyso'r egwyddorion hyn yng Nghymru.

O ystyried rôl Medr mewn perthynas ag arloesi, byddwn hefyd yn edrych ar ba rôl y gallai ei chwarae, yn enwedig mewn perthynas â dulliau datblygu sgiliau.

Argymhelliad 85 y Comisiwn

Dylai cwmnïau dŵr weithio gyda Water UK i ledaenu'r hyn a ddysgwyd o arloesi ar draws y diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr.

Cydnabyddir y gall y model rheoleiddio presennol, gyda meincnodi cymharol, atal cwmnïau dŵr rhag rhannu gwybodaeth ac arferion gorau, gan gynnwys ar gyfer arloesi. Fodd bynnag, mae enghreifftiau presennol o arfer da yn y maes hwn y gellir adeiladu arnynt.

Cytunwn â'r argymhelliad hwn, sy'n gam cadarnhaol. Mae manteision clir i gydgrynhoi a rhannu arferion gorau a fydd yn cefnogi'r gwaith o nodi heriau sy'n dod i'r amlwg a hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu atebion ar y cyd. Rydym yn croesawu barn ar sut y gellir cyflawni hyn yn effeithiol.

Pennod 8: Sicrhau Newid - Y Cyfnod Pontio a Gweithredu yng Nghymru

Mae'r Adroddiad yn amlinellu rhaglen ddiwygio drawsnewidiol, unwaith mewn cenhedlaeth ar gyfer y sector dŵr, gyda'r nod o ddarparu gwasanaethau teg, canlyniadau amgylcheddol a chynaliadwyedd hirdymor.

Ni ddylid tanbrizio maint y newid a ragwelir. Mae'n cwmpasu polisi, cynllunio, rheoleiddio a darpariaeth, ac mae iddo oblygiadau ar draws y system ddŵr ehangach a sectorau cysylltiedig.

Rydym eisoes wedi dechrau ar raglen i fwrw ymlaen â'r gwaith, gan weithio gyda Llywodraeth y DU, rheoleiddwyr, cwmnïau dŵr ac yn awr, drwy'r Papur Gwyrdd, yn ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid ehangach. Bydd gweithredu llwyddiannus yn gofyn am gynllunio gofalus, ymrwymiad parhaus gan yr holl rhanddeiliaid, a fframwaith clir a chydlynol i reoli'r newid yn effeithiol.

Her allweddol yw sicrhau bod modd gwneud cynnydd heb greu ansicrwydd neu ansefydlogrwydd diangen i gwsmeriaid, cwmnïau, buddsoddwyr neu reoleiddwyr. Felly, rhaid rheoli'n bwrpasol y cyfnod cyn bod y newidiadau'n dod i rym yn llawn, gan gynnal goruchwyliaeth reoleiddiol a bod y cyfrifoldebau a'r warchodaeth statudol presennol yn parhau i fod ar waith. Bydd cyd-gynllunio'r broses pontio a'r cyfeiriad interim yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi'r ddarpariaeth drwy'r cyfnod adolygu prisiau nesaf, gan gynnig eglurder a hyder yn ystod y cyfnod pontio.

Mae'r bennod hon yn nodi sut y gellid rheoli newid a darparu dilyniant dros amser i drefniadau dŵr yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'n canolbwyntio ar ystyriaethau ymarferol y broses pontio, gan gydnabod yr angen am sefydlogrwydd, cydlyniant a thryloywder, a chydabod y bydd amserlenni a threfniadau yng Nghymru a Lloegr yn wahanol. Felly, rhaid i'r broses pontio yng Nghymru adlewyrchu ei chyd-destun, ei blaenoriaethau a'i fframwaith deddfwriaethol penodol.

Gan gydnabod yr heriau hyn, mae'r Comisiwn yn gwneud nifer fach o argymhellion pellach sy'n canolbwyntio'n benodol ar y cyfnod pontio a gweithredu. Bwriad yr argymhellion hyn yw cefnogi darpariaeth effeithiol, cynnal hyder yn ystod cyfnodau o newid, a sicrhau y gellir gwneud gwelliannau hirdymor heb danseilio sefydlogrwydd. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar yr argymhellion hyn ac ar sut y dylid rheoli'r broses pontio a gweithredu'n ymarferol.

Argymhelliad 86 y Comisiwn

Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru amlinellu cynlluniau pontio ar gyfer rheoleiddwyr, y diwydiant dŵr a buddsoddwyr fel rhan o'u hymateb i'r adroddiad hwn.

Mae cynllun pontio yn hanfodol er mwyn cynnal hyder y cyhoedd ac ymddiriedaeth buddsoddwyr yn ystod cyfnod o newid. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydweithio i lunio cynllun pontio ar y cyd. Fodd bynnag, gan fod y sector dŵr yng Nghymru yn gweithredu mewn cyd-destun gwahanol, bydd y cynllun pontio yn nodi'n glir lle bydd dulliau gweithredu gwahanol yn cael eu defnyddio.

Wrth ddatblygu a gweithredu'r cynllun, byddwn yn defnyddio dull cydweithredol gyda'r diwydiant, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid i ddylunio a gweithredu unrhyw ddiwygiadau neu bolisïau dros dro, gan gynnwys Datganiad Polisi Strategol dros dro gan sicrhau amser a lle i ddarparu system sy'n addas i'r diben.

Mae'n bwysig cydnabod bod yr amserlenni ar gyfer newid yng Nghymru ac yn Lloegr yn wahanol. Yng Nghymru, rydym yn rhagweld y bydd hyn yn digwydd mewn tri cham:

- Cam 1 Newid deddfwriaethol: 2026 i tua 2028 / 2029.
- Cam 2 Sefydlu rheoleiddiwr economaidd newydd i Gymru a swyddogaeth cynllunio system ar gyfer dŵr: 2028 - dechrau'r 2030au.
- Cam 3 Rheoleiddiwr economaidd ar gyfer dŵr wedi'i sefydlu ac ymgymryd â'r rôl: canol y 2030au ymlaen.

Mae hyn yn golygu, yng Nghymru, y rhagwelir, yn y tri cham newid a amlinellir uchod, y bydd dau gyfnod pontio i ddelio â nhw a byddwn yn darparu cyfeiriad clir ac yn gosod disgwyliadau drwy'r ddau gyfnod hyn, gan baratoi'r ffordd ar gyfer diwygio a sicrhau bod swyddogaethau craidd yn parhau i gael eu cyflawni gan yr holl reoleiddwyr a bod sicrwydd rheoleiddiol i Gymru yn cael ei ddarparu drwy'r adeg.

Mae'n debygol mai'r ddau gyfnod pontio fydd:

- Yn gyntaf, y cyfnod o 2026 lle mae Ofwat yn ystyried ac yn ymateb i Gynllun Pontio ar y cyd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac yn cefnogi sefydlu rheoleiddiwr integredig newydd, yn bennaf ar gyfer Lloegr. Er mwyn sicrhau nad oes bwlch mewn goruchwyliaeth reoleiddiol ar gyfer cwmnïau dŵr yng Nghymru, bydd rhaid i Ofwat, ac unrhyw reoleiddiwr integredig dilynol barhau i ddarparu swyddogaethau rheoleiddio economaidd i Gymru, gan gynnwys cynnal yr adolygiad prisiau a bennwyd yn 2029. Rhagwelir y bydd y cyfnod hwn yn parhau hyd nes y gwneir deddfwriaeth i greu rheoleiddiwr i Gymru.
- Yn ail, y cyfnod o pan fydd deddfwriaeth y Senedd i sefydlu rheoleiddiwr economaidd newydd ar gyfer dŵr yng Nghymru yn cael ei phasio (sy'n debygol o fod ar ddiwedd y 2020au) a phan fydd y rheoleiddiwr economaidd newydd ar gyfer dŵr yng Nghymru yn cael ei sefydlu, yn dod yn weithredol ac yn cymryd cyfrifoldeb dros y swyddogaethau mae Ofwat yn eu cyflawni yng Nghymru ar hyn o bryd (amcangyfrifir y bydd hynny ganol y 2030au).

Yn ogystal â Chynllun Pontio ar y Cyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a fydd yn arwain y dull gweithredu yng Ngham 1, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi Datganiad Polisi Strategol i Ofwat i lywio ei dull gweithredu ar gyfer PR29 yng Nghymru. Mae hyn yn debygol o gael ei ategu gan ganllawiau pellach wrth i'r diwygio fynd rhagddo.

Bydd y cynllun pontio yn cael ei gyhoeddi ddechrau 2026.

Argymhelliad 87 y Comisiwn

Er mwyn sicrhau cydweithio effeithiol yn ystod gweithredu, dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sefydlu grŵp cynghori ar weithredu ar gyfer Cymru a Lloegr.

Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Ein bwriad yw adeiladu ar y Concordat presennol a sefydlu fframweithiau ar gyfer gweithio trawsffiniol wrth i ni fwrw ymlaen â'r broses pontio.

Fel sy'n amlwg o weddill y ddogfen, mae angen cynlluniau gwaith mawr ym mhob un o'r meysydd a amlinellir yn yr Adroddiad. Bydd mecanweithiau llywodraethiant a chynghori addas yn cael eu rhoi ar waith wrth i ni gyflawni'r ffrydiau gwaith gofynnol. Rydym yn dylunio mecanweithiau llywodraethiant a chynghori i gefnogi'r gwaith o

gyflawni ffrydiau gwaith mawr, yn ddelfrydol o fewn y 12 mis nesaf. Bydd cwmpas y ffrydiau gwaith hyn yn cael ei lywio gan adborth o'r ymgynghoriad hwn.

Argymhelliad 88 y Comisiwn

Dylid cynnal adolygiad annibynnol o'r dilyniant i adroddiad y Comisiwn ymhen 2 flynedd

Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Yn hytrach nag adolygiad ffurfiol, ein bwriad yw bod yn dryloyw ynghylch y camau rydym yn eu cymryd fel rhan o'n rhaglen diwygio dŵr, gyda phwyslais cryf ar ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid. Byddwn yn cyhoeddi dogfennau strategol fel cynlluniau pontio, crynodebau o ymatebion i'r Papur Gwyrdd hwn, ac yn ymgynghori ar Bapur Gwyn a fydd yn amlinellu cynigion deddfwriaethol yn fanylach. Rydym yn croesawu safbwyntiau ynghylch a fyddai goruchwyliaeth annibynnol ychwanegol yn ychwanegu gwerth yn ystod y cyfnod hwn.

Geirfa

Byrfodd	Diffiniad
Cyfarwyddiadau 2016	Cyfarwyddiadau Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Pysgod Cregyn (Cymru a Lloegr) 2016
AD	Treulio Anaerobig
AI	Deallusrwydd Artiffisial
BAT	Technegau Gorau Sydd ar Gael - Y dulliau mwyaf effeithiol ac arloesol o atal neu leihau allyriadau ac effeithiau amgylcheddol gweithgareddau diwydiannol. Mae'r Technegau Gorau Sydd ar Gael yn cynnwys y dechnoleg sy'n cael ei defnyddio a'r ffordd mae gosodiad yn cael ei ddylunio, ei adeiladu, ei weithredu a'i gynnal a'i gadw. Mae 'Ar gael' yn golygu technegau a ddatblygwyd ar raddfa sy'n caniatáu gweithredu ymarferol o dan amodau sy'n ymarferol yn economaidd ac yn dechnegol. Mae "gorau" yn golygu cyflawni lefel uchel o ddiogelwch amgylcheddol yn gyffredinol. Mae'r Technegau Gorau Sydd ar Gael yn sail gyfreithiol ar gyfer gosod amodau trwyddedau a therfynau allyriadau o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol a'r Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol.
BRM	Marchnad Adwerthu Busnes, y farchnad adwerthu dŵr gystadleuol sydd ar agor i fusnesau, elusennau a sefydliadau sector cyhoeddus yn Lloegr.
Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd	adran annibynnol anweinidogol o Lywodraeth y DU sy'n gweithio ar gystadleuaeth a diogelu defnyddwyr.
y Comisiwn	Comisiwn Dŵr Annibynnol
Defra	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff	cynlluniau strategol hirdymor cydweithredol sy'n tynnu sylw at y risgiau hysbys a disgwylidig i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth.
DWI	Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed, a ffurfiwyd yn 1990 i ddarparu sicrwydd annibynnol bod cyflenwadau dŵr yng Nghymru a Lloegr yn ddiogel a bod ansawdd dŵr yfed yn dderbyniol i gwsmeriaid.
Bil Egwyddorion yr Amgylchedd	Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)
Statws Ecolegol Da	yr amcan diodyn ar gyfer pob corff dŵr sy'n cael ei osod gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, sy'n cael ei ddiffinio fel amrywiad bach o amodau nad oes neb wedi tarfu arnynt.
HRA	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
Medr	Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
MSWIP	Datganiad y Gweinidog o Flaenoriaethau'r Diwydiant Dŵr
NAVs	Mae Penodiadau ac Amrywiadau Newydd (NAVs) yn gwmnïau cyfyngedig sy'n darparu gwasanaeth dŵr a/neu garthffosiaeth i gwsmeriaid mewn ardal a oedd yn arfer cael ei ddarparu gan y darparwr monopoli presennol.

NICW	Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, corff cynghori annibynnol sy'n darparu argymhellion ar anghenion seilwaith Cymru, gan ganolbwyntio ar gynllunio tymor hir a gwydnwch hinsawdd.
NIS	Rheoliadau Rhwydweithiau a Systemau Gwybodaeth 2018, sy'n darparu mesurau cyfreithiol i roi hwb i lefel diogelwch (gwydnwch ffisegol a seiber) rhwydweithiau a systemau gwybodaeth ar gyfer darparu gwasanaethau hanfodol a gwasanaethau digidol.
NISTA	Mae Awdurdod Cenedlaethol Seilwaith a Thrawsnewid Gwasanaethau, olynedd y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol, yn asiantaeth gyhoeddus sy'n cynghori Llywodraeth y DU ar ddarparu a gwella seilwaith.
NRW	Cyfoeth Naturiol Cymru, corff a noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal a'u defnyddio'n gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol.
NSIP	Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd
Cymhellion Cyflawni Canlyniadau	taliadau ariannol i gwmnïau dŵr gan gwsmeriaid am berfformio y tu hwnt i'w lefelau gwasanaeth ymrwymedig neu daliadau gan gwmnïau i gwsmeriaid am danberfformio.
Ofwat	yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr, un o adrannau anweinidogol y llywodraeth a sefydlwyd yn 1989 pan breifateiddiwyd y diwydiant dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr.
OTC	Cytundeb Technegol Gweithredol
PFAS	sylweddau perffflworoalcyl a polyfflworocyl, sef grŵp o gemegion dynol y cyfeirir atynt yn aml fel "cemegion am byth".
Adolygiad Prisiau	y broses a ddefnyddir gan gwmnïau dŵr i nodi eu cynlluniau ar ddechrau pob Cyfnod Rheoli Asedau ar gyfer yr hyn y byddant yn ei gyflawni a faint y byddant yn ei godi ar gwsmeriaid.
PR24	Adolygiad Prisiau 2024
PR29	Adolygiad Prisiau 2029
PR34	Adolygiad Prisiau 2034
QAA	Asesiad Uchelgais Ansawdd
RAPID	Cynghrair y Rheoleiddwyr ar gyfer Cynnydd Datblygu Seilwaith, partneriaeth o 3 rheoleiddiwr dŵr – Ofwat, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed.
Yr Adroddiad	Y Comisiwn Dŵr Annibynnol, Adroddiad Terfynol, 21 Gorffennaf 2025
Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd	Nodi amcanion amgylcheddol gorfodi sy'n benodol i'r ardal ac sy'n sail i weithgareddau cynllunio a rheoleiddio dŵr.
Basn Afon	yr ardal o dir y mae'r holl ddŵr ffo wyneb yn llifo ohoni drwy ddilyniant o nentydd, afonydd a llynnoedd i'r môr mewn un aber.
Ardal Cadwraeth Arbennig	Rhwydwaith o safleoedd cadwraeth y mae gweinidogion y DU a Chymru yn eu dynodi o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, a fydd yn gwneud cyfraniad sylweddol at warchod cynefinoedd a rhywogaethau allweddol.
SAR	Trefn Gweinyddiaeth Arbennig

SEMD	Cyfarwyddyd Mesurau Brys a Diogelwch 2024, cyfarwyddyd Gweinidogol i ymgymrwyr dŵr a charthffosiaeth a thrwyddedeion cyflenwad dŵr yng Nghymru a Lloegr.
Datganiad Polisi Strategol	Cyhoeddir gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU unwaith fesul cyfnod Adolygu Prisïau i arwain Ofwat ar ei flaenoriaethau a'i amcanion strategol wrth gyflawni ei swyddogaethau perthnasol mewn perthynas â'r diwydiant dŵr.
SUiAR	Rheoliadau Slwtsh (Defnydd Amaethyddol) 1989
UWWTR 1994	Rheoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol 1994
WACC	Cost Cyfalaf Cyfartaledd Pwysedig yw cost cyfalaf cyfartalog cwmni ar ôl treth o bob ffynhonnell, gan gynnwys stoc gyffredin, stoc ddewisol, bondiau, a mathau eraill o ddyled.
WFD	Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, a gyflwynodd fframwaith Cynllun Rheoli Basnau Afonydd i helpu i ddiogelu a gwella iechyd ecolegol ein hafonydd, ein llynnoedd, ein haberoedd a'n dyfroedd arfordirol a dŵr daear.
Rheoliadau WFD	Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr	sut mae cwmnïau dŵr yn bwriadu sicrhau cyflenwad diogel o ddŵr, diogelu'r amgylchedd a chreu amgylchedd gwell.

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Gall ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu cyhoeddi. Bydd eich ymateb yn ddienw.

Fodd bynnag, os hoffech i'ch enw gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'ch ymateb, ticiwch y blwch.

☐ Rwy'n cytuno i'm henw gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'm hymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Pennod 1: Ein Cyfeiriad Strategol ar gyfer Dŵr yng Nghymru

Cwestiwn 1: Pa ffactorau neu feysydd blaenoriaeth y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried wrth bennu cyfeiriad strategol y system ddŵr yng Nghymru?

Cwestiwn 2: Beth yw'r ffordd orau i'r Fforwm Adolygu Prisïau a Datganiad Gweinidogol posibl o Flaenoriaethau'r Diwydiant Dŵr gefnogi tryloywder a chyflawni effeithiol? Os caiff ei gyflwyno, pa flaenoriaethau ddylai Datganiad Gweinidogol o Flaenoriaethau'r Diwydiant Dŵr eu cynnwys?

Cwestiwn 3: Pa gerrig milltir neu fecanweithiau adolygu y dylid eu cynnwys yn y cyfeiriad strategol i sicrhau atebolrwydd a chysondeb â blaenoriaethau Cymru?

Pennod 2: Cynllunio Gyda'n Gilydd ar gyfer System Ddŵr Wydn yng Nghymru

Cwestiwn 4: Ydych chi'n cefnogi sefydlu Swyddogaeth Cynllunio System Genedlaethol ar gyfer y sector dŵr yng Nghymru? Ble ddylai fod, o fewn y rheoleiddiwr economaidd newydd, fel corff annibynnol, neu wedi'i integreiddio i swyddogaethau eraill Llywodraeth Cymru neu gyrff hyd braich?

Cwestiwn 5: Sut dylai cylchoedd cynllunio buddsoddi'r diwydiant dŵr (e.e. 5, 10 a 25 mlynedd) gydbwysu fforddiadwyedd, gwydnwch a blaenoriaethau amgylcheddol?

Cwestiwn 6: Beth, yn eich barn chi, yw'r gwerth ychwanegol y gallai dull cynllunio system ei gynnig? Beth fyddai eich blaenoriaethau ar gyfer ei weithredu yng Nghymru?

Cwestiwn 7: Sut dylid rheoli'r berthynas drawsffiniol â Lloegr?

Pennod 3: Moderneiddio ein Fframwaith Deddfwriaethol yng Nghymru

Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno bod angen diwygio'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer dŵr yng Nghymru? Pa feysydd y dylid eu blaenoriaethu i'w hadolygu, a pham?

Cwestiwn 9: A ddylid ymgorffori canlyniadau iechyd y cyhoedd ac atebion sy'n seiliedig ar natur mewn deddfwriaeth dŵr yn y dyfodol?

Cwestiwn 10: Pa ddatblygiadau arloesol neu ddulliau gorfodi allai gryfhau cydymffuriad ar gyfer dŵr gwastraff a draenio?

Pennod 4: Cryfhau Rheoleiddio ac Atebolrwydd Dŵr Cymru

Cwestiwn 11: Yn amodol ar roi pwerau galluogi i Lywodraeth Cymru, ydych chi'n cytuno â'r cynnig i sefydlu rheoleiddiwr economaidd annibynnol newydd ar gyfer dŵr yng Nghymru?

Cwestiwn 12: Pa egwyddorion llywodraethiant ddylai fod yn sail i ddyluniad rheoleiddiwr economaidd Cymru, a sut dylai ei ddull goruchwyllo gydbwysu goruchwyliaeth â hyblygrwydd ar gyfer arloesi?

Cwestiwn 13: Pe na bai pwerau galluogi'n cael eu rhoi gan Lywodraeth y DU, pa newidiadau y byddai eu hangen i'r cynlluniau a gynigir gan Lywodraeth y DU?

Pennod 5: Sicrhau Canlyniadau Gwell - Diwygio Rheoleiddio yng Nghymru

Cwestiwn 14: Pa newidiadau i ymrwymadau perfformiad a chymhellion cyflawni canlyniadau y dylid eu blaenoriaethu?

Cwestiwn 15: Sut gellir gweithredu camau gorfodi a monitro digidol yn fforddiadwy i gwsmeriaid yng Nghymru, a pha gamau allai gryfhau hunan-fonitro ymysg gweithredwyr ar yr un pryd â chynnal hyder mewn cydymffurfio?

Cwestiwn 16: Sut dylid defnyddio sancsiynau sifil a phwerau gorfodi yn gymesur?

Cwestiwn 17: A ydych yn cytuno bod angen rheolaeth reoleiddio fwy llym ar daenu carthion a slwtsh tanciau carthion ar dir yng Nghymru?

- Ydw - Pam ydych chi'n meddwl bod angen tynhau goruchwyliaeth reoleiddiol? Rhwch dystiolaeth os oes modd
- Nac ydw - Pam nad ydych chi'n meddwl bod angen tynhau goruchwyliaeth reoleiddiol?

Os ydych chi, pa opsiwn sydd fwyaf priodol yn eich barn chi? (Dewiswch UN):

- Opsiwn 1: Rhoi rheolaeth EPR iawn
- Opsiwn 2: Dull gwirfoddol gan addasu'r Cynllun Sicrwydd Biosolidau a'r Cod Ymarfer
- Opsiwn 3: Rheolaeth EPR gydag addasiad cydnabyddiaeth ar sail perfformiad

- Opsiwn 4: Diwygio Rheoliadau Defnyddio Slwtsh mewn Amaethyddiaeth a'u hategu â Chynllun Sicrwydd Biosolidau sydd wedi'i gymeradwyo gan y rheoleiddiwr
- Opsiwn 5: Gwneud dim

Pam wnaethoch chi ddewis yr opsiwn hwn? Beth yw ei fanteision a'i anfanteision? Mae croeso i chi awgrymu unrhyw wrth-gynigion, gan gyflwyno tystiolaeth lle bo hynny'n bosibl.

Cwestiwn 18: A ddylai treuliad anaerobig sy'n cael ei fwydo â chnydau fod yn ddarostyngedig i reoliadau a'i allbwn wedi ei reoli? A oes angen gweithredu i gryfhau'r rheoleiddio presennol ar dreuliad anaerobig sy'n cael ei fwydo o ffynonellau porthiant eraill neu i wella cydymffurfiaeth ac, os felly, sut y gellid cyflawni hyn yn effeithiol?

Cwestiwn 19: Ydych chi'n credu bod cael esemptiad gwastraff ar gyfer treuliad anaerobig yn gywir o ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â'r broses?

Cwestiwn 20: A oes ffyrdd gwell o werthuso treuliad ar gyfer ei ddefnyddio'n fuddiol ar dir, beth yw'r rhain, a beth yw'r dystiolaeth sy'n dangos y gallai hyn leihau'r risg amgylcheddol gyffredinol sy'n gysylltiedig â'r dulliau presennol o ddefnyddio treuliad anaerobig ar dir?

Pennod 6: Sicrhau Llywodraethiant Cryf a Chyfrifol ar gyfer Cwmnïau Dŵr yng Nghymru

Cwestiwn 21: Pa fesurau fyddai'n cryfhau safonau llywodraethiant ac atebolrwydd uwch mewn cwmnïau dŵr yng Nghymru?

Cwestiwn 22: Sut gall gofynion gwydnwch ariannol (e.e. lefelau cyfalaf gofynnol, bondiau amgylcheddol) gefnogi cynaliadwyedd, a pha egwyddorion ddylai lywio penderfyniadau ar fodelau perchnogaeth amgen?

Pennod 7: Adeiladu Seilwaith Ddŵr Gadarn ac Asedau Dŵr Iach i Gymru

Cwestiwn 23: Pa safonau gwydnwch sy'n seiliedig ar ganlyniadau fyddai fwyaf priodol i Gymru, a sut y gellir cryfhau mapio iechyd asedau a metrigau sy'n edrych tua'r dyfodol heb gostau anghymesur?

Cwestiwn 24: Pa gamau ddylai wella capasiti'r gadwyn gyflenwi a'r gweithlu ar gyfer darparu seilwaith yn y dyfodol?

Pennod 8: Sicrhau Newid - Y Cyfnod Pontio a Gweithredu yng Nghymru

Cwestiwn 25: Beth ddylai fod y blaenoriaethau allweddol yng nghynllun pontio Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio'r sector dŵr er mwyn darparu eglurder a sefydlogrwydd?

Cwestiwn 26: Sut gall mecanweithiau llywodraethiant a chynghori sicrhau ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod pontio, ac a fyddai goruchwyliaeth annibynnol yn ychwanegu gwerth? Os felly, ar ba ffurf y dylai fod?

Cwestiynau gorfodol am yr Effaith ar y Gymraeg

Cwestiwn 27: Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y cynigion yn y Papur Gwyrdd hwn ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?

Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Cwestiwn 28: Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid y cynigion yn y Papur Gwyrdd hwn er mwyn gwneud y canlynol:

- cael effeithiau positif neu effeithiau mwy positif ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Cwestiwn 29: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi:

Rhowch eich sylwadau yma:

